Dogfen ir Cyhoedd

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for an |
| **CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN** | **EXTRAORDINARY MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL** |
| ar | on |
| **DYDD IAU 26 HYDREF 2023 am 2:00 o'r gloch** | **THURSDAY 26 OCTOBER 2023 at 2:00 pm** |

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 12 Medi 2023.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

**4. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13 .1 Y CYFANSODDIAD**

**Derbyn y Rhybudd o Gynnig isod gan y Cynghorydd Nicola Roberts:-**

*'Rwy'n cyflwyno'r rhybudd o gynnig hwn er mwyn galw ar Lywodraeth y DU i ddiogelu ansawdd dŵr Ynys Môn a Chymru gyfan.*

*Rydym yn ystod y misoedd diwethaf wedi gweld amryw o esiamplau o ddŵr môr wedi effeithio gan fudreddi sy'n effeithio ar drigolion yr ynys, y sector twristiaeth a bywyd gwyllt. Roeddwn mewn digwyddiad gyda rhai o fy nghyd gynghorwyr dros yr haf er mwyn dangos ein cefnogaeth i'w cais am fwy o ymyrraeth gan y Llywodraeth i ddiogelu ansawdd ein dŵr.*

*Mae ffigyrau trychinebus gan Dŵr Cymru yn cadarnhau bod dros 20256 o oriau lle mae dŵr wast wedi ei ollwng yn rhydd i'n dyfroedd. Mae nifer uchel o oriau yma yn dangos bod y ffordd yma o waredu o dŵr wast yn cael ei ddefnyddio fel rhywbeth rheolaidd yn hytrach na fel mesur argyfwng yn unig. Mae effeithiau newid hinsawdd yn debygol o waethygu'r sefyllfa.*

*Nid oes modd cael datrysiad lleol gan y gallai gollwng carthion mewn un sir gael effaith ddaearyddol ar ein cymdogion mewn siroedd eraill. Mae'n rhaid felly cael datrysiad gan y Llywodraeth. Rwy'n erfyn arnoch i gefnogi fy nghais, a llythyru drwy'r Arweinydd, i alw ar Lywodraeth y DU am ymyrraeth sydyn.'*

**5. CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

**6. PENODI AELOD ANNIBYNNOL CYFETHOLEDIG I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

7. **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2022/23**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Hydref 2023.

8. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR AR EFFEITHIOLRWYDD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2022/23**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

9. **ADRODDIAD PERFFORMIAD / LLESIANT BLYNYDDOL 2022/23**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 26 Medi 2023.

10. **STRATEGAETH CYFRANOGIAD CYHOEDDUS 2023-28**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 26 Medi 2023.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 12 Medi 2023

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas Massie Fowlie, T Ll Hughes MBE, Llinos Medi, A M Jones, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, G O Jones, John Ifan Jones, R Ll Jones, Jackie Lewis, Euryn Morris, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams, Sonia Williams, Alwen Pennant Watkin, Arfon Wyn a Liz Wood |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Uwch Reolwr (Sector Uwchradd) (AE),<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol a Chontractau) (MY),<br>Rheolwr Busnes a Strategaeth Gwasanaeth (Priffyrdd) (GP),<br>Rheolwr yr Uned Cefnogi Teuluoedd (BHJ) (ar gyfer eitem 5 yn unig),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Dilwyn Evans (Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio) (ar gyfer eitem 11 yn unig);<br>Mr John R Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau) (ar gyfer eitem 12 yn unig). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Derek Owen |

### 1. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor Sir yn gywir:-

- 23 Mai, 2023 (Cyfarfod Cyffredinol) – 10.30 a.m.
- 23 Mai, 2023 (Cyfarfod Blynyddol) – 2.00 p.m.

**2.** **DATGAN DIDDORDEB**

Bu i'r Cynghorydd Margaret M Roberts ddatgan diddordeb personol a rhagfarnus mewn perthynas ag Eitem 10 – Penodi Cynghorydd Sir i'r Pwyllgor Safonau a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.

**3.** **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:-

- Llongyfarchiadau i holl aelodau ffermwyr ifanc Môn a fu'n cystadlu yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd.

- Llongyfarchiadau mawr hefyd i'r rhai a fu'n arddangos eu hanifeiliaid a'u cynnyrch yn y Sioe Fawr ac i Mr Richard Roberts o gwmni amaethyddol Emyr Evans am dderbyn gwobr am wasanaeth hir i'r cwmni.

- Llongyfarchiadau i bawb o'r Ynys a gymerodd ran yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhen Llŷn ym mis Awst ac yn enwedig i Gôr Ieuenctid Môn, dan arweiniad Mrs Mari Pritchard, a enillodd dri o brif wobrau corawl yr Eisteddfod.

- Llongyfarchiadau hefyd i'r rhai â chysylltiadau ag Ynys Môn a gafodd eu hurddo i'r orsedd eleni.

- Llongyfarchiadau i Ms Alison Cairns o Lannerch-y-medd am ennill y wobr Dysgwr y Flwyddyn yn yr Eisteddfod.

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at lwyddiant Sioe Môn eto eleni. Mynegodd ei diolch i'r Gymdeithas Amaethyddol ac i bawb a gefnogodd y sioe. Diolchodd hefyd i bawb fu ynghlwm â'r gwaith o drefnu pafiliwn y Cyngor yn y sioe.

- Dywedodd y Cadeirydd bod Ynys Môn wedi cael ei derbyn yn ddiweddar fel aelod swyddogol o Rwydwaith Byd-eang Cymunedau Oed-Gyfeillgar, Sefydliad Iechyd y Byd. Fel aelod newydd o'r rhwydwaith, mae'r Ynys yn rhan o symudiad byd-eang sydd yn ceisio creu cymunedau ble gall bawb edrych ymlaen at heneiddio'n dda ynddynt. Mynegodd ei diolch i Lywodraeth Cymru a Thîm Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am y gefnogaeth yn ystod y daith; Fforwm Pobl Hŷn Ynys Môn; y Cynghorydd Gwilym Jones ein Pencampwr Oed-Gyfeillgar; a staff a phartneriaid y Cyngor am eu gwaith caled.

- Llongyfarchiadau i Dîm Maethu Môn sydd wedi ennill dwy wobr gan *Fostering Network* Prydain. Enillodd dau o ofalwyr maeth yr Awdurdod y wobr *Kinship Carers* tra bod y Tîm Maethu wedi ennill y wobr ar gyfer Tîm Gweithwyr Cymdeithasol.

- Llongyfarchiadau mawr i Mrs Mary Davies sydd wedi derbyn MBE am ei gwasanaeth anrhydeddus fel Ymdriniwr Galwadau gyda British Telecom a'r Gwasanaethau Brys (999).

- Llongyfarchiadau mawr i staff y Gwasanaeth Archifau, dan arweiniad Ms Kelly Parry, ar eu llwyddiant diweddar. Mae'r tîm wedi gweithio'n hynod o galed ar gyfer asesiad diweddar ac wedi sicrhau eu bod yn cadw'r statws fel Archifdy Achredig

- Llongyfarchiadau i’r holl bobl ifanc sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau eleni. Diolchodd y Cadeirydd i’r athrawon a’r staff yn ein hysgolion yn ogystal am gefnogi’r bobl ifanc yn ystod eu taith addysgol.

*         *         *         *

Cydymdeimlwyd â Mrs Sharon Warnes, aelod annibynnol o’r Pwyllgor Safonau a’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ar golli ei gŵr yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd â’r cyn-gynghorydd John Griffith, ar golli ei wraig yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd â Mr Arwel Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, ar golli ei dad yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd hefyd ag unrhyw Aelod neu aelod o staff y Cyngor a oedd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Cafwyd munud o dawelwch a safodd yr Aelodau a Swyddogion fel arwydd o barch.

## 4. CYFLWYNO DEISEBAU

Dim wedi’u derbyn.

## 5. ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fel y’i cyflwynwyd i’r Pwyllgor Gwaith ar 27 Mehefin, 2023 i’w dderbyn gan y Cyngor.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant yn asesiad statudol sy’n nodi’r amcanion allweddol a fydd yn helpu i gefnogi twf a chadw darparwyr Gofal Plant ar yr Ynys i sicrhau sector gofal plant cynaliadwy sy'n cynnig cyfleoedd datblygu sylfaenol i blant gan gefnogi rhieni/gofalwyr i weithio. Diolchodd i staff y Gwasanaeth a’r partneriaid sy’n gysylltiedig â’r ddarpariaeth gofal plant ar Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022, y Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant a’r adroddiad cynnydd blynyddol fel rhan o’r Fframwaith Polisi (paragraff 3.2.2.1.1. yn y Cyfansoddiad) ac yna i Lywodraeth Cymru.**

## 6. HUNAN ASESIAD CORFFORAETHOL 2023

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid i’w dderbyn gan y Cyngor.
Dywedodd yr Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer bod yr adroddiad yn adlewyrchu ail hunanasesiad y Cyngor yn dilyn mabwysiadu’r cyntaf ym mis Medi, 2022 yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae’r adroddiad yn tystiolaethu allbwn fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor ac yn ddiweddglo proses sy’n dwyn ynghyd amryw o wahanol agweddau.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i:-**

**• Gytuno â'r addasiadau a awgrymwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac awdurdodi swyddogion i ddiwygio'r drafft terfynol o'r Asesiad Corfforaethol ar gyfer 2023;**
**• Mabwysiadu'r Hunanasesiad Corfforaethol ar gyfer 2023 yn ffurfiol;**
**• Cytuno ei fod yn cael ei anfon at y rhestr ganlynol o dderbynwyr o fewn y cyfnod o bedair wythnos yn dilyn y cyfarfod hwn fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:-**

**• Archwilydd Cyffredinol Cymru;**
**• Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, a**
**• Gweinidogion Cymru.**

**7. YMESTYN CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 28 Mehefin, a'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf, 2023 i'w dderbyn gan y Cyngor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer yn achos rhai materion, sy'n debygol o arwain at newidiadau cyfansoddiadol a fydd yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn, mae'n bwysig bod yr opsiynau, manteision ac anfanteision yn cael eu trafod yn fanwl cyn y gwneir penderfyniad. O dan y trefniadau presennol nid yw'n bosib trafod materion mewn llawer o fanylder yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn. Felly, dan yr amgylchiadau hyn, cynigir bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gwneud y gwaith hwn ar ran y Cyngor a'i fod hefyd yn ymateb i ymgynghoriadau yn ymwneud â materion cyfansoddiadol. Mae'r opsiynau eraill yn cynnwys sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen unigol ar gyfer pob darn o waith, neu sefydlu is-bwyllgor sefydlog o'r Cyngor. Fodd bynnag, gan fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ofyniad statudol, yn bwyllgor â chydbwysedd gwleidyddol a gan fod y cynnig yn cydweddu'n dda â'i rôl statudol, awgrymir mai newid cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yw'r ateb mwyaf ymarferol ac effeithiol. Ni fydd pob newid cyfansoddiadol yn cael ei ystyried neu ei drafod gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd; bydd hynny'n digwydd dim ond pan fydd angen trafodaeth neu benderfyniad ar ddewis lleol neu er mwyn cytuno ar ymateb i unrhyw ymgynghoriad ar faterion sy'n effeithio ar Gyfansoddiad y Cyngor. Y Swyddog Monitro, gyda chytundeb Cadeirydd y Pwyllgor, fydd yn penderfynu a fydd mater penodol yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor ai peidio. Bydd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y pŵer i gyflwyno argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â'r materion hyn yn unig ac ni fydd ganddo'r pŵer i wneud y newidiadau y mae'n eu hargymell.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i gynnwys y cynnig fel y nodir yn yr adroddiad, a bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei ddiwygio yn sgil y newid hwn.**

**8. CYNLLUN RHEOLI ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) – DRAFFT TERFYNOL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf 2023 i'w dderbyn gan y Cyngor.

Rhoddodd yr Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol amlinelliad o'r cefndir a'r gofynion statudol ar awdurdodau lleol sy'n gweinyddu AHNEoedd yn cynnwys paratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli ar gyfer eu hardal a'u hadolygu pob pum mlynedd. Mae'r Cynllun Rheoli AHNE yn ddogfen eang ac mae'n cyd-fynd yn llawn â Chynllun newydd y

Cyngor, a bydd yn helpu i gyflawni'r chwe blaenoriaeth allweddol yng Nghynllun y Cyngor. Mae'r Cynllun Rheoli hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Cyrchfan y Cyngor. Mae hefyd yn hanfodol i'r bobl, cymunedau a busnesau o fewn yr AHNE sydd yn dirwedd ddynamig a gweithredol yn ogystal ag ardal o harddwch naturiol eithriadol gyda'i rhinweddau arbennig. Nododd bod pum thema allweddol o fewn y Cynllun Rheoli ar gyfer 2023-2028 sef cyfoethogi cefn gwald a chymeriad yr arfordir; mynd i'r afael â'r argyfwng natur; yr AHNE fel lle i fwynhau a dysgu; cymunedau bywiog mewn tirwedd weithredol a rheoli'r AHNE mewn hinsawdd sy'n newid. Aeth ymlaen i ddweud bod y Cynllun Rheoli wedi bod drwy broses ymgynghori ac i'r Pwyllgor Sgriwtini perthnasol.

Dywedodd y Cynghorydd Robert Ll Jones er ei fod yn croesawu'r Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ei bod hi'n bwysig diogelu anghenion cymunedau lleol o fewn yr AHNE gan fod tai yn cael eu codi a choed yn cael eu torri o fewn yr AHNE.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol newydd ar gyfer 2023 – 2028.**

**9. MABWYSIADU CYNLLUN DEISEBAU DRAFFT**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf, 2023 i'w dderbyn gan y Cyngor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer bod Adran 42 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Deisebau. Cyhoeddwyd y Canllawiau drafft perthnasol ym mis Ebrill 2023. Mae'r Cynllun hwn yn ychwanegol at drefniadau presennol Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor sy'n galluogi aelodau etholedig i gyflwyno deisebau yng nghyfarfodydd y Cyngor. Mae'r Cynllun, yn Atodiad 1 yr Adroddiad, yn bodloni'r gofynion statudol newydd ac mae hefyd yn cynnwys rhai elfennau sy'n fater o ddewis lleol. Trafodwyd y rhain gyda'r Tîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, swyddogion perthnasol eraill ac Arweinyddion Grwpiau. Bydd deisebau dilys yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Bydd deisebau electronig hefyd yn cael ei cyhoeddus ar wefan y Cyngor gan ddefnyddio'r meddalwedd Modern.Gov sy'n cefnogi'r system bwyllgorau. Mae'r cynllun yn nodi'r broses ar gyfer cyflwyno deisebau i'r Cyngor a sut y byddant yn cael eu trin ac mae hefyd yn nodi'r amgylchiadau pryd y bydd deisebau'n cael eu gwrthod. Bydd y cynllun yn cael ei weithredu a'i reoli gan y Gwasanaethau Democrataidd a gyda chytundeb y Cyngor bydd yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar ôl bod yn weithredol am 12 mis.

**PENDERFYNWYD** yn unfrydol i:-

- **Fabwysiadu'r Cynllun Deisebu Drafft;**
- **Caniatáu i'r Swyddog Monitro addasu Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn ymgorffori'r Cynllun;**
- **Rhoi awdurdod i'r Swyddog Monitro wneud addasiadau bach i'r Cynllun, er mwyn sicrhau y gellir ei weithredu'n ddidrafferth, a bydd unrhyw newidiadau materol yn cael eu hawdurdodi gan y Cyngor llawn yn unig;**
- **Caniatáu i'r Pennaeth Democrataidd weithredu'r Cynllun cyn gynted â phosibl, a sicrhau y dilynir y camau priodol i hyrwyddo'r Cynllun i'r cyhoedd;**
- **Gofyn i'r Pennaeth Democrataidd baratoi adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar weithrediad y Cynllun cyn gynted â phosibl 12 mis ar ôl y dyddiad gweithredu.**

**10. PENODI CYNGHORYDD SIR I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i'w dderbyn gan y Cyngor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer bod sedd wag ar y Pwyllgor Safonau yn dilyn ymddiswyddiad un o'r Cynghorwyr Sir. Nododd bod penodi aelod etholedig o'r Cyngor Sir ar y Pwyllgor Safonau yn benderfyniad i'r Cyngor llawn. Yn unol â'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer Pwyllgorau Safonau nid yw'n bwyllgor sy'n denu cydbwysedd gwleidyddol; ni chaniateir i fwy nag un aelod o'r Pwyllgor Gwaith gynrychioli'r aelodau etholedig ar y Pwyllgor Safonau; ni chaniateir i Arweinydd y Cyngor fod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau.

Cynigodd Arweinydd y Cyngor benodi'r Cynghorydd Margaret M Roberts i gynrychioli'r Cyngor Sir ar y Pwyllgor Safonau. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Nicola Roberts.

Dywedodd y Cynghorydd Jeff Evans ei fod yn siomedig nad oedd y Pwyllgor Safonau'n bwyllgor â chydbwysedd gwleidyddol gan y byddai hynny'n caniatáu i'r Pwyllgor yn agored a thryloyw.

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Margaret Murley Roberts fel aelod etholedig o'r Cyngor Sir ar y Pwyllgor Safonau.**

*(Fe wnaeth y Cynghorwyr Paul Ellis, Jeff Evans, Douglas Fowlie, Aled M Jones, R Ll Jones a Liz Wood atal eu pleidlais)*

## 11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU ARCHWILIO 2022-23 – ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Cyflwynwyd adroddiad gan Y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Mehefin, 2023 i'w dderbyn gan y Cyngor.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2022/2023 gan Mr Dilwyn Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bod y Pwyllgor yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref. Nododd bod y dogfennau yn yr Adroddiad Blynyddol yn cyfeirio at y modd y mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod 2022/2023 er mwyn adrodd i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethiant h.y. y Cyngor Sir. Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw cael sicrwydd bod systemau rheoli mewnol y Cyngor yn gweithio a bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol, yn hytrach na chraffu ar weithgareddau.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2022/2023.**

## 12. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Safonau ar 14 Gorffennaf, 2023 i'w dderbyn gan y Cyngor.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau gan Mr John R Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd Mr Jones mai dyma ail adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Sir, yn unol â gofyniad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Aeth ymlaen i ddweud bod yr adroddiad yn amlinellu'r dyletswyddau a gyflwynwyd dan y Ddeddf a'r gwaith a gwblhawyd gan y Pwyllgor Safonau i fynd i'r afael â phrif ddarpariaethau'r Ddeddf. Dywedodd Mr Jones bod dyletswydd newydd wedi cael ei rhoi ar Arweinwyr Grŵp i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau'r Grŵp. Mae gan y Pwyllgor Safonau ddyletswydd newydd i fonitro sut y mae'r Arweinwyr Grŵp yn cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd hon ac i ystyried sut y mae'n sicrhau ei fod yn bodloni'r gofyniad i ddarparu cyngor a hyfforddiant i'r Arweinwyr Grŵp. Dywedodd Mr Jones bod yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith a gwblhawyd gan y Pwyllgor yn unol â'i gyfrifoldebau yn ystod 2022/2023 a chyflwynwyd y Rhaglen Waith ar gyfer 2023/2024 i'w chymeradwyo gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:-**
**• Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau;**
**• Cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/24, gan dderbyn y gallai materion ychwanegol gael eu cynnwys, yn unol â'r galw.**

*(Fe wnaeth y Cynghorwyr Paul Ellis, Douglas Fowlie, Aled M Jones, a Liz Wood atal eu pleidlais)*

**13. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A SGRIWTINI 2022/23**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i'w dderbyn gan y Cyngor.

Rhoddodd y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a'r Cynghorydd Robert Ll Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (hyd at fis Mai 2023) drosolwg o waith y ddau bwyllgor sgriwtini rhwng mis Mai 2022 a mis Mai 2023.

Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees bod Cadeiryddion y ddau Bwyllgor Sgriwtini wedi arwain y gwaith o ddatblygu'r Blaen Raglenni Gwaith sy'n cael eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgorau Sgriwtini. Aeth ymlaen i ddweud bod effaith a gwerth ychwanegol y gweithgareddau sgriwtini'n cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor drwy gefnogaeth a her. Nodwyd bod angen penodi Pencampwr Sgriwtini. Mae gan y Pencampwr Sgriwtini rôl bwysig o ran hyrwyddo'r swyddogaeth trosolwg a sgriwtini yn y Cyngor a gyda phartneriaid allanol yr Awdurdod. Mae'r rôl yn cael ei rhannu rhwng y ddau gadeirydd sgriwtini bob yn ail.

**PENDERFYNWYD** yn unfrydol i:-
**• Gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini ar gyfer 2022/23;**
**• Nodi'r cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud o ran ein siwrnai ddatblygu Sgriwtini a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ymarfer.**
**• Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn Bencampwr Sgriwtini ar gyfer y cyfnod Mai 2023 i Mai 2024.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.15 pm

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 26 Hydref 2023 |
| **TEITL YR ADRODDIAD :** | Penodi Aelod Annibynnol Cyfetholedig i'r Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Panel Dethol y Pwyllgor Safonau |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>lbxcs@ynysmon.llyw.cymru<br>01248 752586 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cadarnhau penderfyniad Panel Dethol y Pwyllgor Safonau |

**CEFNDIR**

1. O dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006) mae'n rhaid i'r Cyngor gael Pwyllgor Safonau sy'n cynnwys dim mwy na naw aelod, ac mae'n rhaid i'r mwyafrif o'r rhain fod yn aelodau annibynnol o'r cyhoedd.

2. Mae'r Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd yn cynnwys pum aelod annibynnol (yn cynnwys un sedd wag achlysurol), dau gynghorydd cymuned a dau gynghorydd sir.

3. Mae'n rhaid i aelodau annibynnol gael eu penodi gan y Cyngor ar sail argymhelliad gan Banel Dethol y Pwyllgor Safonau. Mae un sedd wag achlysurol ar y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd.

**SEDD WAG ACHLYSUROL AM AELOD ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU**

4. Mae Rheoliadau Statudol yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r Pwyllgor Safonau gael eu penodi gan y Cyngor, ond dim ond ar ôl cydymffurfio â phroses ddethol statudol. Er mwyn cynnal y broses recriwtio a dethol hon mae'r Cyngor Sir wedi dirprwyo ei awdurdod i Banel Dethol y Pwyllgor Safonau; mae'r panel hwn yn cynnwys un aelod annibynnol o'r cyhoedd, un cynghorydd cymuned a thri chynghorydd sir (ar sail cydbwysedd gwleidyddol).

5. Aelodau cyfredol y Panel ydi Cynghorydd Aled Morris Jones; Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd); Cynghorydd Margaret Murley Roberts; Cynghorydd Gordon Warren o Gyngor Tref Amlwch; a'r aelod annibynnol sef Dr Teleri Mair Jones.

5. Yng nghyfarfod Panel Dethol y Pwyllgor Safonau ar 6 Mehefin 2023, cymeradwyodd y Panel y broses recriwtio a chafodd y sedd wag ei hysbysebu ar wefan a gwefannau cymdeithasol y Cyngor (o 19/6/2023 hyd nes 7/7/2023), yn y Bangor and Anglesey Mail (ar 21/6/2023) a'r Daily Post (ar 24/6/2023).

6. Daeth yr hysbyseb i ben am 5yh ar 7 Gorffennaf a rhoddodd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau sylw i'r ceisiadau a dderbyniwyd mewn proses tynnu rhestr fer a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf.

7. Cafodd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer eu cyfweld gan Banel Dethol y Pwyllgor Safonau ar 26 Medi a 3 Hydref 2023, a chytunodd y Panel i enwebu **Mr Trefor Owen** i'w benodi'n aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol; mae'r rheini bellach wedi'u derbyn ac wedi cael eu hasesu gan Gadeirydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau.

**<u>ARGYMHELLION</u>**

Derbyn argymhellion Panel Dethol y Pwyllgor Safonau fel a ganlyn:-

1. penodi **Mr Trefor Owen** yn aelod annibynnol cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau, i ddod i rym yn syth;

2. petai sedd wag achlysurol am aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn codi yn ystod y deuddeng mis nesaf, penodi'n awtomatig **Mr Brace Griffiths** i'r rôl heb orfod mynd trwy broses recriwtio arall, ar yr amod bob tro bod yr ymgeisydd yn parhau'n gymwys ar gyfer y rôl, ac yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol cyn ei benodi; a

3. petai ail sedd wag achlysurol am aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn codi yn ystod y deuddeng mis nesaf, neu os na fyddai Mr Brace Griffiths ar gael, penodi'n awtomatig **Mr David Abbott** i'r rôl heb orfod mynd trwy broses recriwtio arall, ar yr amod bob tro bod yr ymgeisydd yn parhau'n gymwys ar gyfer y rôl, ac yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol cyn ei benodi.

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **26 HYDREF 2023** |
| **PWNC:** | **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2022/23** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **COUNCILLOR R WILLIAMS** |
| **SWYDDOGION SY'N ARWAIN:** | **R MARC JONES** |
| **SWYDDOGION CYSWLLT:** | **JEMMA ROBINSON**<br>**(EXT. 2675)** |

**Natur a rheswm dros adrodd**

Cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2022/23 (Atodiad 8 Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2022/23). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, cafodd yr adroddiad hwn ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 21 Medi 2023 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith heb sylwadau ar 24 Hydref 2023. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith i gyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor llawn heb sylw pellach.

**1. Cyflwyniad**

Yn unol â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio adolygiad rheoli trysorlys blynyddol o'i weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2022/23. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus).

Yn ystod 2022/23, y gofynion adrodd sylfaenol oedd y dylai'r Cyngor llawn dderbyn yr adroddiadau a ganlyn:-

- strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn i'r flwyddyn gychwyn (derbyniwyd ar 10 Mawrth 2022);
- adroddiad diweddaru canol blwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 9 Mawrth 2023);
- adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgareddau o gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddio yn gosod cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a chraffu ar bolisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn bwysig yn hynny o beth gan ei fod yn darparu manylion am y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac mae'n tynnu sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Mae'r Cyngor hwn yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofyniad o dan y Côd bod rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu ymlaen llaw ar bob un o'r adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn. Rhoddwyd hyfforddiant i Aelodau ar faterion rheoli'r trysorlys ar 14 Medi 2022 er mwyn cefnogi rôl sgriwtini yr aelodau.

Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y benthycwyd ac na aethpwyd y tu hwnt i'r terfyn benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig).

Hefyd, mae'r adroddiad yn nodi'r canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2022/23:-

- Ffactorau allanol – gan gynnwys adolygiad o'r economi, perfformiad cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn ac effaith Covid19;
- Ffactorau mewnol – gan gynnwys perfformiad gwariant cyfalaf, yr effaith ar y cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod, archwaeth risg o ran buddsoddiadau, y benthyciadau a gymerwyd gan y Cyngor a'r effaith ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC);

- Y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn 2022/23 – gan gynnwys rheoli dyledion y Cyngor, gweithredu’r polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) newydd, a benthyciadau a buddsoddiadau’r Cyngor yn ystod y flwyddyn;
- Rheoli’r Trysorlys – beth yw’r Dangosyddion Darbodus a sut y cânt eu mesur;
- Cymharu’r Dangosyddion Darbodus – cymharu’r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol gyda’r rhagolygon ar ddechrau’r flwyddyn;
- Edrych ymlaen at 2023/24 a thu draw i hynny; a’r
- Casgliad.

## 2. Adolygiad o’r Flwyddyn – Ffactorau Allanol

**2.1 Cyfraddau Llog –** Erbyn mis Mawrth 2022, roedd Cyfradd y Banc wedi gorffen ar 0.75%. Cynyddodd Cyfradd y Banc yn gyson trwy gydol 2022/23, gan ddechrau ar 0.75% a gorffen ar 4.25%.

**2.2 Yr Economi - y Deyrnas Unedig -** Yn erbyn cefndir o bwysau chwyddiant ystyfnig, llacio cyfyngiadau Covid yn yr economïau mwyaf datblygedig, ymosodiad Rwsia ar Wcráin, ac amryw o bolisïau gwahanol Llywodraeth y DU, nid yw'n syndod bod cyfraddau llog y DU wedi bod yn gyfnewidiol ar draws y gromlin, o Gyfradd y Banc i gynnyrch gilt 50 mlynedd, ar gyfer y cyfan o 2022/23.

Yn Chwarter 2 2022, gwelwyd twf o + 0.1% q/q yng Nghynnyrch Gros Domestic (GDP) y DU ond cafodd hyn ei wyrdroi'n gyflym yn y trydydd chwarter, er y gellir dweud mai Gŵyl y Banc ychwanegol yn sgil marwolaeth y Frenhines sydd i gyfri am rywfaint o'r gostyngiad yn y GDP. Roedd GDP Chwarter 4 yn gadarnhaol ar 0.1% q/q. Yn fwy diweddar, ym mis Ionawr gwelwyd cynnydd o 0.3% m/m mewn GDP wrth i nifer y streiciau leihau o'i gymharu â mis Rhagfyr. Hefyd, roedd y gwytnwch o ran gweithgaredd ar ddiwedd 2022, yn rhannol, oherwydd cynnydd o 1.3% q/q mewn incwm gwario gwirioneddol cartrefi. Roedd rhan fawr o hynny yn adlewyrchu'r taliadau gwerth £5.7bn a dderbyniwyd gan aelwydydd oddi wrth y llywodraeth o dan y Cynllun Cymorth Biliau Ynni.

Serch hynny, cododd chwyddiant CPI i’r hyn a ddylai fod yn ddarlleniad brig o 11.1% ym mis Hydref, er y bydd y gobaith am ostyngiadau sylweddol o'r lefel hon yn dibynnu'n fawr ar symudiadau yn y marchnadoedd nwy a thrydan, yn ogystal â'r ffactorau yn ymwneud â’r cyflenwyr sy'n effeithio ar brisiau bwyd. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o sylwebyddion yn disgwyl i'r mesur CPI o chwyddiant ostwng i tua 4% erbyn diwedd 2023. Ym mis Chwefror 2023, roedd y CPI yn 10.4%.

Bu gostyngiad yng nghyfradd diweithdra'r DU trwy gydol 2022 i’r lefel isaf ers 48 mlynedd, sef 3.6%, a hyn er gwaethaf cynnydd net o tua 500k o ran ymfudo. Fodd bynnag, erys y ffaith, gyda llawer o gyfranogwyr economaidd wedi'u cofrestru'n sâl yn y tymor hir, bod gweithlu'r DU wedi crebachu tua 500k yn y flwyddyn hyd at fis Mehefin. Heb gynnydd yng nghyfradd cyfranogiad y gweithlu llafur, mae'n anodd gweld sut y bydd economi'r DU yn gallu tyfu a ffynnu, a gyda chynnydd cyflogau ar gyfartaledd dros 6% bydd yr MPC yn pryderu y bydd chwyddiant cyflog yr un mor anwadal â chyflenwadau bwyd (i fyny 18.3% y/y ym mis Chwefror 2023) ac ynni sy’n cael ei effeithio ers ymosodiad Rwsia ar Wcráin ar 22 Chwefror 2022.

Yn y cyfamser, yn dilyn y gystadleuaeth am arweinyddiaeth y Blaid Geidwadol, daeth Liz Truss yn Brif Weinidog am saith wythnos gythryblus trwy fis Medi a Hydref. Yn syml, nid oedd y marchnadoedd yn hoffi'r polisïau torri trethi a gwariant trwm heb eu cyllido a gyflwynwyd gan ei Changhellor, Kwasi Kwarteng, a pharhaodd eu teyrnasiad prin saith wythnos cyn i'r Prif Weinidog Rishi Sunak a'r Canghellor Jeremy Hunt gymryd eu lle. Fe wnaeth Datganiad yr Hydref ar 17 Tachwedd arwain at dynhau cyllidol net o £55bn, er bod llawer o'r "gwaith penodol" wedi'i adael i'r Senedd nesaf ei gyflawni. Fodd bynnag, roedd y marchnadoedd yn hoffi'r hyn a glywsant, ac mae cynnyrch gilt y DU wedi gwyrdroi'r cynnydd a welwyd o dan denantiaid blaenorol Rhif 10/11 Stryd Downing, er eu bod yn parhau i fod yn uwch, yn unol ag economïau datblygedig yn gyffredinol.

Fel y nodwyd uchod, nid oedd y GDP yn uchel trwy gydol 2022/23, er bod y Mynegeion Rheolwr Prynu Cyfansawdd diweddaraf ar gyfer y DU, yr UD, EZ a China i gyd wedi synnu ar yr ochr orau, gan gofrestru sgoriau arolwg ychydig yn uwch na 50 (mae is yn awgrymu bod economïau'n crebachu, ac mae uwch yn awgrymu eu bod yn ehangu). Mae'n dal yn aneglur p'un a yw hynny'n golygu y bydd dirwasgiad bas, neu waeth, yn cael ei osgoi. Yn y pen draw, bydd yr MPC eisiau gweld tystiolaeth berthnasol o ostyngiad mewn pwysau chwyddiant a llacio mewn marchnadoedd llafur. Yn realistig, mae hynny'n ganlyniad annhebygol heb fod diweithdra'n codi a setliadau cyflog yn gostwng o'u lefelau presennol. Ar hyn o bryd, roedd y cynnydd mwy mewn cyflogaeth yn cadw'r gyfradd ddiweithdra ILO yn ddisymyd ar 3.7% ym mis Ionawr. Hefyd, er bod nifer y swyddi gwag wedi gostwng am y nawfed mis yn olynol ym mis Chwefror, fe wnaethant aros tua 40% yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig.

Mae ein dadansoddwyr economaidd, Capital Economics, yn disgwyl i GDP gwirioneddol grebachu oddeutu 0.2% q/q yn Chwarter 1 a rhagwelir dirwasgiad eleni sy'n cynnwys cwymp o'r brig i'r gwaelod o 1.0% mewn GDP go iawn. Mae'r £ wedi aros yn gadarn yn ddiweddar, gan godi o'r lefel isaf erioed o $1.035, ar y dydd Llun yn dilyn "digwyddiad cyllidol" llywodraeth Truss, i $1.23. Er gwaethaf perfformiad gwell y £ yn ddiweddar, yn 2023 mae'n debygol y bydd newid sylweddol o ran tai gan fod morgeisi cyfradd sefydlog wedi symud dros 4.5% ac mae fforddiadwyedd wedi'i wasgu er bod toriadau Treth Stamp arfaethedig yn dal yn eu lle.

## 3. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Mewnol

**3.1 Gwariant a Chyllid Cyfalaf 2022/23 –** Mae'r Cyngor yn mynd i wariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Gellir cyllido'r gweithgareddau hyn naill ai:-

- Ar unwaith trwy adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati), nad yw'n cael unrhyw effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- Trwy fenthyca: os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os penderfynir peidio â defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn arwain at yr angen i fenthyca.

Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn un o'r dangosyddion darbodus angenrheidiol. Mae'r tabl isod yn dangos y gwir wariant cyfalaf a sut y cyllidwyd hyn:-

| | **Amcangyfrif 2022/23 (£'m)** | **Gwirioneddol 2022/23 (£'m)** |
|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol | 40 | 30 |
| Gwariant Cyfalaf o'r CRT | 15 | 11 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **55** | **41** |
| Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau | 19 | 19 |
| CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau | 3 | 4 |
| Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor | 8 | 3 |
| CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor | 10 | 7 |
| **Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol a gyllidwyd trwy fenthyca** | **13** | **8** |
| **Gwariant cyfalaf o'r CRT a gyllidwyd trwy fenthyca** | **2** | **0** |

Y prif reswm am y tanwario oedd y tanwariant mawr yn erbyn y prosiectau a restrir isod:-

| Cynllun | Tanwariant £'m | Sylwadau |
|---|---|---|
| Adnewyddu adeiladau ysgol | 1.186 | Yn rhan olaf 2022/23, dyfarnwyd £1.189m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyfalaf ysgolion. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido gwariant cyfalaf ar adeiladau addysg yn 2022/23, yn lle cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid a arbedir gan yr Awdurdod o'r grant hwn nawr yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwaith cyfalaf ysgolion yn 2023/24. |
| Prydau Ysgol am Ddim | 0.600 | Yn rhan olaf 2022/23, dyfarnwyd £0.832m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer ysgolion ar gyfer cyflwyno'r cynllun paratoi prydau ysgol am ddim. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf a benderfynwyd yn lleol yn 2022/23, yn lle cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Roedd £0.013m o wariant hefyd yr oedd yr Awdurdod yn ystyried yn wariant refeniw, er ei fod yn gymwys yn unol â thelerau'r grant, felly, trosglwyddwyd £0.013m o'r cyllid hwn i refeniw, oedd yn golygu bod y gyllideb gyfalaf yn £0.819m. Bydd y cyllid a arbedir gan yr Awdurdod o'r grant hwn nawr yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwaith paratoi prydau ysgol am ddim yn 2023/24. |
| Grant Ysgolion Bro | 0.451 | Yn 2022/23, dyfarnwyd £0.476m o gyllid grant i'r Awdurdod i gefnogi prosiectau ymarferol ar raddfa fach a chanolig i agor ysgolion y tu allan i'r oriau traddodiadol, yn benodol i addasu ac agor ysgolion yn ddiogel y tu allan i oriau traddodiadol, er mwyn i gymuned allu defnyddio'r cyfleusterau presennol. Ychydig iawn o wariant a gafwyd yn 2022/23 ac, oherwydd amseriad y cyllid, roedd disgwyl i'r cynllun danwario yn unol ag adroddiadau monitro blaenorol.<br><br>Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf a benderfynwyd yn lleol yn 2022/23, yn lle cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Roedd £0.025m o wariant hefyd yr oedd yr Awdurdod yn ystyried yn wariant refeniw, er ei fod yn gymwys yn unol â thelerau'r grant, felly, trosglwyddwyd £0.025m o'r cyllid hwn i refeniw, oedd yn golygu bod y gyllideb gyfalaf yn £0.451m. Bydd y cyllid a arbedir gan yr Awdurdod o'r grant hwn nawr yn cael ei ddefnyddio i gyllido prosiectau Ysgolion Bro yn 2023/24. |
| Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | 0.436 | Yn 2022/23, dyfarnwyd £0.476m o gyllid grant i'r Awdurdod i gefnogi dysgwyr ag ADY. Ychydig iawn o wariant a gafwyd yn 2022/23 ac, oherwydd amseriad y cyllid, roedd disgwyl i'r cynllun danwario yn unol ag adroddiadau monitro blaenorol.<br><br>Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido cynlluniau cyfalaf a benderfynwyd yn lleol yn 2022/23, yn lle cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid a arbedir gan yr Awdurdod o'r grant hwn nawr yn cael ei ddefnyddio i gyllido prosiectau ADY yn 2023/24. |

| Cynllun | Tanwariant £'m | Sylwadau |
|---|---|---|
| Adeilad Addysg Mynediad i'r Anabl | 0.145 | Mae hyn oherwydd bod addasiadau i'r anabl wedi'u cwblhau ym mhob ysgol uwchradd ac eithrio un. Mae'r ysgol uwchradd sy'n weddill wedi'i gohirio hyd nes ceir canlyniad yr astudiaethau dichonoldeb. Mae gwaith i ysgolion cynradd yn cael eu cwblhau yn ôl yr angen.<br><br>Er bod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud, efallai y bydd angen rhagor o waith yn y dyfodol i fynd i'r afael ag anghenion unigolion nad ydynt yn hysbys i ni eto ac, felly, mae'n ofynnol i'r tanwariant lithro i 2023/24. |
| Cynlluniau Llifogydd amrywiol | 1.198 | Mae rhai cynlluniau yn parhau ac yn cynnwys gwahanol flynyddoedd ariannol. Yn achos eraill, bu oedi a chaniatawyd estyniadau amser i'w cwblhau gyda sêl bendith Lywodraeth Cymru i ddwyn ymlaen y cyllid, ac mae cynlluniau eraill wedi eu cwblhau. |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol – Gwelliannau i'r isadeiledd | 0.416 | Oherwydd natur y gwaith a'r amser a gymerir i ddarparu isadeiledd, mae estyniad amser wedi'i sicrhau tan fis Mehefin 2023. |
| Isadeiledd Morwrol | 0.178 | Mae gwaith yn Amlwch yn cael ei flaenoriaethu ac, er bod gwaith cefndir wedi dechrau ac ymgynghorwyr wedi eu penodi, mae angen y gyllideb lawn o hyd, a bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn digwydd yn 2023/24. |
| Isadeiledd Ymwelwyr | 0.199 | Yn unol ag adroddiadau monitro blaenorol, roedd disgwyl i'r cynllun hwn lithro, a rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn digwydd yn 2023/24. |
| Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu – Band B | 1.191 | Bu oedi o 18 wythnos oherwydd bod y ddaear yn hynod wlyb. Bu'n rhaid gwneud gwaith draenio ychwanegol. Mae'r gwaith o agor ffosydd a chreu sylfeini concrit wedi cychwyn. Aros am gadarnhad o gynnydd mewn costau oherwydd oedi, gwaith draenio, amodau gwael y ddaear a sylfeini concrit dyfnach. |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 0.466 | Mae'r broses atgyfeirio gan y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi arafu, yn sgil y pandemig, ynghyd â phrinder contractwyr. Roedd mwy o atgyfeiriadau wedi'u cymeradwyo ond, gyda chronfa lai o gontractwyr, nid yw'r gwaith yn cael ei gwblhau mor gyflym. Mae'r mater hwn yn cael sylw yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod. |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 0.491 | Roedd y prisiau tendro cychwynnol a dderbyniwyd yn uwch na'r cyllid oedd ar gael. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ailgynllunio'r cynllun i leihau'r costau i gyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael. |
| Gwaith cyfalaf i asedau presennol | 0.476 | Mae'r gyllideb sy'n weddill wedi ymrwymo i waith sy'n cynnwys 2022/23 a 2023/24. Mae'r gwaith yn cynnwys buddsoddiad sylweddol yng Nghanolfannau Hamdden Caergybi ac Amlwch. |

| Cynllun | Tanwariant £’m | Sylwadau |
|---|---|---|
| Uwchraddio Cyfleusterau Cyhoeddus | 0.361 | Mae'r gwasanaeth wrthi'n datblygu cynllun gwella cyfleusterau cyhoeddus, a fydd yn rhoi gwell syniad o'r gofynion cyfalaf yn y flwyddyn ariannol nesaf. Rhagwelir hefyd y gallai cyllid grant pellach ar gyfer gwaith cyfalaf i gyfleusterau cyhoeddus ddod yn y flwyddyn ariannol nesaf, a gellid defnyddio rhan o'r gyllideb hon eto fel cyllid cyfatebol os bydd y cyfle yn codi. |
| Cerbydau | 0.510 | Mae cynllun yn cael ei roi ar waith i ddarparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan yn y safle, fodd bynnag, nid ydynt wedi'u cwblhau eto a, hyd nes y cyflawnir y broses derfynol, gohiriwyd archebion ar gyfer cerbydau trydan. Mae cerbydau eraill wedi'u harchebu cyn diwedd y flwyddyn, fodd bynnag, oherwydd yr amser a gymerir i’w cyflenwi, byddant yn cael eu derbyn ar ôl diwedd y flwyddyn ac, felly, bydd yn ofynnol i'r gyllideb lithro i'r flwyddyn ariannol 2023/24. |
| Cronfa Gofal Integredig (ICF) | 0.694 | Hawliwyd £0.852m drwy'r ICF yn y flwyddyn flaenorol a thrwy gyllid a ddadleolwyd, i'r prosiectau lithro i 2022/23 i’w cwblhau. Bydd rhai o'r prosiectau'n parhau yn 2023/24 a chytunwyd gyda'r tîm rhanbarthol y gellir dwyn ymlaen y cyllid i gyllido’r gwaith o’u cwblhau yn 2023/24. |

**3.2** **Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau Arian Parod** – Mae balansau arian parod y Cyngor yn cynnwys adnoddau refeniw a chyfalaf a chyllid ar gyfer llif arian. Roedd adnoddau arian parod craidd y Cyngor fel a ganlyn:-

| Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau y gellir eu defnyddio | Drafft 31 Mawrth 2023 £’m | Terfynol 31 Mawrth 2022 £’m |
|---|---|---|
| Cronfa wrth gefn gyffredinol Cronfa’r Cyngor | 13.967 | 12.278 |
| Cronfeydd wrth gefn clustnodedig | 19.637 | 23.181 |
| Cronfa wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 12.107 | 12.333 |
| Cronfeydd wrth gefn ysgolion | 6.716 | 7.827 |
| Cronfeydd wrth gefn derbyniadau cyfalaf | 1.908 | 2.381 |
| Grant Cyfalaf heb ei Ddefnyddio | 0.407 | 0.000 |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio** | **54.742** | **58.000** |
| | | |
| **Darpariaethau** | **5.037** | **4.915** |
| | | |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a’r darpariaethau** | **59.779** | **62.915** |

**3.3 Allanoli benthyca –** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r GCC yn deillio o weithgareddau cyfalaf y Cyngor a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2022/23 a gyllidwyd drwy fenthyca, a gwariant cyfalaf a gyllidwyd drwy fenthyca yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei ad-dalu gyda refeniw neu adnoddau eraill. Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido ar gyfer yr angen benthyca hwn. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae'r Gwasanaeth Trysorlys yn trefnu arian parod y Cyngor er mwyn sicrhau bod arian parod digonol ar gyfer y cynlluniau cyfalaf a'r gofynion llif arian. Gallai hyn gael ei gyllido drwy fenthyca gan gyrff allanol (megis y Llywodraeth, drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian) neu drwy ddefnyddio adnoddau arian parod dros dro o fewn y Cyngor. Ni fenthycwyd unrhyw gyllid allanol yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23.

**3.3.1 Benthyca Gros a'r GCC -** Er mwyn sicrhau bod y lefelau benthyca'n ddarbodus dros y tymor canol ac y benthycir at ddibenion cyfalaf yn unig, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrif o unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca er mwyn cefnogi gwariant refeniw.

Mae'r strategaeth fenthyca fewnol bellach wedi bod ar waith yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r benthyca gros o £123.8m ar 31 Mawrth 2023 yn llai na'r GCC a ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd nesaf:-

| | **Gwirioneddol 2022/23 £'m** | **Amcangyfrif 2023/24 £'m** | **Amcangyfrif 2024/25 £'m** |
|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 144.1 | 173.9 | 202.7 |

**3.3.2 Benthyca mewnol -** yw pan ddisgwylir, dros y tymor canol, i'r cyfraddau buddsoddi barhau i fod yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hyn yn golygu y byddai ystyriaethau gwerth am arian yn dangos y gellid cael gwerth am arian drwy osgoi cymryd benthyciadau allanol newydd a drwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyledion allanol sy'n aeddfedu. Byddai hyn yn sicrhau'r arbedion tymor byr gorau. Y ffigwr benthyca mewnol yw'r gwahaniaeth rhwng y GCC a'r Sefyllfa Benthyca Gros. Fel y gwelir o'r tabl isod, ar ddechrau'r flwyddyn, y sefyllfa fenthyca fewnol oedd £12.5m. Nid oedd unrhyw fenthyciadau PWLB newydd yn ystod y flwyddyn ac roedd oedd angen ad-dalu £2.285m, a derbyniwyd benthyciad di-log o £1.123m yn ystod y flwyddyn (yn unol â 3.4 a 3.5 isod). Mae hyn yn golygu bod y sefyllfa benthyca mewnol ar 31 Mawrth 2023 yn £20.3m:-

| | **31 Mawrth 2022 Gwirioneddol £'m** | **31 Mawrth 2023 Gwirioneddol £'m** |
|---|---|---|
| Sefyllfa fenthyca gros | 125.3 | 123.8 |
| GCC | 137.8 | 144.1 |
| (Tangyllido / Gorgyllido'r GCC | (12.5) | (20.3) |

**3.4 Benthyciadau eraill -** Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor gymryd unrhyw fenthyciadau tymor byr eraill. Derbyniwyd benthyciad di-log o £1.123m yn ystod 2022/23 i gyllido gwariant cyfalaf ar brosiectau arbed ynni a bydd yn cael ei ad-dalu mewn rhandaliadau blynyddol.

**3.5** **Ad-dalu Dyledion** - Roedd tri benthyciad PWLB yn aeddfedu yn ystod y flwyddyn. Roedd £1m yn aeddfedu ar 19 Awst 2022. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol ym mis Gorffennaf 2007 ar sail cyfradd llog o 5.35%. Roedd £1.0m wedi'i aeddfedu ar 16 Ionawr 2023. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol ym mis Mai 1995 ar sail cyfradd llog o 8.5%. Roedd £0.285m wedi'i aeddfedu ar 31 Mawrth 2023. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol ym mis Mai 1995 ar sail cyfradd llog o 8.5%. Nid oes benthyciadau tymor byr yn weddill.

**3.6** **Buddsoddiadau –** Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod), er y cedwid y gallu i fuddsoddi am gyfnodau hwy. Roedd disgwyl i falansau arian parod fod hyd at £65m, yn amrywio rhwng £38m a £65m. Roedd y gyllideb llog o £5k a osodwyd ar gyfer 2022/23 yn seiliedig ar y llog a dderbyniwyd y flwyddyn flaenorol, gan ystyried y cyfraddau llog isel, buddsoddiadau cyfyngedig mewn Awdurdodau Lleol eraill a'r ffaith bod enillion ar fuddsoddiadau yn parhau i fod yn agos at sero ar adeg paratoi'r gyllideb y gellir derbyn llog arni ar gyfer 2022/23. Fodd bynnag, gyda chyfraddau llog yn codi'n uwch na'r hyn a ragwelwyd ar adeg paratoi cyllideb 2022/23 ac, felly'n darparu mwy o gyfleoedd i fuddsoddi arian dros ben, mae balansau cyfartalog o £55.8m wedi sicrhau £0.86m ar gyfradd llog gyfartalog o1.55%.

Bu gwelliant o ran adenillion buddsoddiadau yn ystod 2022/23 wrth i fanciau canolog, gan gynnwys Banc Lloegr, sylweddoli nad oedd pwysau chwyddiant yn rhywbeth dros dro, a bod galw am bolisi ariannol tynnach. Gan ddechrau ym mis Ebrill ar 0.75%, cynyddodd y Gyfradd Banc yn raddol naill ai 0.25% neu 0.5%, gan gyrraedd 4.25% erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r potensial am un neu ddau gynnydd pellach yn 2023/24.

Roedd rhai o adneuon y Cyngor mewn cyfrifon nad oes angen rhoi rhybudd ar gyfer tynnu arian allan ac maent yn talu llog ar gyfraddau sy'n agos i'r gyfradd sylfaenol ar y pryd, £11.521m ar 1.25% ar 31 Mawrth 2023 (31 Mawrth 2022 £38.616m ar 0.05%). Roedd pedwar buddsoddiad tymor byr arall ar 31 Mawrth 2023 - £30.0m ar gyfradd llog o 3.96% (£7.5m ar 0.77% ar 31 Mawrth 2022). Roedd pob buddsoddiad am lai na blwyddyn.

Ar 22 Gorffennaf 2022, aeddfedodd buddsoddiad o £7.5m gyda Goldman Sachs (oedd yn daladwy ar 31 Mawrth 2022), ac fe'i hail-fuddsoddwyd ar yr un dyddiad. Ceir manylion am yr holl fuddsoddiadau newydd yn y flwyddyn, gyda'u cyfraddau llog, yn y tabl isod:-

| Gwrth Barti | Dyddiad Dechrau | Dyddiad Dod i ben | Cyfradd Llog % | Swm £ |
|---|---|---|---|---|
| Banc y National Westminster | 11/04/2022 | 11/10/2022 | 1.30 | 10,000,000 |
| Santander | 10/05/2022 | 10/11/2022 | 1.47 | 7,500,000 |
| Cymdeithas Adeiladu Nationwide | 17/05/2022 | 17/08/2022 | 0.97 | 7,500,000 |
| Goldman Sachs | 22/07/2022 | 22/12/2022 | 2.18 | 7,500,000 |
| Cymdeithas Adeiladu Nationwide | 17/08/2022 | 17/11/2022 | 1.87 | 7,500,000 |
| Banc y National Westminster | 11/10/2022 | 11/01/2023 | 2.70 | 10,000,000 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 25/10/2022 | 25/04/2023 | 3.80 | 5,000,000 |
| Santander | 10/11/2022 | 10/02/2023 | 3.24 | 7,500,000 |
| Cymdeithas Adeiladu Nationwide | 17/11/2022 | 17/02/2023 | 3.03 | 7,500,000 |
| Cyngor Cernyw | 25/11/2022 | 27/02/2023 | 3.06 | 5,000,000 |
| Goldman Sachs | 22/12/2022 | 22/06/2023 | 3.83 | 7,500,000 |
| Banc y National Westminster | 11/01/2023 | 11/07/2023 | 4.10 | 10,000,000 |
| Santander | 10/02/2023 | 10/05/2023 | 4.00 | 7,500,000 |
| Cyngor Cernyw | 27/02/2023 | 24/03/2023 | 3.90 | 5,000,000 |

**3.7 Sefyllfa'r Trysorlys ar 31 Mawrth 2023** – Mae sefyllfa dyledion a buddsoddi'r Cyngor yn cael ei threfnu gan y Gwasanaeth Rheoli Trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer y gweithgareddau refeniw a chyfalaf, diogelwch ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli risgiau o fewn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy gyflwyno'r adroddiadau a nodir yn y crynodeb i Aelodau, a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2022/23. Nid aethpwyd tu hwnt i'r terfynau uchaf ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiol yn ystod y flwyddyn. Mae ffigyrau benthyca a buddsoddi'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2021/22 a 2022/23 fel a ganlyn: -

| | **31 MAWRTH 2022** | | | **31 MAWRTH 2023** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'m** | **Cyfradd Gyfartalog (%)** | **Aeddfedrwydd Cyfartalog (blynyddoedd)** | **£'m** | **Cyfradd Gyfartalog (%)** | **Aeddfedrwydd Cyfartalog (blynyddoedd)** |
| Dyled i'r PWLB | 121.9 | 4.58 | 29.58 | 119.6 | 4.54 | 29.15 |
| Dyledion Eraill | 3.4 | 0 | 4.03 | 4.2 | 0 | 3.73 |
| **Cyfanswm** | **125.3** | | | **123.8** | | |
| GCC | 137.8 | | | 144.1 | | |
| Gor / (tan) fethyca | (12.5) | | | (20.3) | | |
| Buddsoddiadau tymor sefydlog (pob un < 1 blwyddyn, wedi eu rheoli yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog) | 7.500 | 0.765 | | 30.000 | 3.96 | |
| Buddsoddiadau di-rybudd (pob un wedi ei reoli yn fewnol) | 38.616 | 0.05 | | 11.521 | 1.25 | |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **46.116** | **0.17** | | **41.521** | **3.21** | |

Dadansoddiad pellach o'r benthyca yn ôl y cyfnod aeddfedu:-

| | **31 MAWRTH 2022** | | **31 MAWRTH 2023** | |
|---|---|---|---|---|
| | **£'m** | **% o'r cyfanswm** | **£'m** | **% o'r cyfanswm** |
| Cyfanswm benthyca | 125.3 | 100 | 123.8 | 100 |
| Llai na 12 mis | 2.7 | 2.2 | 2.3 | 1.9 |
| 1 – 3 blynedd | 3.4 | 2.7 | 3.3 | 2.7 |
| 4 – 6 blynedd | 4.5 | 3.6 | 5.6 | 4.5 |
| 7 – 10 mlynedd | 4.9 | 3.9 | 3.8 | 3.1 |
| 10 mlynedd a mwy | 109.8 | 87.6 | 108.8 | 87.8 |

Ni chymerwyd benthyciadau newydd yn ystod y flwyddyn (tymor hir neu fyr), gyda benthyciad di-log yn cael ei dderbyn yn y flwyddyn fel y nodir yn 3.4 uchod. Mae ad-daliadau dyled wedi cael eu disgrifio ym mhwynt 3.5 uchod. Felly, mae'r symudiadau yn y categorïau uchod yn unol â dyddiadau aeddfedu'r benthyciadau yn unig.

## 4. Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor 2022/23

**4.1 Aildrefnu Dyledion –** Ni chafodd unrhyw ddyledion eu haildrefnu yn ystod y flwyddyn gan fod y gwahaniaeth o 1% ar gyfartaledd rhwng cyfraddau benthyca newydd y PWLB a chyfraddau ad-dalu cynamserol yn golygu nad oedd yn werth aildrefnu.

4.2 **Benthyca cyn bod angen –** Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor fenthyg mwy nag yr oedd ei angen, na chyn bod angen, dim ond er mwyn elwa ar fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd.

4.3 **Polisi Buddsoddi** – Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cael ei reoli gan ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru, a roddwyd ar waith yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Mawrth 2022. Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi, ac mae'n seiliedig ar statws credyd a ddyfarnwyd gan y tair prif asiantaeth statws credyd ac ar ddata ychwanegol mewn perthynas â'r farchnad (megis rhagolygon ar gyfer cyfraddau, cyfnewidiadau diffyg credyd, prisiau cyfranddaliadau banc ac ati). Roedd y gweithgareddau buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw anawsterau hylifedd. Pan fydd y Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben, yr elfen bwysicaf yw diogelwch y buddsoddiad, ac yna pa mor hawdd yw cael gafael ar arian parod pe bai'r Cyngor ei angen ac wedyn canran y llog y bydd y Cyngor yn ei dderbyn am y buddsoddiad. Y strategaeth ar fuddsoddi arian parod dros ben fyddai benthyca tymor byr gydag Awdurdodau Lleol eraill i sicrhau'r enillion mwyaf mewn ffordd ddiogel.

4.4 **Strategaeth fenthyca a rheoli risg cyfraddau llog** – Yn ystod 2022/23, cynhaliodd y Cyngor sefyllfa o danfenthyca. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr angen benthyca cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn â dyled benthyciadau, gan fod arian parod a oedd yn cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor yn cael ei ddefnyddio fel cam dros dro. Roedd y strategaeth hon yn un ddarbodus gan fod enillion ar fuddsoddiadau yn isel iawn ac roedd angen ystyried lleihau risg gwrthbartïon wrth fuddsoddi hefyd.

4.5 **Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP)** – Yn 2022/23, rhoddodd y Cyngor bolisi MRP newydd ar waith ar ôl gofyn am gyngor gan ei gynghorwyr Trysorlys. Mae'r polisi newydd yn ddull mwy darbodus, gyda'r tâl MRP yn adlewyrchu'r newid yng ngwerth asedau. Gellir gweld y polisi newydd yn Atodiad 6 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023.

## 5. Rheoli'r Trysorlys

Mae'r dangosyddion Darbodus canlynol wedi'u cynnwys yn Atodiad 11 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Gweler isod esboniad byr o beth yw'r dangosyddion a sut y byddant yn cael eu cyfrifo. Bydd Adran 6 yr adroddiad hwn yn dadansoddi'r gwahaniaethau rhwng y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a'r rhai a ragwelwyd ar gyfer 2022/23.

- **Gwariant Cyfalaf – Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf** – Dyma'r rhagolwg o'r Gwariant Cyfalaf rhwng 2022/23 a 2025/26, ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2023/24.

- **Angen y Cyngor i Fenthyca (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)** - Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) y Cyngor. Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol sy'n weddill na thalwyd amdano eto, naill ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n cyfateb i angen benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf uwch na hynny, ac na thalwyd amdano'n syth drwy adnoddau refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu'r GCC. Nid yw'r GCC yn cynyddu am gyfnod amhenodol, gan fod y ddarpariaeth refeniw isaf (MRP) yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn fras, yn lleihau'r angen i fenthyca yn unol â hyd oes pob ased ac, felly, codir tâl am yr asedau cyfalaf fel y byddant yn cael eu defnyddio.

- **Doethineb Ariannol – Dyledion Gros a'r GCC** – Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw ei ddyledion gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrif o unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2022/23 a'r ddwy flynedd ariannol ganlynol. Mae hyn yn golygu bod peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca cyfyngedig cynnar ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ond mae'n sicrhau na fenthycir at ddibenion refeniw.

- **Dyledion Allanol - Y trothwy awdurdodedig ar gyfer dyledion allanol** - Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn cyfyngu lefel y benthyca i uchafswm penodol. Mae'n uchafswm na fedrir benthyca'n allanol y tu draw iddo, ac mae angen i'r uchafswm hwn gael ei osod neu ei adolygu gan y Cyngor llawn. Mae'n adlewyrchu lefel y ddyled allanol, er nad yn ddelfrydol, y gellir ei chynnal yn y tymor byr, ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hir. Dyma'r cyfyngiad statudol y penderfynir arno o dan Adran 3 (1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai cynlluniau'r holl gynghorau, neu gynlluniau cyngor penodol, er nad yw'r pŵer hwn wedi'i roi ar waith hyd yma. Mae'r Swyddog Adran 151 yn adrodd fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r dangosydd darbodus hwn yn ystod y flwyddyn gyfredol ac nad yw'n rhagweld anawsterau ar gyfer y dyfodol. Mae'r safbwynt hwn yn ystyried yr ymrwymiadau presennol, y cynlluniau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad ar y gyllideb. Mae'r Uchafswm Awdurdodedig yn cael ei osod yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Y terfyn gweithredol** – Dyma'r terfyn na ddisgwylir i ddyledion allanol fod yn uwch nag ef fel arfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai hwn yn ffigwr tebyg i'r GCC, ond gallai fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r dyledion gwirioneddol a'r gallu i gyllido tanfenthyciadau drwy adnoddau ariannol eraill. Mae'n dderbyniol cael cyfnodau pan fo'r sefyllfa wirioneddol naill ai o dan neu uwchben y terfyn gweithredol ar yr amod nad eir y tu hwnt i'r terfyn awdurdodedig. Gosodir y Terfyn Gweithredol yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a chaiff ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Fforddiadwyedd – Y gymhareb rhwng costau cyllido a'r ffrwd refeniw net** – Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r duedd yng nghost cyfalaf (benthyca a chostau rhwymedigaethau hirdymor eraill net o incwm o fuddsoddiadau) yn erbyn y llif refeniw net.

## 6. Y Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol o gymharu â'r Rhai a Ddisgwyliwyd

**6.1** Yn ystod 2022/23, cydymffurfiodd y Cyngor â'i ofynion deddfwriaethol a rheoleiddio. Mae'r data allweddol ar gyfer y dangosyddion darbodus a'r dangosyddion trysorlys gwirioneddol, sy'n nodi effaith y gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys Gwirioneddol | 2021/22 Gwirioneddol £'m | 2022/23 Gwreiddiol £'m | 2022/23 Gwirioneddol £'m |
|---|---|---|---|
| **Gwariant Cyfalaf** | | | |
| • Dim CRT | 23.734 | 17.177 | 29.510 |
| • CRT | 9.723 | 18.784 | 11.180 |
| • **Cyfanswm** | **33.457** | **35.961** | **40.690** |
| **Cyfanswm Gofynion Cyllido Cyfalaf:** | | | |
| • Dim CRT | 99.387 | 107.867 | 105.824 |
| • CRT | 38.415 | 43.646 | 38.287 |
| • **Cyfanwm** | **137.802** | **151.513** | **144.111** |
| **Benthyca Gros** | 124.348 | 144.335 | 123.800 |
| **Dyledion Allanol** | 124.348 | 144.335 | 123.800 |
| **Buddsoddiadau** | | | |
| • Mwy nag 1 flwyddyn | 0 | 0 | 0 |
| • Llai nag 1 flwyddyn | 46.116 | 15.000 | 41.522 |
| • **Cyfanswm** | **46.116** | **15.000** | **41.522** |
| Costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net – Cronfa'r Cyngor | 4.50% | 4.40% | 2.78% |
| Costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net - CRT | 9.12% | 13.40% | 7.18% |

**6.2** Y Dangosydd Darbodus cyntaf yn y tabl uchod yw'r Gwariant Cyfalaf. Y Gwariant Cyfalaf a ragwelwyd ar adeg paratoi'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2022/23 oedd £35.961m. Fodd bynnag, y gwir wariant oedd £40.690m. Roedd y dangosydd darbodus yn seiliedig ar y gyllideb gyfalaf a gymeradwywyd ar gyfer 2022/23 (£35.961m). Fodd bynnag, nid yw'r gyllideb hon yn cynnwys unrhyw symiau ar gyfer llithriad o'r flwyddyn flaenorol a, hefyd, y ffaith fod cynlluniau ychwanegol wedi'u hychwanegu i'r rhaglen gyfalaf drwy gydol y flwyddyn - dyna pam fod gwariant cyfalaf nad yw'n ymwneud â'r CRT yn uwch na'r gyllideb wreiddiol. Dylid cyfeirio at baragraff 3.1 yn yr adroddiad hwn i weld y gyllideb gyfalaf derfynol nad yw'n ymwneud â'r CRT o gymharu â'r gwariant gwirioneddol a'r rhesymau am y tanwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb. Mae tanwariant sylweddol ar wariant cyfalaf y CRT, yn bennaf oherwydd gwaith annisgwyl, oedi o ran cynllunio, materion yn ymwneud â thendro a / neu anawsterau wrth gael cymeradwyaeth asiantaethau allanol ar gyfer rhai agweddau o gynllun.

**6.3** Yr ail ddangosydd Darbodus yn y tabl uchod yw'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC). Ni chaniateir i angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca (GCC) godi am gyfnod amhenodol. Mae rheolaethau statudol wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn cael eu codi yn fras yn erbyn refeniw yn ystod oes yr ased. Mae angen i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol, y cyfeirir ato fel y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP), er mwyn lleihau'r GCC. Yr hyn ydyw, mewn gwirionedd, yw ad-daliad o'r angen i fenthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian parod ar gael ar gyfer ymrwymiadau cyfalaf. Gall dyledion allanol hefyd gael eu benthyca neu eu had-dalu ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y GCC. Gellir hefyd leihau cyfanswm y GCC drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- codi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) bob blwyddyn drwy'r Ddarpariaeth Refeniw Gwirfoddol (VRP).

Y GCC a ragwelwyd ar adeg paratoi'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2022/23 oedd £151.513m. Fodd bynnag, roedd y GCC gwirioneddol yn sylweddol is ar £144.111m. Y rheswm am y gostyngiad yng GCC y CRT yw tanwariant yn erbyn cyllideb y CRT, gan olygu na chymerwyd unrhyw fenthyciadau yn 2022/23 ar gyfer y CRT. Un rheswm bod y GCC nad yw'n ymwneud â'r CRT yn is oedd gostyngiad yn swm y Benthyca Digefnogaeth yr oedd ei angen mewn perthynas â'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn 2022/23. Cyllidwyd y gwariant gan grantiau yn bennaf, gan leihau'r angen i fenthyca. Rheswm arall oedd bod grantiau ychwanegol wedi'u dyfarnu yn ystod y flwyddyn i sybsideiddio ffynonellau cyllido eraill megis Benthyca â Chefnogaeth. Roedd hyn yn golygu bod angen llai o Fenthyca â Chefnogaeth, gan ostwng y ffigwr GCC. Serch hynny, yn y dyfodol, defnyddir y ffynhonnell gyllido hon wedi'i sybsideiddio i gyllido Gwariant Cyfalaf yn 2023/24 a bydd yn cynyddu'r GCC.

**6.4** Nid aethpwyd tu hwnt i'r Terfyn Benthyca Awdurdodedig (£185m) na'r Terfyn Gweithredol (£180m) yn ystod y flwyddyn, gyda swm y ddyled Allanol yn cyrraedd uchafswm o ddim ond £125.273m.

**6.5** Roedd y costau Cyllido, fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyffredinol (2.78%), yn is na'r cyfanswm a ragwelwyd (4.40%) a hynny oherwydd bod costau cyllido yn is, a briodolir i'r newid yng nghyfrifiad MRP, gan arwain at dâl MRP is, a llog ychwanegol a gafwyd yn uwch na'r disgwyl na phan baratowyd y dangosydd darbodus ar gyfer 2022/23. Roedd y costau cyllido, fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer y CRT (7.18%) yn is na'r cyfanswm disgwyliedig (13.40%), oherwydd bod y costau cyllido'n sylweddol is na'r disgwyl ar adeg paratoi'r dangosydd arfaethedig ar gyfer 2022/23 (priodolir hyn i'r newid yng nghyfrifiad MRP, gan arwain at dâl MRP is, a llai o ofynion benthyca). Golygodd y tanwariant ar CRT fod swm y cyfraniadau Refeniw sydd eu hangen i gyllido'rr rhaglen gyfalaf yn 2022/23 wedi gostwng o £10.1m i £7.4m.

## 7. Edrych ymlaen at 2023/24 a thu draw i hynny

**7.1** Ar 9 Mawrth 2023, cymeradwyodd y Cyngor llawn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24. Roedd y Datganiad ar y Strategaeth yn seiliedig ar y Strategaeth Gyfalaf, a rhagwelir y bydd angen i'r Cyngor fenthyca £26.1m yn ychwanegol yn 2023/24 ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a'r CRT, cyfanswm o £30.7m yn 2024/25 a chyfanswm pellach o £21.4m yn 2025/26 i gyllido ei Raglen Gyfalaf, gan nodi y rhagwelir y bydd mwyafrif y benthyca hwn yn cyllido rhaglen gyfalaf y CRT. Bydd y benthyca ychwanegol yn effeithio ar yr MRP a godir i gyllido'r costau cyllido cyfalaf. Yn 2023/24, rhagwelir y bydd yr MRP yn £1.6m, £2.0m yn 2024/25 a £2.1m yn 2025/26.

**7.2** Ar 6 Ebrill 2023, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £5m gyda Chymdeithas Adeiladu Nationwide gyda chyfradd llog o 4.17%. Aeddfedodd y buddsoddiad ar 6 Gorffennaf 2023, a chafodd ei ddwyn ymlaen am 6 mis arall gyda chyfradd llog o 5.47%.

**7.3** Ar 25 Ebrill 2023, aeddfedodd buddsoddiad o £5m gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a chafodd ei ddwyn ymlaen am 6 mis arall gyda chyfradd llog o 4.3%

**7.4** Ar 10 Mai 2023, aeddfedodd buddsoddiad o £7.5m gyda Santander a chafodd ei ddwyn ymlaen am 6 mis arall gyda chyfradd llog o 4.76%.

**7.5** Ar 22 Mehefin 2023, aeddfedodd buddsoddiad o £7.5m gyda Goldman Sachs a chafodd ei ddwyn ymlaen am 6 mis arall gyda chyfradd llog o 5.52%.

**7.6** Ar 11 Gorffennaf 2023, aeddfedodd buddsoddiad o £10m gyda NatWest a chafodd ei ddwyn ymlaen am 6 mis arall gyda chyfradd llog o 5.88%.

**7.7** Hyd yma, ni fu unrhyw brif ad-daliadau o fenthyca PWLB gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae disgwyl i £1.854m gael ei ad-dalu yn ddiweddarach ym mlwyddyn ariannol 2023/24.

**7.8** Roedd y gyllideb ar gyfer llog o £1.424m a osodwyd ar gyfer 2023/24 yn seiliedig ar y cynnydd mewn cyfraddau llog, ac felly'n darparu mwy o gyfleoedd i fuddsoddi arian dros ben. Y llog a dderbyniwyd hyd at chwarter 1 2023/24 oedd £379k, a rhagwelir y gellir sicrhau'r llog o'r gyllideb yn 2023/24.

**7.9** Gellir gweld y gyfradd llog diweddaraf a ragwelir gan Link Group (ar 18 Gorffennaf 2023) yn y tabl isod:-

| Rhagolygon Cyfradd Llog | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Graddfa'r Banc | Medi 2023 | Rhagfyr 2023 | Mawrth 2024 | Mehefin 2024 | Medi 2024 | Rhagfyr 2024 | Mawrth 2025 | Mehefin 2025 |
| Dolen | 5.50% | 5.50% | 5.50% | 5.25% | 4.75% | 4.25% | 3.75% | 3.25% |

## 8. Casgliad

Roedd perfformiad Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o fuddsoddiadau risg isel / enillion isel a dull benthyca a gynlluniwyd i leihau taliadau llog gymaint â phosibl.

Mae'r perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y Cyngor yn dangos bod gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd reoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn rhoi'r Cyngor mewn unrhyw berygl ariannol sylweddol o ran benthyca anfforddiadwy neu ormodol.

Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth, yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac mae'n cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau mai hon yw'r strategaeth fwyaf priodol wrth symud ymlaen.

**ARGYMHELLION**

Mae'r Pwyllgor yn argymell :-

**(i)** Nodi fod y ffigyrau alldro yn yr adroddiad yn parhau dros dro tan fydd yr archwiliad o Ddatganiad y Cyfrifon 2022/23 wedi eu cwblhau ac wedi ei lofnodi; bydd unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigyrau sy'n cael eu cynnwys yr yr adroddiad yn cael eu hadrodd fel bo'n briodol.
**(ii)** Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro 2022/23 yn yr adroddiad.
**(iii)** Ystyried Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys am 2022/23.

**Papurau Cefndir**

Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2022/23
Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys 2022/23
Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2022/23
Adroddiad Alldro Cyfalaf 2022/23

**R MARC JONES**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Cyngor Llawn |
| Dyddiad: | 26 Hydref 2023 |
| Pwnc / Testun: | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23 |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Gary Pritchard – Plant a Theuluoedd<br>Y Cynghorydd Alun Roberts – Oedolion |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Fon Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Arwel Owen, Pennaeth Oedolion. |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Fon Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Emma Edwards, Rheolwr Busnes<br>01248 751887<br><br>Emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Mae'n berthnasol i'r holl Aelodau |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Mae'r papur hwn yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23 i aelodau'r Cyngor Llawn, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pwrpas yr adroddiad yw hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd am y perfformiad a'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â chynnwys meysydd i'w gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Argymhellir bod:

1) Bod Aelodau'r Cyngor yn manteisio ar y cyfle i astudio'r adroddiad a'i gynnwys gan sicrhau ei fod yn adlewyrchiad cywir o'n Gwasanaethau Cymdeithasol dros y 12 mis diwethaf;
2) Derbyn yr Adroddiad, fel y gellir ei rannu gyda'r cyhoedd ar Wefan y Cyngor.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Sylwch os gwelwch yn dda fod yr adroddiad yn ofyniad statudol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, ac felly mae'n ofyniad gorfodol.

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| At sylw’r Cyngor Llawn. |

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi. |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â nifer o brosiectau cyfredol ac yn y dyfodol a fydd yn cefnogi'r cyngor yn ei waith i ddiogelu dinasyddion Ynys Môn yn unol ag amcanion y Cyngor. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | Mae pennod benodol mewn perthynas ag atebolrwydd ariannol tuag at ddiwedd yr adroddiad. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Rydym wedi mynd i'r afael â'n gwaith partneriaeth a chyflwyno sylwadau ar hynny drwy gydol yr adroddiad. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Rydym wedi cynnwys yr adborth gan Ddinasyddion Ynys Môn trwy gydol yr Adroddiad. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amherthnasol - Bydd adroddiad ar gael yn Gymraeg a Saesneg. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Cymeradwywyd, 25 Gorffennaf 2023 |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Fel yr uchod |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Cymeradwywyd, 18 Hydref 2023 |
| 9 | Aelodau Lleol | Bydd yr Adroddiad yn cael ei rannu yn ei fformat terfynol gyda'r Cyngor Llawn. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Copi o'r Adroddiad: |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Gellir gweld adroddiadau blaenorol ar Wefan y Cyngor. |

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol 2022-23

## Adroddiad y Cyfarwyddwr ar effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol



MÔN SY'N WYBODUS AM DRAWMA
TRAUMA INFORMED ANGLESEY

# Cynnwys

Ffeithluniau 4
Cyflwyniad y Cyfarwyddwr a'i grynodeb o'r Perfformiad 5
Sut Mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau 6
Pobl - Llais a Rheolaeth 11
Atal 15
Lles 19
Partneriaethau 22
Ein Gweithlu a sut rydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol 26
Ein Hadnoddau Ariannol a sut rydym yn Cynllunio Ar Gyfer y Dyfodol 28
Ein Gwaith gyda'n Partneriaid, Ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Gwaith Llywodraethu a'n Hatebolrwydd 29

Tudalen 30

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'n hunanasesiad blynyddol. Credwn ei bod yn amlinellu rhai o'n cyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal ag yn amlygu'r heriau y mae angen rhoi sylw iddynt yn y flwyddyn i ddod.

Croesawn unrhyw sylwadau ar fformat a chynnwys yr adroddiad hwn er mwyn cynorthwyo ein taith tuag at welliant.







## Pwy y bu i ni eu helpu a'u cefnogi (2022/23)

**3,615**
cysylltiad ag Oedolion

**4,698**
cysylltiad â Phlant a'u Teuluoedd

**909**
o oedolion sy'n derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth

**1,311**
o oedolion sy'n derbyn Cynllun Gofal a Chymorth

**419**
o blant sy'n derbyn Cynllun Gofal a Chymorth

**186**
o Blant sy'n Derbyn Gofal


**270**
o ddefnyddwyr System Gwybodaeth Gofal Cyfathrebu Cymru (yr WCCIS)

**433**
o ofalwyr a gafodd eu hasesu yn ystod y flwyddyn

**63**
o Ofalwyr Maeth mewn
**37** o Gartrefi

**1,213**
o blant unigol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (55 ar ddiwedd y flwyddyn. 50 yw cyfartaledd nifer y plant ar y gofrestr trwy gydol y flwyddyn)

**67**
o Ofalwyr Ifanc a gafodd gefnogaeth Gweithredu dros Blant



## Ein Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23

Cyfanswm Cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol yw

**£42,698,963**

Cyllideb y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yw

**£12,331,572**

Rydym yn cyflogi

**701**

o bob ar draws y ddau wasanaeth

Mae

**85%**

o'n gweithwyr yn siarad Cymraeg (L3 neu uwch)

Tudalen 31





# Cyflwyniad y cyfarwyddwr a'i grynodeb o'r perfformiad

Croeso i'm pedwerydd adroddiad yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn.

Rwy'n hynod falch o adrodd am nifer o lwyddiannau yn ystod y flwyddyn. Yn yr adroddiad dewch i wybod fod ein staff a thimau yn rhagori yn eu maes gwaith, gyda rhai ohonynt wedi ennill cydnabyddiaeth genedlaethol. Rwy'n hynod falch o'n holl staff sy'n gweithio'n ddiflino i helpu pobl fwyaf bregus Ynys Môn, yn enwedig yn ystod y cyfnod hwn o alw cynyddol ar ein gwasanaethau a heriau i'n cyllidebau.

O ran gwaith arolygu yn ystod y flwyddyn, ym mis Hydref 2022, croesawodd y Gwasanaethau Cymdeithasol Arolygiaeth Gofal Cymru i Ynys Môn i werthuso ein perfformiad ac mae'n bleser gennyf nodi y cawsom adroddiad cadarnhaol, gyda rhai meysydd wedi'u cydnabod i'w gwella ymhellach. Ceir rhagor o fanylion am ddeilliannau arolygu'r flwyddyn yn adran 'Sut Mae Pobl yn Llunio Ein Gwasanaethau" yr adroddiad hwn.

O ran edrych ymlaen, rydym wedi cyhoeddi ein **Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028** (gellir darllen copi trwy glicio ar y ddolen i wefan y cyngor), sy'n amlinellu gweledigaeth y cyngor, sef **"Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu"**. Rydym yn cydnabod bod angen parhau i gydweithio i gyflawni'r weledigaeth a'r chwe amcan corfforaethol. Bydd adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf yn cysylltu ein perfformiad â'r chwe amcan strategol.

**Fôn Roberts,** Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd



**Fôn Roberts**, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd



**Arwel Wyn Owen**, Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion

# Sut mae pobl yn llunio ein gwasanaethau

Lles yw canolbwynt ein holl waith - rhoi'r unigolyn yn ganolog i bopeth a wnawn gan weithio gyda theuluoedd, cymunedau a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau gwell canlyniadau i bawb. Rydym yn parhau i ymdrechu i gael rhagoriaeth, er gwaethaf y ffactorau allanol, heriol. Fel a nodir yn ein Cynllun y Cyngor newydd, dyma yw ein gwerthoedd allweddol:

Yn y ddogfen hon, fel gydag adroddiadau cynt, byddwn yn rhoi gwybod i'r darllenwyr am y sefyllfa ddiweddaraf ar y daith yn erbyn pedair egwyddor y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 - **lles, pobl (llais a rheolaeth), partneriaeth, ac integreiddio ac atal**

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr ar gyrff llywodraethu **Arolygiaeth Gofal Cymru**, gydag Aelodau Etholedig, sefydliadau partner yn ogystal ag â'r gymuned i sicrhau lles a diogelwch dinasyddion Ynys Môn. Fel y soniwyd, yn Hydref 2022, gwerthusodd yr Arolygiaeth berfformiad ein gwasanaethau oedolion a phlant. Mae modd darllen copi o ganfyddiadau'r arolygiad trwy glicio ar https://arolygiaethgofal.cymru. Yn gryno, dyma rai o'r canfyddiadau allweddol o'r adroddiad.

## Parch

## Gonestrwydd

## Cydweithio

## Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys



| Cryfderau | Meysydd i'w gwella |
|---|---|
| Dengys CSYM frwdfrydedd a pharodrwydd mawr i weithio gyda phartneriaid. Clywsom (yr Arolygiaeth) enghreifftiau o gydweithio llwyddiannus gyda phartneriaid ar lefel strategol gyda chynlluniau wedyn yn cael eu rhoi ar waith er budd pobl. Gwelsom enghreifftiau da o gydweithio ar lefel weithredol... | Dylid cryfhau arfer i ddangos bod goruchwylwyr yn rhoi amser i staff fyfyrio ar y cynnydd y maent yn ei wneud gyda phobl ac i ddangos ymhellach y cymorth a'r cyfeiriad ychwanegol a roddir i staff yn seiliedig ar eu profiad |
| Clywsom (yr Arolygiaeth) neges gyson, gadarnhaol gan y gweithlu am ansawdd yr arweinyddiaeth a'r diwylliant ar draws gwasanaethau plant ac oedolion. Yr adborth oedd bod rheolwyr yn weladwy, yn hawdd mynd atynt, yn rhoi cymorth rheolaidd a dibynadwy, gyda mynediad at ddatblygiad proffesiynol a chyfleoedd ar ei gyfer. | Fel y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ledled Cymru, mae CSYM hefyd yn wynebu heriau difrifol yn hyn o beth. Gwelsom effaith sylweddol ar bobl oherwydd nad oedd gwasanaethau gofal cartref, a nifer y staff sydd ar gael mewn cartrefi nyrsio / gofal. |
| Rydyn ni (yr Arolygiaeth) yn cydnabod y gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol y mae adran gwasanaethau cymdeithasol CSYM wedi'i chael ers 2016. Yn wyneb yr heriau ariannol, dylid sicrhau bod y gefnogaeth yn parhau er mwyn gyrru gwelliannau pellach ar draws y gwasanaethau plant ac oedolion. | Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i flaenoriaethu gwaith gwella ei arfer yng nghyswllt diogelu mewn gwasanaethau oedolion, ansawdd a chyflawnrwydd y gwaith a wneir, gan gynnwys cadw cofnodion, a hynny er mwyn cydymffurfio â gweithdrefnau Diogelu Cymru. |
| Mae ymrwymiad CSYM i roi gwasanaeth Cymraeg yn gadarnhaol. Mae'n dangos ei ymrwymiad drwy ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024. Gwelsom dystiolaeth gyson a chalonogol bod pobl yn cael y "Cynnig Rhagweithiol" i siarad Cymraeg, a rhoddir ystyriaeth i ddymuniadau pobl o ran dewis iaith. | Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes yn digwydd o ran cwblhau asesiadau a chynllunio gofal a chymorth er mwyn sicrhau y cynrychiolir yn gyson leisiau pobl a'r hyn sy'n bwysig iddynt. |
| Mae gweledigaeth glir i'r awdurdod lleol fod yn "ynys sy'n wybodus am drawma". Mae'r rhaglen o weithredu'n seiliedig ar drawma eisoes wedi'i rhannu gyda'r rhan fwyaf o ysgolion yn yr awdurdod lleol, gyda chynlluniau penodol i ehangu gwybodaeth ar draws mwy o wasanaethau, megis gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau maethu. Mae hyn i'w ganmol gan y bydd yn sicrhau cysondeb wrth weithio a chyfathrebu gyda phlant. | Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod cofnodion yn cael eu cwblhau'n gyson i ddangos bod pobl yn ymwybodol o'r penderfyniadau craidd sy'n cael eu gwneud yn eu cylch. |

Rydym bellach wedi drafftio rhaglen waith i roi sylw i'r meysydd sy'n peri pryder a byddwn yn adolygu'r cynnydd yn rheolaidd.

**Cwynion, sylwadau cadarnhaol a negyddol -** Mae gwrando ar y rhai sy'n defnyddio'n gwasanaeth yn rhan allweddol o'n gwaith gwella. Cofnodwyd cyfanswm o 172 o sylwadau cadarnhaol am y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ac mae rhai ohonynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Cofnodwyd 31 o gwynion swyddogol yn ystod y flwyddyn a chofnodwyd 56 o sylwadau / pryderon negyddol, sy'n ostyngiad ers y flwyddyn flaenorol.

Tudalen 33

Mae **diogelu** yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i bawb o fewn y Cyngor ac yn flaenoriaeth allweddol i ni. Mae'r **Bwrdd Diogelu Corfforaethol Strategol** yn rhoi arweinyddiaeth i drefniadau diogelu corfforaethol y sefydliad ac yn eu gwaith llywodraethu.

## Mwy Na Geiriau

Gan adlewyrchu anghenion ieithyddol ein poblogaeth ar yr Ynys, rydym yn sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion ieithyddol yr unigolyn, yn unol â Safonau'r Gymraeg a 'Mwy na Geiriau'. Cefnogir staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, trwy amrywiaeth o opsiynau amrywiol, o gyrsiau i sesiynau 'sgwrsio amser cinio'.

Mae 80% o'n staff yn y Gwasanaethau Oedolion yn siarad Cymraeg ar Lefel 3-5 ac mae 88% o'n staff yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn siarad Cymraeg ar Lefel 3-5. Mae'r lefelau gosod yn ystyried sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu. Mae'r lefelau'n amrywio o 0, sy'n dangos dim sgiliau, i 5, rhugl yn yr iaith.



# Cyflawniadau Allweddol



- Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr adroddiadau diogelu ar draws y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Oedolion ac yn eu cymhlethdod. Dengys ein perfformiad ein bod, at ei gilydd, wedi cynnal ansawdd ein perfformiad a'n hymarfer.
- Mae ymarferwyr ar draws y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi parhau i gael hyfforddiant mewn ymarfer sy'n seiliedig ar drawma a byddwn hefyd yn cychwyn ar raglen drawsnewidiol o hyfforddiant ym model ymyrraeth Ynys Môn, 'Cryfder ar y Cyd'.
- Mae cymorth wedi'i roi i ymarferwyr iddynt weithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru trwy gylchoedd dysgu mewnol a chydymffurfio â nhw. Fel hyn, nid yn unig y byddai staff yn gloywi eu dealltwriaeth o'r newidiadau ond byddent, hefyd, yn trafod y goblygiadau ar gyfer ymarfer gyda'u cyfoedion. Bu i ni barhau i ganolbwyntio ar ymateb yn effeithiol i ddysgu a nodwyd o werthusiadau mewnol ac allanol o arfer: ac mae ein gwaith gwella ansawdd yn allweddol wrth wella canlyniadau i unigolion.
- Rydym wedi cynnal cynnydd o ran ein Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS): cynnal ansawdd a faint o waith a gyflawnwyd hyd yma a nifer yr achosion. Mae llywodraeth y DU wedi rhoi'r gorau i weithredu Trefniadau Diogelu Rhyddid. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar baratoi'r gweithlu a bod yn barod ar gyfer pryd y bydd gweithredu yn ôl ar yr agenda cenedlaethol. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i gryfhau'r system DoLS bresennol ac yn parhau i amddiffyn a hyrwyddo hawliau dynol y bobl hynny nad oes ganddynt alluedd meddyliol.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi adolygu a diweddaru ein **Strategaeth Gweithlu 2023-2027** (DOLEN i'r ddogfen ar wefan y cyngor) sy'n adlewyrchu ein cynlluniau a'n gweledigaeth ar gyfer ein Gweithlu yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn ystod **Diwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd** a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023, buom yn dathlu ein proffesiwn trwy hyrwyddo a rhannu ein profiadau ar draws y cyngor a mynegi ein diolch i'r staff Gwaith Cymdeithasol sydd gennym yn y gwasanaeth. Bu i ni achub ar y cyfle i ddangos rhai o'n staff; trowch at y ddolen fideo YouTube https://www.youtube.com/watch?v=ZHG9exgKOhI



Tudalen 34

Yn dilyn ein gwaith gyda'n partneriaid rhanbarthol ar yr **Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn 2022,** a ddiweddarwyd, rydym wedi parhau i weithio ar draws Rhanbarthau Gogledd Cymru er mwyn cwblhau'r **Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad**. Bydd datblygu'r adroddiadau lleol a rhanbarthol yn ein helpu i lunio ein gwasanaethau a'n marchnad yn y dyfodol. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion ynghyd â chopïau o'r dogfennau ar y ddolen a ganlyn: https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/browse/Trigolion/Gofal-cymdeithasol-oedolion/

Lansiodd ein Cyngor **Gynllun Tuag at Sero Net** ym mis Mawrth 2022 ar ôl datgan argyfwng hinsawdd yn ôl yn 2020. Bydd y Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025 yn rhoi ymateb cydgysylltiedig y Cyngor i newid yn yr hinsawdd, wrth hefyd hyrwyddo newid diwylliannol i sicrhau bod gwasanaethau'n lleihau'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr cyn belled ag y bo modd. Fel gwasanaeth, rydym wedi dynodi swyddog arweiniol ac, ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda chydweithwyr corfforaethol i ystyried opsiynau ar gyfer rhagor o ddatblygiadau i gynorthwyo i gyrraedd y nod hwn.







*Left to right Anglesey's Children and Families and Youth Services portfolio holder, Councillor Gary Pritchard, Anglesey Council Leader - Councillor Llinos Medi, Anglesey's Director of Social Services - Fôn Roberts and Rachel Williams - Service Manager, with the 2022 Children in Care Award.*

# Pobl – Llais a Rheolaeth

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi uno ein tîm **Teulu Môn** a'r tîm Pwynt Cyswllt Sengl i Oedolion, **gan greu un pwynt mynediad ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn**. Mae tîm diwygiedig Teulu Môn bellach yn cynnwys staff ag arbenigedd yn y ddau faes gwasanaeth a bydd hyn yn sicrhau darpariaeth gadarnach. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod ein partneriaid allanol yn ymgymryd â phroses gyfeirio symlach ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo drwy'r llwybr Timau Adnoddau Cymunedol.

Mae **Strategaeth Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu** ddiwygiedig ar y gweill fydd yn edrych ar ailfodelu gwasanaethau cyfredol. Ym mis Medi 2022, sicrhawyd cyllid drwy'r Bwrdd Trawsnewid Anabledd Dysgu i benodi ymgynghorydd allanol i amlinellu'r cyfleoedd presennol, archwilio a datblygu mynediad i'r Hybiau Cymunedol ehangach, annog integreiddio, diweddaru gwybodaeth, canllawiau a dileu dyblygu yn y gwasanaethau a chymunedau, yn ogystal ag i archwilio atebion ar gyfer trafnidiaeth gymunedol.

Dyfarnwyd **Gwobr Plant Mewn Gofal 2022** i fenter **Cartrefi Clyd** yng **Ngwobrau Children and Young People Now 22 Awards** am ei llwyddiant yn darparu cartrefi diogel, gofalgar llawn anogaeth i blant sy'n derbyn gofal. Mae'r wobr yn cydnabod y cyfraniad y mae awdurdod lleol neu ddarparwr gofal yn ei wneud i wella canlyniadau i blant neu bobl ifanc sy'n derbyn gofal, boed mewn gofal preswyl, gofal maeth neu mewn mathau eraill o leoliad.

Mae pob un o bedwar eiddo Cartrefi Clyd y Cyngor Sir, a lansiwyd yn 2020, yn cartrefu hyd at chwech o blant. Cânt eu staffio gan dîm bychan o weithwyr gofal, gan sicrhau y byddir yn parhau i ofalu am y plant sy'n byw yno. Mae pumed cartref Cartrefi Clyd yn rhoi seibiant byr i blant ag anghenion ychwanegol.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Ynys Môn, y Cynghorydd Llinos Medi, "… "Mae'r fenter yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi amser a sylw unigol i blant sy'n eu helpu i feithrin perthynas werthfawr a sicrhau eu bod yn cael profiadau bywyd cadarnhaol sy'n gymorth iddynt ddatblygu'n oedolion emosiynol iach."

Eglurodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn, Fôn Roberts, "Rhoddir y gwasanaeth hwn mewn tai cyffredin, mewn cymunedau lleol, lle mae teuluoedd eraill yn byw; ac, fel teuluoedd eraill, mae'n gartref lle mae plant yn byw gyda'i gilydd, gyda gofal a chymorth 24 awr ein gofalwyr rhagorol."

Tudalen 35

maethu cymru Môn | foster wales Anglesey

Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd gan **Maethu Cymru Môn** gyfanswm o 66 o deuluoedd maeth oedd yn cynnwys:

- 38 o aelwydydd maethu prif ffrwd
- 28 o aelwydydd maethu personau cysylltiedig

Rydym yn falch o gadarnhau ein bod, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi parhau i recriwtio, asesu a chymeradwyo gofalwyr maeth Ynys Môn a'u hyfforddi a'u cefnogi yn ystod y cyfnod ôl-bandemig. Yn ystod 2022/23 bu i ni gymeradwyo:

- Tair aelwyd maethu prif ffrwd (cyffredinol) a bydd tri arall yn y panel yn fuan yn y flwyddyn ariannol nesaf.
- 11 o aelwydydd personau cysylltiedig (teulu a ffrindiau).
- Caniataodd y llysoedd bedwar Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig, hefyd, yn hyn o beth ac fe'u cymeradwywyd gan y Panel Maethu a Sefydlogrwydd.












Gan ychwanegu at ein cynnydd a nodwyd y llynedd, rydym hefyd wedi parhau i gefnogi a chadw ein Gofalwyr Maeth yn y Gwasanaeth drwy ymgysylltu i raddau llawer mwy â'n Gofalwyr Maeth ynghylch gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar blant/pobl ifanc. Enghraifft o hyn yw Gofalwyr Maeth yn cymryd rhan yn yr ymgyrch recriwtio Pythefnos Gofal Maeth lle buont, yn deuluoedd, yn cerdded ar hyd Llwybr yr Arfordir i godi ymwybyddiaeth o'r angen i recriwtio Gofalwyr Maeth. Roedd hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer rhaglen wythnosol o weithgareddau hwyliog a digwyddiadau recriwtio trwy gydol y flwyddyn.

Ym mis Hydref, bu Maethu Cymru Môn yn gweithio gydag Ysgol Gyfun Llangefni i gyflwyno 'diwrnod o hwyl' 'Gwobrau Seren' ac yna seremoni wobrwyo ffurfiol lle rhoddwyd gwobr a chydnabyddiaeth i bob plentyn am yr hyn a gyflawnodd yn ystod 2022 - 23.

Bu ein staff a'n gofalwyr maeth a'n plant/pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored oedd yn cynnwys dringo, cwrs hyder, cyfeiriannu, beicio mynydd a daethent i ben gyda diweddglo mawreddog - ras rafftiau ar y Fenai.

Tudalen 36

## Pa wahaniaeth wnaethon ni?

| |
|---|
| **65%** Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth chwe mis yn ddiweddarach |
| Mae **87%** o asesiadau plant yn cael eu cwblhau o fewn amser. |

## Beth mae ein Pobl yn ei Ddweud?

| |
|---|
| "Dim ond eisiau diolch i chi am fy annog i wneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl. Mae [...] yn lot o help." |
| "Enillodd (gweithiwr Tîm Teuluoedd Gwydn) ymddiriedolaeth [plentyn] a chefnogi pob un ohonon ni trwy gyfnod anodd iawn. Cefnogodd [plentyn] gyda chyfweliad â'r heddlu, yr ysgol a chyfeiriadau SALT. Mae hi wedi amlygu holl rinweddau hyfryd [plentyn] ac wedi rhoi sicrwydd i ni fel teulu. Fuasen ni ddim wedi cyrraedd y pwynt hwn heb [gweithiwr]. Mae pob digwyddiad o drais domestig wedi dod i ben, mae'r cartref yn llawer tawelach ac mae [plentyn] yn berson gwahanol iawn i'r hyn oedd 12 mis yn ôl." |

## Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24

| |
|---|
| Gwaith ar y gweill i ganfod cyfleoedd i'n hoedolion ag anableddau dysgu ar Ynys Môn integreiddio fwy gyda'r gymuned. |
| Agor ein pumed Cartref Clyd ar yr Ynys fydd yn canolbwyntio ar ddarparu seibiant. |





# Atal

Rydym yn cydnabod bod **Gofalwyr di-dâl** yn gweithio'n ddiflino ledled ein cymuned a'u bod dan bwysau cynyddol i gynnal eu gwaith gofalu. Mae'r pwysau'n cynyddu oherwydd y cyfyngiadau o ran yr opsiynau seibiant a/neu gyfleoedd dydd sydd ar gael. Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â **Chynnal Gofalwyr a Gweithredu dros Blant** sy'n cefnogi gofalwyr ifanc a gofalwyr di-dâl i barhau drwy ddefnyddio'r Gronfa Integredig Ranbarthol.

Bydd y gwaith cwmpasu cychwynnol hwn wedi'i gwblhau erbyn haf 2023 a bydd yn sail i waith adolygu'r Strategaeth Gwasanaeth Dydd. Mae angen adolygu'r fanyleb gwasanaeth ar gyfer cyfleoedd allanol, cytuno arni a gweithredu'r cytundeb fframwaith unwaith y bydd y Strategaeth Gwasanaeth Dydd wedi'i hadolygu yng ngoleuni'r prosiect cwmpasu uchod.

Mae **Taliadau Uniongyrchol** yn hybu dewis; llais, rheolaeth a hyblygrwydd drwy alluogi a grymuso unigolion i gyflawni eu canlyniadau lles fel y cytunwyd yn yr Asesiad Unigol. Y prif amcan yw bod unigolion yn gallu parhau i fod mor annibynnol, i fyw yn eu cartrefi eu hunain, gyda chymorth neu hebddo, i fod yn rhan lawn o fywyd teuluol a chymunedol, ac i gymryd rhan mewn gwaith, addysg a hamdden pan a lle bo modd, er mwyn byw'r bywyd y dymunant ei fyw.

Ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd gennym 238 o gleientiaid yn defnyddio Taliadau Uniongyrchol, yr un nifer â diwedd mis Mawrth 2022. Er bod nifer y cleientiaid wedi aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol, mae'r arbedion rhagamcanol o gymharu â gwasanaethau a gomisiynir wedi cynyddu £30,029.59.

Fel Awdurdod, rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r Taliadau Uniongyrchol ar Ynys Môn eto. Ein nod yw cynyddu nifer y cleientiaid sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol a recriwtio mwy o Gynorthwywyr Personol. Gellir tystio i hyn drwy gynyddu'n sylweddol gyfradd fesul awr Taliadau Uniongyrchol a chyflog yr awr Cynorthwy-ydd Personol.

MÔN SY'N WYBODUS AM DRAWMA
TRAUMA INFORMED ANGLESEY

## Bod yn Wybodus am Drawma:

*"Nid rhywbeth atodol, ymyrraeth neu rywbeth y mae rhai yn ei wneud yw bod yn Gymuned sy'n wybodus am drawma.*

*Diwylliant ydi o. Ein ffordd ni o weithredu ydi o. Mae pawb ynghlwm. O'r athro i staff amser cinio, gweithiwr cymdeithasol, gofalwr maeth, yr Heddwas lleol ond, er mwyn modelu'r dull hwn, mae'n rhaid i ni fod wedi arfogi staff/unigolion â'r offer fel eu bod yn gallu ymateb i anghenion pob plentyn a'r gymuned."*

**Rydym yn arwain y ffordd o ran dod yn ynys sy'n wybodus am drawma ac, yn ystod y flwyddyn, rydym wedi hyrwyddo ein cefnogaeth yn y maes hwn a gweithio'n ddiflino i'w gwella. Gan gynnwys:**

## 1 Sgyrsiau Therapiwtig, Cysylltu a Dysgu yn yr Awyr Agored gan ddefnyddio'r Grant Cefnogi Ieuenctid.

**Trefnwyd penwythnos Preswyl Therapiwtig** yn ddull peilot ac mae 13 o'n pobl ifanc rhwng 13-16 oed ar draws Ynys Môn naill ai'n derbyn gofal neu sydd â chynllun gofal a chefnogi am fod yn ymweld â Glanllyn Isaf, y Bala. Buom yn gweithio gyda'r Urdd i ddatblygu pecyn dysgu pwrpasol, yr elfen o weithgareddau awyr agored a hwylusir gan y Tîm Awyr Agored gyda chefnogaeth a goruchwyliaeth ystod o staff o fewn Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Nod cyffredinol y cwrs preswyl oedd cefnogi ein pobl ifanc a'u Gweithiwr Cymdeithasol/Staff Cefnogi sy'n gweithio gyda'i gilydd ac ochr yn ochr i greu gwytnwch ac ysbrydoli dysgu, gwella ymddygiad a meithrin hunan-barch a hyder, gwella Perthnasoedd â Chysylltiadau, yn ogystal â chael pobl ifanc allan yn yr awyr agored ac yn dysgu sgiliau newydd.

Cymerodd yr holl bobl ifanc ran a datblygodd eu perthynas â'r staff. Mi wnaethon ni, hefyd, drefnu digwyddiad arddangos yn dilyn y penwythnos ar gyfer y bobl ifanc a'u teuluoedd. Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu hwn i gynnig cymorth parhaus ar ffurf darpariaeth i bobl ifanc sy'n cael cefnogaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.





## 2 Datblygiad Proffesiynol - Dull Gwybodus am Drawma:

- Aeth uwch-reolwyr/Arweinyddion Tîm o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Addysg, Aelodau Etholedig a phartneriaid allweddol am sesiwn tair awr ar y strategaethau i gefnogi gwaith gweithredu fel cymuned ar gyfer adferiad trawma ac Ynys sy'n wybodus am drawma. Mae hyn wedi llunio'r strategaeth a'r cynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag unigolion sy'n gwneud cais i wneud y Diploma 11 diwrnod. Daeth 45 i'r sesiwn.
- Mae 2 gwrs Diploma pellach wedi'u hwyluso ar-lein / wyneb yn wyneb gyda dros 54 o staff awdurdod lleol, gofalwyr maeth, ysgolion yn cwblhau'r Diploma. Mae gennym y tîm gwasanaeth ieuenctid cyntaf yng Nghymru sydd wedi cwblhau'r cwrs ac sy'n gwreiddio'r arfer ac yn ei fodelu.
- Mae model Mannau Myfyriol a Goruchwyliaeth Ysgolion Gwybodus am Drawma wedi'i ddatblygu ar draws yr awdurdod i sicrhau bod yr holl staff / unigolion sydd wedi cwblhau'r Diploma yn cael mynediad at y model cymorth ac arfer effeithiol. Y rheswm dros wneud hyn yw meithrin gallu, sicrhau ansawdd wrth, hefyd, gael amser i ddatblygu model cynaliadwy wrth symud ymlaen. Mae dros 70 yn manteisio ar y cynnig hwn bob tymor.
- Mae pob un o'n gweithwyr ieuenctid rhan amser (40) wedi cwblhau datblygiad proffesiynol cyffredinol Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma.



## Pa wahaniaeth wnaethon ni?

| |
|---|
| **98%** Canran gofalwyr sy'n oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad yn eu rhinwedd eu hunain yn ystod y flwyddyn |
| Mae Cynnal Gofalwyr wedi cefnogi **528 o ofalwyr**, er mwyn iddynt allu parhau i gynnig gofal i unigolion â chyflyrau iechyd meddwl, pobl hŷn ac i bobl â dementia. |
| Mae Gweithredu dros Blant wedi rhoi cefnogaeth i **33 o ofalwyr ifanc** drwy gydol y flwyddyn. |

## Beth mae ein Pobl yn ei Ddweud?

| |
|---|
| Roedd y staff i gyd yn dangos proffesiynoldeb, empathi a hiwmor wrth ymdrin â fy mam ac yn help mawr i mi wrth ofalu amdani. |
| "Helpodd fy mab i ddysgu am ei deimladau, helpodd fi i ddysgu sut i ymdopi â strategaethau a helpodd ni i ddatblygu fel teulu. Rydw i wedi cael lot o help ac adnoddau ac wedi gallu datblygu sgiliau ac mae fy mab wedi cael hefyd." |



## Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24

| |
|---|
| Cynnydd wrth adolygu ac ail-gomisiynu ein darpariaeth Gofal Dydd i Oedolion ag Anableddau Dysgu, gyda'r nod o gryfhau cyfleoedd cymunedol ar draws yr Ynys. |
| Parhau i symud ymlaen ac arwain y ffordd gyda'n gwaith Ynys sy'n Wybodus am Drawma trwy gynnig hyfforddiant pellach i sefydliadau a phartneriaid mewnol ac allanol ar draws Ynys Môn. |





# Lles

Mae Gweithgor Prosiect wedi'i sefydlu i baratoi **Adolygiad o Lety â Chymorth** yn y gwasanaeth Anabledd Dysgu. Rydym yn gweithio gyda Chymdeithasau Tai, gyda'r nod o nodi cyfres o opsiynau tai pwrpasol i helpu i foderneiddio a darparu gwasanaethau mewn modd mwy cost effeithiol yn y dyfodol agos.


At hyn, mae gwaith ar ein trydydd **Datblygiad Gofal Ychwanegol** yn **Ward Aethwy** wedi bod yn mynd rhagddo, gyda Phenseiri a Syrfëwr Meintiau wedi'u penodi. Mae Cynlluniau drafft wedi'u paratoi ac yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Bydd gwaith clirio'r safle yn dechrau, os caniateir cais cynllunio statudol y gwneir cais amdano yn hwyr yn 2023, gyda'r bwriad o ddechrau adeiladu yn hydref 2024.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn adolygu ein **Darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid**, er mwyn moderneiddio a gwella ein harlwy. Ymhlith rhai o'n cyflawniadau mae:

- Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid trwy'r **Grant Strydoedd Saffach,** ar hyn o bryd, yn arbrofi gyda "Caffi Ieuenctid" galw heibio wythnosol gan ddefnyddio cyfleusterau busnes lleol, Cuffed-in Café, yng Nghaergybi. Nod y prosiect yw dwyn i mewn bobl ifanc 14+ nad ydynt yn mynd i'r clwb ieuenctid cyffredinol a chysylltu â nhw unwaith eto. Mae'r caffi ieuenctid yn cynnig lleoliad diogel gyda thîm o weithwyr ieuenctid yn cefnogi/partneriaid allweddol yn cynnig sesiynau, gyda bwyd a diod yn cael eu cynnig i bawb. Mae'r caffi wedi bod yn llwyddiannus gyda hyd at 40 o bobl ifanc 14-18 oed yna'n wythnosol.
- Yn ddiweddar, rydym wedi cwblhau gwaith ar gyfranogiad a llais pobl ifanc. Aeth dros 400 o bobl ifanc o'r pum Hwb Clwb Ieuenctid Ardal am **ddiwrnod gweithgareddau awyr agored yng Nghanolfan Conwy** a chwblhau arolwg ar "*Dweud eich dweud ar ddyfodol y gwasanaeth ieuenctid*". Rydym yn y broses o gwblhau'r adroddiad ar y canfyddiadau allweddol a, hyd yma, yn eu plith mae hygyrchedd, cael rhywle diogel, ystod o weithgareddau i'w cynnig drwy gydol yr wythnos a mynediad at **oedolyn emosiynol**.
- Mae cyfartaledd o 750 o bobl ifanc yn mynd i'n 18 clwb bob wythnos yn ystod y tymor ysgol. Rydym wedi bod yn hyblyg o ran newid yr oriau agor i gefnogi gwaith gweithredu'r mannau cynnes ac mae hyn wedi bod yn llwyddiannus gyda mwy o bobl ifanc yn chwilio am fwyd ac yn ei gael.
- Byddwn yn agor Clwb Ieuenctid ychwanegol i bobl ifanc 11-18 yn Llangefni o fis Medi ymlaen. Daeth hyn yn sgil ymgynghori â phartneriaid, pobl ifanc a staff. Bydd y sesiwn wythnosol gyda'r nos yn fan diogel i gynnig amrywiaeth o weithgareddau ieuenctid ac ymgysylltu. Byddwn yn gweithio gyda Chanolfan Ysgol y Bont i gael pobl ifanc i ddod yno. Mae hyn yn rhan o'n cynllun grant ieuenctid tegwch ac amrywiaeth.
- Rydym wedi trefnu dwy sesiwn awyr agored breswyl ar gyfer dros 80 o bobl ifanc fregus sydd wedi'u targedu ac sy'n mynd i'n sesiynau ysgol a chlybiau. Ar hyn o bryd, rydym yn treialu dull tebyg gydag 20 o blant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr maeth.
- Mae 82 o ddysgwyr yn mynd i'n grŵp LHDTC+ wythnosol yn ein pum ysgol uwchradd.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi adolygu ein **Cefnogaeth Addysgol i'n Plant sy'n Derbyn Gofal**. Rydym wedi blaenoriaethu'r isod er mwyn cryfhau ein cefnogaeth:

- Rydym wedi sicrhau ansawdd yr holl **Gynlluniau Addysg Bersonol** ar gyfer ein plant sy'n derbyn gofal gyda chynllun clir ar gyfer y camau nesaf. Mae'r dangosfwrdd Addysg newydd yn ei le gyda dangosyddion allweddol ar gyfer cynnydd a llwyddiant.
- Rydym wedi datblygu canllawiau i ysgolion/sefydliadau addysg ar gasglu tystiolaeth ar gyfer y Llysoedd Teulu. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus ac wedi'i groesawu gan ysgolion/staff. Mae'n sicrhau cysondeb, ansawdd gwybodaeth a, hefyd, lens sy'n wybodus am drawma.
- Rydym wedi penodi Pennaeth Ysgol Rithwir sy'n rheolwr gwasanaeth y mae ei rôl wedi'i hintegreiddio ar draws y Gwasanaeth Addysg a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.
- Ar hyn o bryd, mae'r Swyddogion Lles a Chynhwysiad yn cefnogi 55 o'n plant sy'n agored i Dimau Gweithwyr Cymdeithasol 1-6. Mae pob aelod o'r tîm wedi cwblhau'r **Diploma Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma** neu wrthi'n ei gwblhau i sicrhau cysondeb o ran gweithredu yn yr ysgolion. Canolbwyntiwyd ar feithrin ymgysylltiad a chyfathrebu teuluol, cefnogaeth / darpariaeth iechyd a lles.









## Pa wahaniaeth wnaethon ni?

**92%** Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol

**93.83%** Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd fod i'w cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau

## Beth mae ein Pobl yn ei Ddweud?

"Diolch am yr holl help a chefnogaeth 'dach chi wedi'u rhoi i ni drwy gydol heriau gofal iechyd [defnyddiwr gwasanaeth] a thrwy broses asesu'r Gofal Iechyd Parhaus. O'r amser y siaradon ni gyntaf, pan ddaethoch chi allan mor gyflym i'w gweld, i'r asesiad o'r rhestr wirio sbarduno ... a hyd at gyfarfod asesu'r tîm amlddisgyblaethol/Erfyn Cefnogi Penderfyniadau heddiw, 'dach chi wedi bod yn SEREN!!! Yn ein harwain trwy broses gymhleth iawn a rhannu eich holl wybodaeth a'ch arbenigedd mor garedig, ymatebol ac amyneddgar efo ni. Mae hi wedi bod yn fraint ac yn bleser gweithio trwy hyn i gyd efo chi."

"Roedd y Gweithiwr Cymdeithasol yn empathetig iawn tuag at y fam heb osgoi sgyrsiau anodd yr oedd eu hangen i ddiogelu'r plentyn.... Mae'r gweithiwr cymdeithasol bob amser yn deg a chytbwys, gan barchu'r rhiant wrth, hefyd, sicrhau bod y risg i'r plentyn yn parhau i fod yn ganolbwynt y cyfarfod ffocws i'r cyfarfod"

## Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24

Cwblhau'r adolygiad o Lety Byw â Chymorth, fydd yn ein galluogi i ddeall yr angen a'r opsiynau sydd ar gael yn well a chynorthwyo'r broses benderfynu.

Cwblhau gwaith moderneiddio ac ailstrwythuro ein Darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid

# Partneriaethau

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i lawer o'n gweithgareddau. Wrth weithio mewn partneriaeth, mae modd i ni gael at sgiliau, gwybodaeth a phrofiad eraill a'u defnyddio i ddatblygu ymateb ar y cyd a chyfuno adnoddau fel ein bod yn cynhyrchu ymatebion a gwasanaethau i'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu.

Rydym yn parhau i gyflawni ein **hagenda integreiddio** gyda phartneriaid iechyd a thrydydd sector yn ein **Timau Adnoddau Cymunedol,** a hynny mewn tri safle dynodedig ar yr ynys. Rydym wedi symud ymlaen gyda chyflwyniad Digidol Cymru Gyfan o waith integreiddio'r WCCIS yn ystod y flwyddyn ac mae bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi treialu'r defnydd o WCCIS yn eu Timau Adnoddau Cymunedol fel rhan o'n prosiect SiMon lleol. Y nod fydd sicrhau fod gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn cael ato a sicrhau bod gennym ddata amserol a gwella llif gwybodaeth ar draws y gwasanaethau a rheoli galw, fydd o fudd i brofiad defnyddwyr y gwasanaeth.

Mae ein **Hybiau Cymunedol** yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd yn ein cymuned leol. Mae **Canolfan Glanhwfa** (Canol) yn enghraifft wych o Hwb Cymunedol wedi'i leoli mewn adeilad hanesyddol, Capel Moreia. Mewn cyfnod byr, mae'r hwb newydd wedi datblygu i fod yn ganolbwynt ar gyfer gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol sy'n cefnogi unigolion o bob oed. O ganlyniad i'r llwyddiant ysgubol hyd yma, mae gwaith eisoes wedi dechrau i ddatblygu camau nesaf y Ganolfan.

Mae gwasanaeth **Dementia Actif Môn** yn sicrhau bod pobl sy'n byw gyda Dementia yn cael cyfleoedd i fwynhau gweithgareddau sy'n hybu iechyd a lles. Yn ogystal â chefnogi'r unigolion sy'n byw gyda Dementia, mae'r gwasanaeth, hefyd, yn **cefnogi gofalwyr di-dâl**. Rydym wedi cael adborth hynod gadarnhaol gan rai a ddaw i'r gweithgareddau yn dweud bod y grwpiau yn rhoi pleser aruthrol i lawer o'r unigolion.



*Agor Canolfan Glanhwfa yn ffurfiol – gan Jane Hutt AS, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, a gwesteion eraill.*

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cyflwyno cais ar ran yr Ynys gyfan i ddod yn aelod o **Rwydwaith Cymunedau Oed-Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd**. Bydd dod yn aelod o'r rhwydwaith yn dangos bod y Sir wedi ymrwymo i chwalu'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â heneiddio'n dda a chadarnhau statws Ynys Môn yn Ynys oed-gyfeillgar. Cyflwynwyd y cais i Helena Herklots (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru) yn ystod **Cynhadledd Oed-gyfeillgar Ynys Môn** yn ddiweddar a disgwyliwn ymateb ffurfiol ddiwedd haf 2023.













*Weithgareddau Dementia Actif a gynhelir trwy gydol y flwyddyn.*



*Cynadleddwyr y Gynhadledd Oed-gyfeillgar i Fôn, a gynhaliwyd yn M-Sparc, Gaerwen.*




*Arweinydd y Cyngor Llinos Medi a Helena Herklots, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.*

Mae **Tîm Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn** wedi cael canlyniadau cadarnhaol yn y tri maes Perfformiad Cyfiawnder Troseddol Allweddol ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru. Mae cyfraddau'r rhai sy'n cael eu carcharu am y tro cyntaf yn parhau i fod yn isel (30 ar gyfer y 12 mis hyd at Ragfyr 2022) ac yn is na chymariaethau rhanbarthol a chenedlaethol. Yn 2022-23 ni wnaethom ddefnyddio'r ddalfa unwaith (nid ydym wedi cael unrhyw achosion o garcharu ers 2020). Mwy dymunol yw ein perfformiad o ran cyfraddau aildroseddu. Am y tro cyntaf yn y blynyddoedd diwethaf, mae ein cyfraddau wedi disgyn yn is na'r gymhariaeth gyfartalog ranbarthol a chenedlaethol.

Mae ein *pedwar Dangosydd Lles* yn dangos perfformiad amrywiol dros y 12 mis diwethaf, mewn mannau sy'n adlewyrchu'r cymorth rhagorol a gawn gan ein gwasanaethau partner o fewn awdurdodau lleol a'r bartneriaeth ehangach. Fodd bynnag, mae perfformiad **Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth** yn parhau i ddangos arwyddion fod Covid-19 wedi cael effaith andwyol arnynt. Mae achosion o darfu mewn ysgolion a fawr ddim cyfle o ran cyflogaeth a hyfforddiant yn parhau ac wedi arwain at ffigurau **cynnig** a **phresenoldeb** gwael. Mae cymorth **llety** yn parhau i elwa'n fawr ar ein perthynas ag adrannau tai a gwasanaethau plant ac mae dylanwad ychwanegol ffigurau perfformiad ein Swyddog Tai Gogledd Cymru, sydd wedi ei secondio, wedi parhau'n dda drwy gydol y flwyddyn.

Mae perfformiad targed **Asesiad o Gamddefnyddio Sylweddau a'r Driniaeth** wedi bod yn dda i dda iawn. Mae'r gwasanaeth yn elwa ar gysylltiad agos a gweithio mewn partneriaeth gyda Thîm Camddefnyddio Sylweddau Pobl Ifanc Gwynedd a Môn 'Be di'r Sgôr', sydd wedi ei leoli yn y gwasanaeth.

**Mae ein hymyraethau Gwydnwch Seiliedig ar Seicoleg ar gyfer plant yn y System Gyfiawnder,** yn cael eu datblygu'n gyson yn 22-23. Bu i ni symud i'n hail raglen Astudio Doethur mewn Athroniaeth. Bydd y prosiect prawf nawr yn golygu y bydd Gwasanaeth Cyfiawnder yr Ifanc o bob rhan o'r rhanbarth a'n cydweithwyr yng ngweddill Cymru yn cyfrannu at garfan gymharol. Mae'r astudiaeth wedi ennyn cryn ddiddordeb cyrff academaidd Cenedlaethol, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, gyda Llywodraeth Cymru yn dilyn ein cynnydd yn agos..

Yn ystod 2022/23, bu i ni barhau i atgyfnerthu ein trefniadau rhagorol i weithio mewn partneriaeth gyda'n cydweithwyr yn y **Gwasanaethau Tai. Atal digartrefedd** trwy sicrhau ei fod yn brin, yn fyr ac na chaiff ei ailadrodd yw nodau ac amcanion allweddol **Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai** Cyngor Sir Ynys Môn. Yn brif ddarparwr cymorth tai dynodedig ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl, mae ein darpariaeth hefyd wedi cyfrannu at:

- Liniaru'r effaith ac atal digartrefedd
- Cefnogi pobl i fyw'n annibynnol.
- Darparu cymorth wedi'i deilwra a'i dargedu fel bod modd i bobl fregus fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ar draws pob deiliadaeth.





## Pa wahaniaeth wnaethon ni?

**16.74%** Cyfradd y bobl hŷn (65 oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth

**14.35%** Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hailgyfeirio o fewn 12 mis

## Beth mae ein Pobl yn ei Ddweud?

"Dw i wrth fy modd gweld wyneb mam yn goleuo gydag ychydig o adnabyddiaeth pan fydd y ddau (gofalwyr cartref) yn dechrau sgwrsio â hi, ac mae'n ymddangos eu bod nhw'n llwyddo i'w chael hi i chwerthin yn rheolaidd… mi fedra i dd'eud, â fy llaw ar fy nghalon, bod y ddwy ddynes yma wedi gwneud fy mywyd i, y "gofalwr" di-dâl, cymaint yn haws dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf,

"Mae fy mhlentyn bellach yn cael yr help sydd ei angen arno yn yr ysgol ac mae hyn wedi arwain at newid llwyr yn ei agwedd"

## Blaenoriaethau ar gyfer 2023/24

Byddwn yn blaenoriaethu datblygu mwy ar ein Tudalennau Gwe ar gyfer ein Cymuned Oed-gyfeillgar, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth trwy ein Hybiau Oed-gyfeillgar .

Ehangu ein cynnig hyfforddi safonol i'n Pobl sy'n Gadael Gofal

Tudalen 42

# Sut Rydym yn Gwneud yr hyn a Wnawn

## A Ein Gweithlu, a sut rydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol gysylltiadau ardderchog ac maent yn gweithio'n agos iawn gyda'r Uned Datblygu Gweithlu sy'n rheoli grant **Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru** (y SCWWDP) i roi cyfleoedd Hyfforddi a Datblygu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol ehangach ar Ynys Môn.

Caiff blaenoriaethau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol eu hystyried wrth gynllunio cyfleoedd datblygu ar gyfer y gweithlu a byddir yn achub ar bob cyfle i weithio mewn partneriaeth â'n Hawdurdodau Lleol cyfagos, y GIG ac Asiantaethau eraill er mwyn gwireddu'r cynllun. Mae'r meysydd blaenoriaeth allweddol a gefnogir wedi'u nodi yng **Nghylchlythyr Blynyddol Gofal Cymdeithasol Cymru. Nodir**

**Meysydd Blaenoriaeth a Heriau/ Llwyddiannau Allweddol isod:**

- **Platfform E-ddysgu – Cronfa Ddysgu** Mae'r defnydd o'r llwyfan E-Ddysgu a'r modiwlau a gynigir wedi parhau i gael ei hyrwyddo yn un o'r dulliau allweddol o ddysgu, fel y dangoswyd gan y 481 o fodiwlau (gofal cymdeithasol penodol) a gwblhawyd.
- **Lleoliadau Myfyrwyr a Chyfleoedd Hyfforddeion** Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor a chroesawu myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol ar y cwrs MA Gwaith Cymdeithasol. Canfuwyd amrywiaeth o leoliadau ar draws y gwasanaethau.

  Bu i ni barhau i gefnogi Ymarferwyr oedd Newydd Gymhwyso trwy eu Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer sy'n cynnwys y Rhaglen Gyfuno, Porth Agored. Mae pedwar aelod o staff wedi cwblhau'r rhaglen Porth Agored yn llwyddiannus yn ystod 2022/23. Mae cyfanswm o 11 o ymarferwyr wedi'u cofrestru ar y rhaglen ar hyn o bryd.

  Rydym eto wedi cefnogi tri lleoliad Gweithiwr Cymdeithasol dan hyfforddiant eleni a heb y buddsoddiad hwn byddai ein sefyllfa'n wahanol iawn o ran swyddi gweigion Gwaith Cymdeithasol. Rydym yn falch iawn o fyfyrwyr Therapi Galwedigaethol a Gwaith Cymdeithasol a hoffem longyfarch y rhai sydd wedi pasio'n ddiweddar.
- **Gofalwyr Maeth** Trefnwyd rhaglen lawn o ddigwyddiadau hyfforddi, gyda thua 13 o gyrsiau wedi'u trefnu yn ogystal â nifer o sesiynau partneriaeth ar y cyd ag Awdurdod cyfagos. Parhau i weithio'n llwyddiannus iawn oedd mynediad hyblyg i hyfforddiant ac roedd modd cael at fodiwlau oedd wedi'u targedu'n benodol, gyda chyfanswm o 55 o fodiwlau'n cael eu neilltuo. Mae gofalwyr maeth hefyd wedi cael mynediad at blatfform e-ddysgu CSYM a gallant gael mynediad at fodiwlau e-ddysgu perthnasol. Cânt eu hannog i archebu lle ar gyfer hyfforddiant trwy ein system archebu ar-lein a adwaenir hefyd fel Hwb Dysgu Gofalwyr Maeth.
- **Cefnogaeth i Gofrestru** Cynigiwyd yn llwyddiannus ar-lein sesiynau penodol i gefnogi staff gyda chofrestru yn ogystal â gwaith datblygu rhaglen gymorth yr AWIF oedd yn cynnwys nifer o weithdai yn ymdrin â chynnwys llyfrau gwaith (Gwerthoedd ac Egwyddorion; Iechyd a Lles; Ymarfer Proffesiynol ac Iechyd a Diogelwch).



- **Cymwysterau Proffesiynol** Fel rhan o strategaeth Cynllunio Gweithlu'r Awdurdod, mae staff wedi'u hannog a'u noddi i ymgymryd â chymwysterau ychwanegol.

  Mae un gweithiwr cymdeithasol wedi cofrestru'n ddiweddar ar y cwrs Ymarferydd Iechyd Meddwl Cymeradwy.


  Mae un ymarferydd wedi cwblhau Rhaglen Datblygu Rheolwr Tîm yn llwyddiannus ac mae tri ymarferwr newydd wedi cofrestru ar y rhaglen honno. Mae gennym gyfanswm o chwech wedi cofrestru ar y rhaglen hon ac mae disgwyl iddynt gwblhau'r cwrs eleni.

  Yn ogystal â hyn, mae pum ymarferydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Aseswr Budd Gorau yn ddiweddar gyda saith ymarferwr arall y mae disgwyl iddynt gwblhau'r cymhwyster eleni.

  Mae 14 aelod o staff yn dilyn y CertHE mewn ymarfer Gofal Cymdeithasol drwy'r Brifysgol Agored.
- **Diogelu** Yn ogystal â'r ddarpariaeth arferol o sesiynau Diogelu Cyffredinol a gynigir i'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol, mae ystod o gyrsiau arbenigol ychwanegol, hefyd, wedi'u hyrwyddo.
- **Mwy na Geiriau** Mae'r rhaglen Hyfforddi Cymraeg ar gael i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg, gwella eu gallu o'r iaith neu ddatblygu hyder yn eu gallu ohoni. Mae ystod o adnoddau Datblygu'r Gymraeg wedi'u cynnig dros y flwyddyn ddiwethaf; gan gynnwys cyrsiau preswyl 'Dysgwch Gymraeg'; gwersi wythnosol; sesiynau hunanastudio a magu hyder ar-lein. Trefnwyd gweithdy Ymwybyddiaeth Iaith ar gyfer Myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol a Hyfforddeion Galwedigaethol yn rhan o'u cyfnod sefydlu, oedd yn cynnwys cyflwyniad a chyfle i bawb rannu profiadau a myfyrio.

  Mae tudalen newydd wedi'i chreu ar ein Cronfa Ddysgu i gynorthwyo gyda gwaith hyrwyddo ac arddangos yr holl opsiynau sydd ar gael i holl staff ac aelodau'r bartneriaeth.

  Mae modiwl e-ddysgu "Mwy na Geiriau" bellach yn orfodol i bob aelod o staff gofal cymdeithasol.



## B Ein Hadnoddau Ariannol a Sut rydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Mae cynllunio ariannol yn parhau i fod yn her ddifrifol i'r Cyngor dan bwysau ariannol parhaus a hir. Mae bodloni'r galw statudol o fewn yr adnoddau presennol yn anodd.

Mae'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd wedi gorwario £965k yn 2022-23. Mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n ddiflino i gynnal lefel y Plant sy'n Derbyn Gofal. Roedd y gorwariant i'w briodoli'n bennaf i'r isod, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt;

Orwariant o £1,331k ar y gyllideb Plant sy'n Derbyn Gofal ar yr alldro. Y rheswm pennaf am hyn oedd bod lleoliadau y tu allan i'r sir yn £822k. Mae pob maes arall, hefyd, yn gorwario ac eithrio lleoliadau ansafonol (£113k o danwariant).

Mae gwasanaethau oedolion yn adrodd ar sefyllfa adennill costau yn 2022-23. Mae hyn ar ôl cymhwyso £(966k) o gronfeydd pwysau wrth gefn y Gwasanaethau Cymdeithasol a £(249k) o grantiau untro. Gorwariant o £1,215k fyddai'r sefyllfa diwedd blwyddyn, heb gynnwys yr uchod. Mae'r gorwariant net yn ymwneud â'r isod, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt;

Uned Ddarparu wedi tanwario £(387k). Mae mwyafrif y tanwariant hwn yn ymwneud â gofal cartref, ac mae'n ganlyniad uniongyrchol i swyddi gweigion.

Mae gan y Cyngor brosesau pennu cyllideb a chynllunio ariannol effeithiol ar waith ,sydd wedi'u rheoli'n dda, ac mae aelodau etholedig yn cymryd rhan lawn yn rhaglen gylchol cynllunio ac yn craffu gwaith pennu a monitro cyllidebau.

Yn y tabl isod amlinellir cyfrifon ariannol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2022/23:

| | Cyllideb £ | Gwirioneddol | Gwahaniaeth £ |
|---|---|---|---|
| **GWASANAETHAU PLANT a THEULUOEDD** | 12,331,572 | 12,296,501 | 964,929 |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | |
| POBL HŶN | 10,208,294 | 10,089,512 | -118,782 |
| ANABLEDDAU CORFFOROL | 2,350,479 | 2,451,636 | 101,157 |
| ANABLEDDAU DYSGU | 7,465,319 | 7,830,275 | 364,956 |
| IECHYD MEDDWL | 2,439,488 | 2,725,682 | 286,194 |
| GWASANAETHAU CYMORTH | 1,475,172 | 1,284,518 | -190,654 |
| **UNED DDARPARU** (GOFAL MÔN/ GWASANAETHAU ERAILL) | 6,428,639 | 5,985,768 | -442,871 |
| **CYFANSWM** | ***30,367,391*** | ***30,367,391*** | **0** |



## C Gweithio mewn Partneriaeth, ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Gwaith Llywodraethu a'n Hatebolrwydd

Mae **llywodraethu gwleidyddol** o fewn y Cyngor wedi parhau i fod yn gadarn yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn wedi bod yn ystod cyfnod o newid sylweddol oherwydd etholiadau lleol a sefydlu gweinyddiaeth newydd a thîm diwygiedig ag arweinyddiaeth weithredol. Mae hyn wedi bod yn fodd i roi cefnogaeth glir a chyson i'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd a chraffu penodol ar gynnydd.

Y **Pwyllgor Gwaith** yw'r corff gwneud penderfyniadau allweddol ac mae'n cynnwys yr Arweinydd, dau ddirprwy Arweinydd ac wyth Aelod Portffolio. Mae'r Arweinydd wedi mabwysiadu'r portffolio dros ddatblygu economaidd dan y weinyddiaeth newydd ond mae'n parhau i fod â golwg cyffredinol ar faterion trefniadol. Mae hi wedi dirprwyo'r Portffolio dros Wasanaethau Cymdeithasol (Plant ac Oedolion) i ddau aelod etholedig. Mae'r ddau yn goruchwylio ein 'gwelliannau' yn wleidyddol a sut rydym wedi ymdrin â'r heriau o ymdrin â'r pwysau a nodwyd fel rhan o'n rôl wrth ymdrin â phwysau costau byw a chynnydd yn y galw. Ceir tystiolaeth o'r effeithiolrwydd cynyddol hwn yn y modd y cafodd y rhai mwyaf bregus yn ein plith eu blaenoriaethu eto ar gyfer cymorth yn ystod y flwyddyn ariannol. Adlewyrchir hyn yn yr adroddiadau a dderbynnir gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn flynyddol.

Mae'r **Panel o Aelodau Etholedig** a sefydlwyd ar ôl etholiadau Mai 2022 i graffu, herio a chefnogi'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, yn parhau â'i waith mewn modd hybrid ac wedi gweld parhad yn safon gwaith y staff wrth iddynt ofalu am y rhai mwyaf bregus. Mae'r agenda sydd wedi'i hailsefydlu dros y deuddeg mis diwethaf ac sy'n gweithredu yn fwy o bell, yn goruchwylio'r agenda gofal cymdeithasol i Blant ac Oedolion. Daw aelodaeth y panel o bob rhan o'r grwpiau gwleidyddol ac mae'n parhau i roi'r cyfle i'r Aelodau ehangu eu gwybodaeth am y gwaith a wneir gan yr adran a'u dealltwriaeth ohono a, thrwy hynny, arwain at graffu gwell.

Mae'r Panel Rhiantu Corfforaethol, a gadeirir gan ein Prif Weithredwr, ac aelodau yn cynnwys Aelodau Etholedig, partneriaid a chydweithwyr eraill, ac mae ganddo'r cyfrifoldeb a rennir ar draws y Cyngor i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ein gofal, neu sy'n gadael gofal, yn cael cymorth i ffynnu; 'ein plant ni' ydyn nhw. Yn ystod y flwyddyn mae'r Panel wedi bod yn adolygu ei Strategaeth Rhiantu Corfforaethol 2023-28 a bydd hon yn cael ei chyhoeddi yn ystod yr haf.

Rydym wedi trefnu chwe **Sesiwn a Sgwrs Arweinyddol** ar gyfer 2023-24, yn lle'r ymweliadau Laming blaenorol, (tri Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a thri Gwasanaeth Oedolion), fydd yn fodd i'n haelodau etholedig ddeall mwy ar ein gwaith a chael gwell cipolwg arno fel bod ganddynt well gwybodaeth i wneud penderfyniadau.

**Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth** yn lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn wedi'i gydnabod yn gryfder mewn adroddiadau arolygu allanol **diweddar yn y gorffennol** ac mae'n parhau i fod yn faes i ni adeiladu arno. Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Oedolion yn parhau i fod yn rhan weithredol o agendâu Cymru Gyfan a Gogledd Cymru er mwyn gwella'r modd y darperir

Tudalen 44

gwasanaethau cymdeithasol trwy ddull cydweithredol.

Fel sydd wedi digwydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae **trefniadau llywodraethu** yn parhau i fod yn eu lle trwy Gydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru (yr NWSSIC) a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Gellir tystio ymhellach i'r ethos partneriaeth hwn wrth i Wasanaethau Cymdeithasol y Cyngor a Bwrdd iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, drwy'r Bwrdd Cyflawni Integredig, gydweithio. Sicrhau bod anghenion iechyd a gofal pobl Ynys Môn yn cael eu gwasanaethu'n well trwy integreiddio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau awdurdodau lleol yn well yw pwrpas y Bwrdd Cyflawni Integredig yn dal i fod.

Mae **Fframwaith Cynllunio Corfforaethol a Rheoli Perfformiad y Cyngor** wedi'i ymgorffori yn ei drefniadau llywodraethu blynyddol. Mae'r fframwaith hwn wedi'i fabwysiadu i sicrhau bod meddylfryd o welliant parhaus wedi'i wreiddio yng ngwaith gwasanaethau'r Cyngor a bod disgwyliadau'r **Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** ddiweddar yn cael eu bodloni. Mae, hefyd, yn helpu i fonitro materion a allai godi cyn y ceir tanberfformiad a fyddai'n cael effaith ar y gwasanaethau a ddarperir i'r dinesydd. Gwneir hyn yn chwarterol drwy gyfrwng cerdyn sgorio corfforaethol a gwaith dau fwrdd rhaglen trawsnewid corfforaethol (a ailsefydlwyd dan y weinyddiaeth newydd). Mae perfformiad yn erbyn dangosyddion cenedlaethol a lleol wedi parhau i fod yn dda yn ystod y flwyddyn ac mae hyn yn rhoi sicrwydd bod ein model gweithredu'n berthnasol ac yn gyfredol. Er bod hyn yn adlewyrchiad cadarnhaol o safon y gwasanaeth a roddir gan y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn ystod 2022/23, bydd angen adolygu a blaenoriaethu'n lleol y Dangosyddion Perfformiad Allweddol mwyaf perthnasol yn seiliedig ar Gyfarwyddyd Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod data'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gael yn hawdd. O wneud hyn, bydd modd dadansoddi'r perfformiad yn amserol drwy'r fframwaith a wreiddiwyd, yn ystod 2023/24.

BWRDD Diogelu Gogledd cymru

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
**GOGLEDD CYMRU**
**NORTH WALES**
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

**Y Gwasanaethau Cymdeithasol**
Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW

www.ynysmon.gov.uk

Cysylltwch â ni ar:
Ffôn: 01248 751887
E-bost: EmmaEdwards@ynysmon.llyw.cym



Dilynwch ni

Dechrau'n Deg Gofal Plant a Chwarae Môn Ysgolion Iach Cyn Ysgol

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Cyngor Sir Ynys Môn** |
| Dyddiad: | **26 Hydref 2023** |
| Pwnc / Testun: | **Adroddiad Perfformiad / Llesiant Blynyddol 2022/23** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Carwyn E Jones** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Carys Edwards** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Gethin Morgan**<br>01248 752111<br>Gethinmorgan@Ynysmon.Gov.Uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**1** Yn unol a'r cyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r cyngor lunio a chyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Mae'r ddogfen hon yn ddogfen sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau amlinellwyd gan y Cyngor.

**2** Mae'r papur hwn yn amlinellu ein Hadroddiad Perfformiad / Lleisiant sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2022/23.

**3** Mae'n ddiweddariad  ar gynnydd y cyngor yn erbyn y Cynllun Trosiannol 2022/23.

**4** Gofynir i'r Cyngor felly:

**Cytuno cynnwys yr Adroddiad Perfformiad / Lleisiant 2022/23 a'i fabwysiadu fel adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod dros y cyfnod hynny.**

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Amherthnasol

## Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

| |
|---|
| |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn rhoi cipolwg ar y gwaith a wnaed gan y Cyngor dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn ogystal â pherfformiad DPA yn erbyn y Cynllun Trosiannol 2022/23 a Chynllun y Cyngor.<br><br>Mae'r 3 amcan lleisant, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol gan mai adroddiad o waith a fu ydyw. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Amh. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Ymgynghorwyd â thrigolion Ynys Môn cyn drafftio Cynllun y Cyngor yn 2017 |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan y Tîm Arweinyddol ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan Sgriwtini Corfforaethol ar y 19/9 |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Adroddiad Perfformiad / Llesiant 2022/23 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Cynllun Trosiannol 2022-23<br>Cynllun y Cyngor 2017-22<br>Adroddiad Perfformiad / Llesiant 2021/22 |

# Adroddiad Perfformiad / Lleisiant Blynyddol 2022/23

**Paratowyd gan** – Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad cyhoeddi** – Hydref 2023

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

# Cyflwyniad

Croeso i'n Hadroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2022/23 sy'n rhoi trosolwg o'r hyn y mae'r Cyngor, ar y cyd â'n cymunedau gwydn, wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fel Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor, rydym yn falch o gyflwyno'r llwyddiannau nodedig sydd wedi cyfrannu at nifer o welliannau ar ein hynys yn ystod y flwyddyn.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi gorfod ymdopi â heriau yn sgil yr argyfwng costau byw a hynny trwy gydweithio a chefnogi'n gilydd. Mae ein cymunedau wedi dangos grym cydweithio, trwy gynnig help i gymdogion a thrigolion pan fo angen.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r holl waith yr ydym ni wedi'i gyflawni er mwyn sicrhau cynnydd, yn cynnwys adfywio'r economi leol ac ymgorffori newidiadau economaidd cadarnhaol i fentrau cynaliadwy a chynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol hanfodol ledled yr ynys. Rydym hefyd wedi helpu'r sector ymwelwyr a lletygarwch i wneud y mwyaf o boblogrwydd yr Ynys gan amddiffyn ein hasedau a'n cymunedau ar yr un pryd. Mae'n hymrwymiad ar y cyd i sicrhau twf a datblygiad yn amlwg ym mhob prosiect yr ydym ni wedi'i gyflawni.

Wrth edrych tua'r dyfodol mae'r llwybr o'm blaenau'n llawn gobaith a photensial. Bydd Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028, sydd newydd gael ei lansio, wrth wraidd ein holl benderfyniadau yn y dyfodol; bydd yn darparu fframwaith fel y gallwn gynllunio a bwrw 'mlaen â'n blaenoriaethau; a monitro perfformiad a chynnydd. Crëwyd y Cynllun â chyfaniad trigolion, busnesau, rhanddeiliaid, a phartneriaid. Yr hyn sydd wrth ei wraidd ydi'n hawch i barhau i weithio gyda hwy er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau gorau posib ar gael, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol.

I gloi, hoffem ddiolch i'n staff ymroddedig am eu gwaith caled a'u hymrwymiad dros y flwyddyn ddiwethaf. Ac i'r gymuned, gan mai'ch cadernid a'ch caredigrwydd chi sy'n ein gwthio ni i gyrraedd y nod gyda'n gilydd. Mae'r adroddiad hwn yn dyst i'r hyn y gallwn ni ei gyflawni law yn llaw.



**Llinos Medi**

**Arweinydd y Cyngor**




**Dylan Williams**

**Prif Weithredwr**


# Uchafbwyntiau Allweddol

Mae rhai o'r uchafbwyntiau allweddol ar gyfer perfformiad eleni i'w gweld isod. I gael gwybodaeth am sut rydym yn monitro perfformiad gweler [ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad.aspx](ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad.aspx)


## Cynnydd yn erbyn y Cynllun Trosiannol




## Canlyniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2022/23




## Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2022/23 Perfformiad Blwyddyn ar Flwyddyn



## Datblygiad yn erbyn ffrydiau gwaith y Cynllun Trosiannol

Mae diweddariadau yn erbyn pob blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithgareddau'r Cynllun Trosiannol yn cael eu trafod yn yr adran nesaf o'r adroddiad.

Mae adroddiadau cynnydd yn erbyn y camau allweddol a gymerwyd ar y cynllun gwaith presennol i'w gweld isod:

### A. Adfywio'r economi leol ac ymgorffori newidiadau economaidd positif

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| 1. Adeiladu 6 uned fusnes newydd ym **Mharc Busnes Bryn Cefni (Tregarnedd), Llangefni** a pharatoi 6 plot ychwanegol i'w gwerthu ar y farchnad agored.<br><br>Adeiladu 7 uned fusnes newydd ym **Mhenrhos yng Nghaergybi** (ar y cyd â Llywodraeth Cymru) | Yn ystod y flwyddyn rydym wedi adeiladu 6 uned fusnes newydd ym Mharc Busnes Bryn Cefni yn Llangefni.<br><br>Adeiladu 7 uned fusnes ychwanegol ym Mhenrhos, Caergybi, ond ychydig o oedi cyn eu cwblhau oherwydd newidiadau mewn ymrwymiadau diogelwch statudol. | |
| 2. Cryfhau rôl **Caergybi a'r Porthladd** fel 'Porth' Rhyngwladol Allweddol drwy weithio gyda phartneriaid i gyflawni pob math o brosiectau, yn cynnwys<br><br>a. Atgyweirio'r Morglawdd<br>b. Datblygu'r Porthladd yn cynnwys adennill tir<br>c. Hwb Hydrogen Caergybi<br>d. Gwelliannau i'r orsaf | Rydym wedi cryfhau rôl Caergybi a'r Porthladd fel 'Porth' Rhyngwladol allweddol drwy weithio gyda phartneriaid i gyflawni pob math o brosiectau drwy gydol y flwyddyn. Fe wnaethom ddylanwadu ar y broses i sicrhau cyllid o £20m ym mis Mawrth 2023 gan Lywodraeth y DU i atgyweirio Morglawdd Caergybi.<br><br>Mae cais Porthladd Rhydd Ynys Môn wedi bod yn llwyddiannus. Datblygwyd y cais drwy bartneriaeth ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Stena Line. Mae gwaith ar y gweill i baratoi Achos Busnes Amlinellol.<br><br>Mae'r statws Porthladd Rhydd yn gyfle i sicrhau newid gwirioneddol er mwyn trawsnewid cymunedau ledled Ynys Môn a'r rhanbarth ehangach.<br><br>Mae'r cynlluniau ar gyfer Hwb Hydrogen Caergybi wedi cael eu cymeradwyo. Dyma fydd yr hwb cyntaf o'i fath yng Nghymru a bydd y prosiect yn cael ei | |

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| | sefydlu ym Mharc Cybi, Caergybi gan y fenter gymdeithasol Menter Môn, ochr yn ochr â'r Cyngor.<br><br>Mae'r Cyngor wedi derbyn £2.9 miliwn o gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru, drwy Croeso Cymru, i gyflawni cynlluniau ar gyfer ymwelwyr yn cynnwys:<br><br>• gwella arwyddion a chynllunio llwybrau<br>• gwella'r Gaer Rufeinig sy'n atyniad treftadaeth allweddol<br>• adnewyddu'r toiledau cyhoeddus yn Sgwâr Swift<br>• gwella'r cyfleusterau i ymwelwyr ym Marc Gwledig Morglawdd Caergybi<br>• darparu cyllid cyfatebol i gynlluniau gwella Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi.<br><br>Gweler pwynt 8 am fwy | |
| 3. Cyflawni'r prosiectau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu **Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn**, yn cynnwys:<br>a. Cronfa Grant Busnesau Bach a Grwpiau Cymunedol Gogledd Ynys Môn<br>b. Strategaeth Arwyddion **Porth Amlwch**<br>c. Cyflwyno cynnig cysyniad ar gyfer tir parc y Gymdeithas (a adwaenid yn y gorffennol fel tir Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ym **Mhorth Amlwch**) | Mae Cynllun Gweithredu Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn wedi darparu gwerth £50,000 o grantiau bach i 12 o sefydliadau yng Ngogledd Ynys Môn.<br><br>Mae'r Strategaeth Arwyddion i wella arwyddion ym Mhorth Amlwch wedi'i gwblhau a byddant yn cael eu gosod yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24.<br><br>Mae £50,000 o gyllid wedi cael ei sicrhau drwy Barth Menter Ynys Môn i ddatblygu cynlluniau ar gyfer unedau busnes yn Stryd Mona, Amlwch. Bydd ceisiadau cynllunio'n cael eu cyflwyno yn 2023/24.<br><br>Mae cynnig parcdir, mewn cydweithrediad agos â'r Gymdeithas, wedi'i baratoi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn 2023 | |

| **Camau Gweithredu Allweddol** | ***Yr hyn a wnaethom yn 2022/23*** | ***CAG*** |
|---|---|---|
| d. Parhau i ymchwilio i gyfleoedd i ddarparu unedau busnes newydd<br>e. Hwb newydd MonCF Gogledd Ynys Môn yng nghanol tref **Amlwch** | Defnyddiwyd y grant Trawsnewid Trefi gan Lywodraeth Cymru a grant economaidd-gymdeithasol yr NDA i agor hwb MônCF ar gyfer Gogledd yr Ynys yng nghanol tref Amlwch ym mis Mehefin 2022. | |
| 4. Cefnogi **Bargen Twf Gogledd Cymru** (prosbectws adfer) i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth i helpu i adfer ein economi yn y tymor byr | Mae'r Cyngor wedi cefnogi Bargen Twf Gogledd Cymru (prosbectws adfer yn dilyn covid) i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth i helpu i adfer ein heconomi.<br><br>Mae rhai o'r prosiectau sydd ar y gweill yn cynnwys:<br>• Porth Caergybi<br>• Cydnerth (Morlais), Caergybi<br>• Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni), a Chanolfan Ynni Carbon Isel Prifysgol Bangor ac M-SParc<br>• Hwb Economi Wledig Glynllifon, Gwynedd<br>• Parc Bryn Cegin, Gwynedd<br>• Adweithyddion Bach neu Ddatblygedig Trawsfynydd, Gwynedd | |
| 5. Sefydlu **Awdurdod Iechyd Porthladd** i gyflawni cyfrifoldebau a gwiriadau rheoli ffiniau | Cafodd cynlluniau'r Cyngor i sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd eu gohirio tan 2023/24 wedi i Lywodraeth y DU gadarnhau ei bod yn gohirio ei chynlluniau i gyflwyno gwiriadau rheoli ffiniau newydd. Mae'r Cyngor yn parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod trefniadau lleol yn gadarn a fforddiadwy.<br><br>Nydd trafodaethau pellach gyda Swyddfa'r Cabinet i'w cynnal ynghylch y Model Gweithredu Targed y Ffin (BTOM) gyda chyhoeddiad terfynol wedi'i glustnodi tua diwedd Haf 2023. | |
| 6. Parhau i gyflawni adferiad gwyrdd, cynaliadwy a gwneud **Canol Trefi'n** llefydd mwy bywiog a hyfyw | Mae wifi cyhoeddus ac offer mesur nifer ymwelwyr wedi cael eu gosod yn Llangefni, Porthaethwy, Porth Amlwch, Rhosneigr a Thraeth Bychan. | |

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| a. Archwilio canol trefi yn Ynys Môn i ddod o hyd i welliannau posib<br>b. Mynd i'r afael ag adeiladu gwag a phroblemus<br>c. Datblygu a chyflawni prosiectau tirweddu a phlannu coed | Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael ag adeiladau gwag a phroblemus drwy sicrhau £250k o gyllid drwy'r Cynllun Grant Prosesu a Marchnata yn ogystal â manteisio ar gyfleoedd cyllido eraill gan Cadw. Mae'r Grant Prosesu a Marchnata wedi cefnogi cyfleusterau yng Nghanolfan Glanhwfa a Hwb Mencap, Llangefni.<br><br>Mae'r Cyngor wedi datblygu a chyflawni prosiectau tirweddu a phlannu coed yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gwaith ar 20 o gynlluniau a gafodd eu cyllido drwy Bartneriaeth Tirwedd Ynys Cybi. Cafodd £25,000 hefyd ei sicrhau gan Lywodraeth Cymru i ddarparu rhandiroedd newydd yn Llanfairpwll a diweddaru'r rhandiroedd yng Nghaergybi. | |
| 7. Parhau i symud y **Rhaglen Ynys Ynni** yn ei blaen<br>a. Ymgysylltu a dylanwadu ar y posibilrwydd o ddatblygu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa<br>b. Gweithio gyda datblygwyr prosiectau mawr i sicrhau bod cynigion yn cyflawni buddion lleol, a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol<br>c. Adolygu a diweddaru pwrpas ac amcanion rhaglenni fel eu bod wedi eu halinio'n well â'r gofynion ac ymrwymiadau ym mholisi hinsawdd ac ynni Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | Mae'r Rhaglen Ynys Ynni wedi parhau i ymgysylltu â datblygwyr i roi cyngor a dylanwadu ar gynigion datblygu ynni drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn er mwyn sicrhau ffurf gynaliadwy o ddatblygiad gyda'r effeithiau'n cael eu dileu a'r buddion yn cael eu huchafu.<br><br>Parhawyd i ymgysylltu'n effeithiol â'r holl ddatblygwyr a rhanddeiliaid i gynghori a dylanwadu ar fathau cynaliadwy o ddatblygiad gan gynnwys cymryd rhan lawn yn y broses caniatâd statudol lle mai'r Cyngor yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Awdurdod Lleol i'r prosiect. Mae ymgysylltu wedi cynnwys y prosiectau canlynol:<br><br>• Safle niwclear newydd yn Wylfa<br>• Morlais<br>• Fferm Solar Traffwll<br>• Hwb Hydrogen Caergybi<br>• Fferm Solar Porth Wen<br>• Awel y Môr<br>• Fferm Solar Môn<br>• System Storio Ynni Batri Carrog<br>• Fferm Wynt Mona<br>• Datgomisiynu Gorsaf Bwer Magnox Wylfa | |

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| | • Fferm Solar Alaw Môn<br><br>O ran datblygiad niwclear newydd posibl ar safle dyranedig Wylfa, mae'r Rhaglen Ynys Ynni wedi parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU, Great British Nuclear (GBN) a Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r Rhaglen Ynys Ynni wedi parhau i weithio gyda datblygwyr i sicrhau bod eu cynigion yn darparu buddion lleol yn unol â Strategaeth Cyfraniadau Budd Cymunedol y Cyngor.<br><br>Cynhaliwyd adolygiad o'r Rhaglen Ynys Ynni tua diwedd 2021. Cadarnhaodd yr adolygiad na fu'r rhaglen erioed yn bwysicach na pherthnasol i alluogi prosiectau a chyfleoedd i gael eu huchafu, adlinio blaenoriaethau, parchu unigrywiaeth amgylchedd yr ynys ac i hybu twf economaidd ar draws yr Ynys.<br><br>Mae'r Rhaglen Ynys Ynni wedi ac yn parhau i gefnogi gyda'r cais statws Porthladd Rhydd llwyddiannus. | |
| 8. Datblygu a mynd ar drywydd cymorth drwy **Gronfa Ffyniant Bro ac Adfer Cymunedau Llywodraeth y DU** | Cafodd cais am swm sylweddol o gyllid i helpu i atal dirywiad pellach ac adfer canol tref Caergybi ei gymeradwyo gan Lywodraeth y DU.<br><br>Bydd y cais 'Caergybi: Trawsnewid trwy ddiwylliant a threftadaeth' yn helpu i gynyddu balchder lle i drigolion. Bydd yn helpu i drawsnewid y dref drwy sicrhau buddsoddiad gwerth £22.5m, yn cynnwys £17m drwy'r Gronfa Ffyniant Bro, a darparu buddion gwerth dros £54m i'r gymuned leol.<br><br>Mae'r cais yn cynnwys pecyn o brosiectau cyffrous i -<br>• gynyddu cyflogaeth;<br>• gwella'r hyn sydd ar gael yng nghanol y dref a phrofiad ymwelwyr;<br>• cynyddu ymwelwyr a gwariant;<br>• darparu gofod llawr modern i gwrdd ag anghenion busnesau;<br>• cynyddu mynediad at y celfyddydau, diwylliant a hamdden. | |

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| 9. Gweithio gyda **busnesau lleol** i'w grymuso a'u galluogi i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael drwy gontractau'r Cyngor drwy broses gaffael ddiwygiedig | Mae'r Cyngor wedi ac yn parhau i weithio gyda busnesau lleol, er mwyn eu galluogi i gymryd mantais o'r cyfleoedd sydd ar gael gan y Cyngor drwy gontractau. Mae'r gwaith yn cael ei gyflawni trwy hysbysiadau ar GwerthwchiGymru a digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr er mwyn hybu'r posibiliadau a chyfleodd ar Ynys Môn. | |
| 10. Parhau i ddarparu **grantiau Llywodraeth Cymru** i fusnesau | Nid chafodd unrhyw grantiau newydd i fusnesau eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.<br><br>Disgwylir grantiau newydd yn 2023/24 yn cynnwys grantiau i fusnesau bach drwy'r gronfa UK-SPF a grantiau 'cymunedau mentrus' newydd o dan y cynllun Arfor 2 sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. | |



## B. Galluogi'r sector ymwelwyr a lletygarwch i fanteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys ac amddiffyn ein hasedau a'n cymunedau ar yr un pryd

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| **1.** Paratoi Cynllun **Rheoli Cyrchfan** ac **AHNE (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol)** newydd | Datblygwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan ac AHNE drafft yn ystod y flwyddyn. Ymgynghorwyd ar y cynlluniau hyn yn gyhoeddus yn ystod chwarter cyntaf 2023/24. Bydd y drafftiau terfynol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn ystod 2023/24. | |

| | | |
|---|---|---|
| 2. Buddsoddi i wella ansawdd **Parc Gwledig Morglawdd Caergybi, Nant y Pandy** a'r seilwaith morol er budd a mwynhad trigolion lleol ac ymwelwyr | Mae canolfan ymwelwyr newydd wedi agor ym Mharc Gwledig Morglawdd Caergybi fel rhan o gynllun Cymru gyfan i greu a gwella cyfleusterau i ymwelwyr. Mae'r ganolfan newydd yn rhan o raglen fuddsoddi ehangach i gynyddu apêl Caergybi a gwella'r profiad i ymwelwyr, yn sgil y nifer uchaf erioed o ymweliadau gan longau pleser yn 2023 ac ychwaneg wedi eu trefnu ar gyfer 2024.<br><br>Yn ddiweddar plannodd disgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni 500 o goed derw yng ngwarchodfa natur Nant y Pandy. Nod Tîm Cefn Gwlad ac AHNE y Cyngor oedd tynnu sylw'r disgyblion at bwysigrwydd plannu coed er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, yn ogystal â'u helpu i ddatblygu sgiliau rheoli tir ymarferol. Maent hefyd yn gobeithio y bydd y disgyblion yn teimlo bod y warchodfa natur yn perthyn iddynt hwy ar ôl plannu coed yno ac y byddant yn eu gwarchod ac yn gwneud yn siŵr bod y lle'n cael ei barchu yn y dyfodol. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r llwybrau pren yn ogystal gydag ychwaneg o gynlluniau gwella ar y gweill ar gyfer 2023/24. | |
| 3. Croesawu **40+ o longau pleser** i Ynys Môn / Gogledd Cymru yn ystod y tymor yn 2022 | Croesawyd 42 o longau pleser yn ystod yn 2022 gydag ymwelwyr o bob rhan o'r byd yn ymweld â'r ynys ac ardal gogledd orllewin Cymru. | |
| 4. Cyflwyno mân welliannau i'r seilwaith ymwelwyr mewn lleoliadau poblogaidd i **wella profiad trigolion ac ymwelwyr**, yn ogystal â dylanwadu'n bositif ar ymddygiad ymwelwyr | Mae'r cyllid cyfalaf ar gyfer y prosiect hwn wedi'i ohirio tan 2023/24, gan bod rhaid adolygu ac asesu anghenion presennol y gwasanaeth, er mwyn gallu ddefnyddio'r cyllid yn llawn. | |
| 5. Sefydlu rhaglen waith **Beicio Hamdden a Theithio Llesol** ar gyfer Ynys Môn | Mae gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru gynhyrchu mapiau cerdded a seiclo ar gyfer eu hardal leol, sef Mapiau Rhwydweithiau Teithiau Llesol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r mapiau hyn wedi cael eu dylunio i ddangos:<br>1. Llwybrau presennol – llwybrau cerdded a seiclo sy'n bodoli eisoes<br>2. Llwybrau'r dyfodol – llwybrau newydd y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu creu yn y dyfodol<br><br>Cafodd ein Map ni ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022 ac mae'n nodi dyheadau'r Cyngor ar gyfer gwella ei lwybrau teithio llesol yn yr wyth anheddiad canlynol ar yr ynys:<br>• Llangefni<br>• Llanfairpwll<br>• Y Fali<br>• Benllech<br>• Porthaethwy<br>• Amlwch<br>• Caergybi<br>• Gaerwen | |
| 6. Newid y ffordd yr ydym ni'n gweithio gyda thrigolion a chymunedau trwy godi ymwybyddiaeth a buddsoddi mewn **Cynllunio Lle** er mwyn i gymunedau fod yn fwy gwydn | Mae'r rhaglen Cynllunio Lle yn dal i gael ei darparu gan y Cyngor mewn partneriaeth â Medrwn Môn .<br><br>Mae'r rhaglen yn gweithio gyda chymunedau lleol i greu map cynhwysfawr o asedau a hyd yma mae 7 cynghrair gymunedol yn gweithio gyda chyrff statudol i nodi anghenion cymunedau a blaenoriaethu lle y dylid targedu gwariant.<br><br>Mae'r cynghreiriau'n dod â grwpiau cymunedol, unigolion, gwirfoddolwyr, cynghorau tref a chymuned, busnesau lleol ac unrhyw un sydd â diddordeb ynghyd er mwyn i'r cymunedau y maent yn byw neu weithio ynddynt fod yn fwy annibynnol a gwydn. | |

## C. Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol critigol megis Gofal ac Addysg ledled yr Ynys

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | CAG |
|---|---|---|
| 1. Sicrhau ein bod yn lleihau'r angen am **lety argyfwng a dros dro** trwy ddod o hyd i **gartrefi parhaol** i unigolion sy'n byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd | Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bawb rywle i'w alw'n gartref.<br><br>Yn ystod 2022/23, cafodd tua 130 o bobl eu symud o unedau brys a dros dro i lety preifat neu gymdeithasol. | |
| 2. Paratoi a mabwysiadu **Cynllun Newid Hinsawdd** i amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol a chymunedau | Cyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020 gan ymrwymo i ddod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030.<br><br>O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi cytuno ar 'Gynllun Tuag at Sero Net 2022 i 2025' sy'n amlinellu ei ymrwymiad i'r argyfwng hinsawdd a sut mae'n bwriadu newid i fod yn sefydliad sero net.<br><br>Mae'r Bwrdd Rhaglen Corfforaethol wedi goruchwylio'r gwaith o weithredu'r cynllun yn ystod y flwyddyn. | |
| 3. Adeiladu 83 o **gartrefi ynni effeithiol newydd** â graddfa perfformiad ynni A yn unol â'n Strategaeth Carbon Isel i gwrdd â'r galw'n lleol a sicrhau bod unigolion yn ein cymunedau cael cyfle i fyw mewn cartref fforddiadwy ar draws pob math o ddeiliadaeth i gwrdd â'u hanghenion tai | Mae'r Cyngor wedi adeiladu 38 o gartrefi effeithlon o ran ynni yn ddiweddar. Mae safleoedd hen ysgolion ym Maes yr Ysgol, Caergybi, Ysgol Llaingoch, Caergybi ac Ysgol Llanfachraeth wedi cael eu troi'n gartrefi newydd a modern.<br><br>Mae'r eiddo hyn wedi cael eu dyrannu i denantiaid gan ddefnyddio'r polisi tai cyffredinol a chofrestr tai fforddiadwy Tai Teg, sy'n rhoi blaenoriaeth i drigolion lleol.<br><br>Mae 10 eiddo newydd hefyd yn cael eu hadeiladu yn Lôn Lwyd, Pentraeth ynghyd â 6 eiddo newydd ar safle hen glwb cymdeithasol Biwmares.<br><br>Mae cynlluniau ar y gweill i adeiladu tai newydd yn y lleoliadau canlynol–<br><br>• Hen safle Ysgol Niwbwrch yn Niwbwrch (14 o gartrefi) | |

Tudalen 61

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | CAG |
|---|---|---|
| | • Hen safle Ysgol Thomas Ellis yng Nghaergybi (15 o gartrefi)<br>• Kings Road, Caergybi (7 p gartrefi)<br>• Hen safle Plas Penlan, Llangefni (12 o gartrefi)<br>• Gwêl y Llan yn Llandegfan (25 o gartrefi). | |
| 4. Datblygu **Cartrefi Clyd** Ynys Môn ymhellach yn **Rhosybol, Caergybi a Llangristiolus** gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth **gofal seibiant a Gofal Dydd i blant gydag anableddau** | Mae'r fenter Cartrefi Clyd yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi amser a sylw i blant yn unigol. Mae hyn yn helpu i feithrin perthynas werthfawr gyda hwy a sicrhau eu bod yn cael profiadau bywyd cadarnhaol fel y gallant ddatblygu i fod yn oedolion emosiynol iach.<br><br>Mae'r profiadau bywyd cadarnhaol hyn hefyd yn helpu i wneud yn siŵr bod plant yn dod yn rhan o'u cymuned leol ac yn sicrhau eu bod yn gallu defnyddio gwasanaethau yn yr un modd ag unrhyw blentyn arall.<br><br>Fe enillodd y fenter Cartrefi Clyd Wobr Plant Mewn Gofal yng Ngwobrau Plant a Phobl Ifanc Nawr yn 2022 am ddarparu cartrefi diogel, gofalgar a meithringar i blant mewn gofal.<br><br>Mae'r Wobr Plant Mewn Gofal yn cydnabod cyfraniad awdurdodau lleol neu ddarparwyr gofal er mwyn gwella'r canlyniadau i blant neu bobl ifanc sydd yn derbyn gofal mewn lleoliadau preswyl, gofal maeth neu leoliadau gofal eraill. | |
| 5. Bwrw ymlaen â'r cyfleuster **Gofal Ychwanegol** yn Ne'r ynys | Mae safle ar dir sydd ym meddiant y Cyngor ger Tyddyn Mostyn, Porthaethwy wedi'i nodi fel lleoliad addas ar gyfer datblygu darpariaeth gofal ychwanegol yn Ne'r Ynys.<br><br>Bydd y Cynllun yn helpu i fynd i'r afael â'r angen am gyfleusterau gofal ychwanegol yn yr ardal trwy ddarparu tua 40 o fflatiau ynghyd â'r posibilrwydd o 15 o ystafelloedd gofal preswyl arbenigol, yn ogystal â lle ar gyfer Tîm Adnoddau Cymunedol yn cynnwys staff iechyd a gofal cymdeithasol i wasanaethu de'r ynys.<br><br>Yn ystod y flwyddyn mae'r Cyngor wedi archwilio'r safle ac mae wrthi'n paratoi'r dogfennau cynllunio ar hyn o bryd.<br><br>Bydd cais cynllunio'n cael ei gyflwyno yn 2023/24. | |

| Camau Gweithredu Allweddol | *Yr hyn a wnaethom yn 2022/23* | *CAG* |
|---|---|---|
| 6. Adolygu ac ail-gomisiynu'r **ddarpariaeth Gofal Dydd ar gyfer Oedolion gydag Anableddau Dysgu** | Mae gwaith ar y gweill i ffurfioli'r ddarpariaeth gymunedol trwy gytundebau cyson ac i gryfhau cyfleoedd cymunedol ledled yr Ynys.<br><br>Rydym wedi datblygu a gweithredu rhywfaint o gyfleoedd dydd yn fewnol yn ein cymunedau ac mae cleientiaid wedi bod yn mynychu'r cyfleoedd newydd hyn. Mae gwaith pellach ar y gweill yn 2023/24. | |
| 7. Adolygu ac ail-gomisiynu'r **ddarpariaeth Llety Cymorth ar gyfer Oedolion gydag Anableddau Dysgu** | Mae adolygiad o'r ddarpariaeth byw â chymorth ar y gweill; fodd bynnag, mae'r prosiect yn ei ddyddiau cynnar. Mae gwaith pellach ar y gweill yn . 2023/24. | |
| 8. Bwrw ymlaen â'r cyfleusterau **ysgol gynradd newydd yn Llangefni** | Agorwyd safle newydd Ysgol Corn Hir ym mis Ebrill 2023.<br><br>Mae'r prosiect gwerth £10m a gafodd ei adeiladu gan Wynne Construction yn cynnwys y cyfleusterau ac adnoddau diweddaraf mewn ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd chwarae a dysgu tu allan modern gyda chyfleusterau da.<br><br>Cynhaliwyd seremoni torri'r dywarchen ym mis Ionawr 2023 i nodi dechrau'r gwaith ar yr estyniad Carbon Sero Net yn Ysgol y Graig, Llangefni.<br><br>Bydd yr uned Cyfnod Sylfaen newydd yn costio oddeutu £10.5 miliwn.<br><br>Bydd y prosiectau hyn yn cynyddu capasiti yn ardal Llangefni i gwrdd â'r galw cynyddol am addysg gynradd yn yr ardal. Mae'r prosiectau hyn yn cael eu hariannu'n rhannol gan Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. | |

Gwyrdd = Cwblhawyd, Melyn = Yn unol â'r cynllun, Oren = Ar ei hôl hi, ond mae camau lliniaru a nodwyd yn golygu bod modd dal i fyny, Coch = Wedi methu yn erbyn yr amserlen. Angen arweiniad gan y Bwrdd Rhaglen neu'r Tîm Arweinyddiaeth ynghylch y ffordd ymlaen

## Canlyniadau Rheoli Perfformiad


Mae monitro perfformiad y DPA yn parhau i fod wedi eu halinio â thri amcan llesiant strategol y Cyngor fel y mae allbynnau'r gwaith cysylltiedig uchod:

- Amcan Llesiant 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan Llesiant 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

Mae dadansoddiad o berfformiad ar gyfer pob Amcan Llesiant i'w weld isod –

## Amcan Llesiant 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir

Mae'r dangosyddion sy'n gysylltiedig â'n hamcan llesiant, **Amcan 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, yn perfformio'n dda ac mae pob dangosydd naill ai'n wyrdd neu'n felyn yn erbyn eu targedau.



**Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:**




Roedd 100% o ddisgyblion wedi cael eu hasesu yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (dangosydd 4). Mae hyn yn galonogol ac mae'n bodloni disgwyliadau Cynllun Strategol y Cyngor ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg.



Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd


Mae 80 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd yn erbyn targed o 50 (dangosydd 11). Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi dwyn ffrwyth yn y maes hwn ac mae'n gadarnhaol bod 80 yn llai o dai gwag yn ein cymunedau






Mae 72% o gleientiaid a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen NERS wedi cwblhau'r cwrs, ac roedd 78% yn credu fod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd

Cafwyd 514k ymweliad â Chanolfannau Hamdden yn ystod y flwyddyn, sy'n gynnydd o 151k yn 2021/22, a dyma'r swm uchaf ers 2018/19. Mae hyn yn dangos fod darparu cyfleusterau a gweithgareddau gwell i drigolion yn ffafriol mewn diwydiant sy'n dod yn fwyfwy cystadleuol.



## Amcan Llesiant 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i’w cadw’n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

Mae’r perfformiad yn erbyn y dangosyddion Amcan Llesiant 2 yn perfformio’n dda unwaith eto. Mae 11 dangosydd yn Wyrdd (73%) ac mae 2 dangosydd (13%) yn Felyn yn erbyn targedau ar gyfer y flwyddyn







**Enghreifftiau o rai o’r perfformiadau da a welwyd yn ystod y flwyddyn:**


Mae dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau.

| 16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | 17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | 18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae’r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o’r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | 19) Canran y rhai sy’n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn |
|---|---|---|---|
| 91.69% | 64.71% | 16.74 | 98.1% |

Mae pob dangosydd o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (dangosyddion 20 – 25), ac eithrio un, yn uwch, neu o fewn 5% o'r targedau ar gyfer y flwyddyn. Roedd nifer yr ymweliadau statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn berfformiad da o 93.83% o gymharu â blynyddoedd blaenorol





| DPA | Perfformiad | CMG |
|---|---|---|
| 20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | 86.75% | Melyn |
| 21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | 6.15% | Gwyrdd |
| 22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | 14.35% | Gwyrdd |
| 24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | 98.31% | Gwyrdd |
| 25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 93.83% | Gwyrdd |




Mae'r dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 a 27) ar gyfer y Gwasanaethau Tai wedi perfformio'n dda hefyd gyda'r ddau yn Wyrdd yn erbyn eu targedau. Mae'r cyllid a dargedwyd ar gyfer digartrefedd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol, gyda 98.45% o gartrefi gyda phlant yn cael eu harbed eleni, o gymharu â'r perfformiad blaenorol

Fodd bynnag, rydym yn nodi bod dau o'r dangosyddion wedi tanberfformio yn ystod y flwyddyn yn erbyn amcan llesiant 2, gyda'r ddau yn Goch yn erbyn eu targedau.




Mae’r amser cyfartalog a dreuliodd pob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, ac a gafodd eu dadgofrestru yn ystod y flwyddyn – yn Goch, gyda pherfformiad o 303 diwrnod yn erbyn targed o 270 diwrnod.

Mae’r perfformiad yn ddirywiad o’r 287 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Ch3, er ei fod yn well na’r 318 diwrnod a adroddwyd ar ddiwedd 2021/22.


Mae’r dangosydd hwn yn cyfrifo’r plant hynny sydd wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr diogelu plant o fewn y deuddeg mis diwethaf ar sail treigl. Mae dangosydd amgen i fesur yr amser cyfartalog mae’r holl blant yn treulio ar y gofrestr diogelu plant (CPR) yn dangos perfformiad iach o 166 diwrnod. Bydd y gwaith o fonitro’r dangosydd hwn yn gwella perfformiad yn erbyn dangosydd 23 yn y dyfodol, ac yn sicrhau bod y plant ar y CPR ar y gofrestr tra bo penderfyniad yn cael ei wneud yn unig.







Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl – sydd yn Goch gyda pherfformiad o 193 diwrnod yn erbyn targed o 170 diwrnod. Mae'r perfformiad hwn yn ostyngiad o'i gymharu â'r 182 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Ch3, ac yn ostyngiad ar berfformiad blynyddoedd blaenorol.





Mae’r rhesymau dros y dirywiad mewn perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn yn cynnwys:

- Anawsterau cael mynediad i rai eiddo oherwydd pryderon cleientiaid yn dilyn y pandemig coronafeirws.
- Anawsterau dod o hyd i gontractwyr i wneud y gwaith. Ar hyn o bryd dim ond 6 chontractwr o’r Ynys sy’n gosod yr addasiadau.


Mae’n debygol y bydd angen cynyddu’r diwrnodau targed yn 2023/24 o ganlyniad i’r anawsterau hyn. Bydd y Polisi GCA yn cael ei adolygu yn ystod Ch1 2023/24, fydd yn cynnwys llunio cytundeb lefel gwasanaeth a chytuno ar ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer darparu addasiadau i’r GCA.

## Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol


Mae perfformiad dangosyddion i fonitro ein llesiant Amcan 3 wedi bod yn dda hefyd, gyda 90% o'r dangosyddion yn uwch na'r targed, neu o fewn 5% iddynt ar gyfer y flwyddyn.




**Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:**



Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd o fewn amser yn Wyrdd yn erbyn targed o 91%. Dyma'r perfformiad gorau yn ystod y bedair mlynedd ddiwethaf (79% yn 2021/22, 79% yn 2020/21 a 90% yn 2019/20).






canran yr achosion gorfodaeth cynllunio a archwiliwyd o fewn 84 diwrnod

Mae canran yr achosion gorfodaeth cynllunio a archwiliwyd o fewn 84 diwrnod hefyd wedi gwella (85%) o ran perfformiad, o gymharu â blynyddoedd blaenorol (84% yn 2021/22, 74% yn 2020/21 a 74% yn 2019/20). Mae hyn yn galonogol ac yn dangos fod y gwelliannau a weithredwyd gan staff y gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn gwneud gwahaniaeth i berfformiad.

| DPA | Perfformiad | CMG |
|---|---|---|
| 31) Canran y strydoedd sy'n lân | 96% | Gwyrdd |
| 32) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | 63.47% | Melyn |
| 33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | 1 | Gwyrdd |
| 34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | 207kg | Gwyrdd |


Mae nifer o ddangosyddion rheoli gwastraff (Dangosydd 31, 33 a 34) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau yn ystod y flwyddyn. Roedd 96% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn yn lân rhag unrhyw wastraff, a dyma'r perfformiad gorau yn ystod y bedair mlynedd ddiwethaf (95.5% yn 2021/22, 92% yn 2020/21 a 93.79% yn 2019/20).





Mae'r tri dangosydd priffyrdd, sy'n gysylltiedig ag arolygon cyflwr ffyrdd A, B a C yr Ynys (dangosyddion 38 – 40), yn Wyrdd yn erbyn targedau ac wedi gwella o gymharu â 2021/22. Gellir gweld y gwelliant mwyaf yng nghyflwr ffyrdd A lle mai dim ond 2.6% oedd mewn cyflwr gwael yn 2022/23 o gymharu â 3% yn 2020/21 a 4.6% yn 2019/20. Roedd y cyllid ychwanegol a dderbyniwyd, a oedd yn gyfuniad o gyllid cyfalaf a grantiau Llywodraeth Cymru, yn fanteisiol iawn i'r gwelliannau hyn.

| DPA | Perfformiad | CMG |
|---|---|---|
| 38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | 2.6% | Gwyrdd |
| 39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | 2.6% | Gwyrdd |
| 40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | 7.6% | Gwyrdd |




Yr unig ddangosydd sy'n tanberfformio yn ystod y flwyddyn yw y canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – gyda pherfformiad o 47% yn erbyn targed o 65%. Mae hyn yn ddirywiad ar y perfformiad a welwyd yn 2021/22 (50%).


Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â nifer fechan o apeliadau cynllunio, a gall y nifer amrywio'n fawr o un chwarter i'r llall. Gwrthodwyd tri o'r pump apêl yn ystod y Ch4 gan olygu fod naw allan o'r deunaw o apeliadau wedi'u gwrthod yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau fod penderfyniadau cynllunio yn 'gadarn' ac yn ddilys, fodd bynnag nid oes gan y Cyngor unrhyw ddylanwad ar benderfyniad apêl. Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apêl ar geisiadau tebyg i nodi a oes patrwm yn datblygu a fyddai'n golygu bod angen dehongli ein polisïau'n wahanol.

## Dangosyddion Iechyd Corfforaethol

Wrth ddadansoddi'r dangosyddion iechyd corfforaethol (Pobl / Ariannol / Gofal Cwsmer) am y flwyddyn, braf yw cael nodi bod y rhan fwyaf o'r dangosyddion (80%), y mae eu targedau wedi'u monitro, yn yr adran hon wedi perfformio'n dda yn erbyn targedau (Gwyrdd neu Felyn CAG). Mae rhai o'r uchafbwyntiau wedi'u nodi isod.


- Mae'r Cyngor wedi cyrraedd melyn yn erbyn ei ddangosydd perfformiad allweddol presenoldeb staff, gyda 9.15 diwrnod wedi'u colli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALl), yn erbyn targed o 8.75 diwrnod wedi'u colli am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (CALl). Mae hyn yn galonogol ac yn dangos ymrwymiad staff.




- Nid oedd y dangosyddion a gafodd eu monitro ar gyfer yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn tynnu sylw at unrhyw bryder sylweddol, gyda'r dangosydd yn perfformio'n dda yn erbyn targedau ar y cyfan.

- Roedd **cyfanswm % yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol)** yn Goch, gyda pherfformiad o 70% yn erbyn targed o 80%. Trafodwyd 19 o'r 27 o gwynion a dderbyniwyd gyda'r achwynydd o fewn 5 diwrnod gwaith, ac roedd 6 o'r 8 ymateb ysgrifenedig hwyr wedi'u cytuno gyda'r achwynydd cyn iddynt gael eu nodi fel ymatebion hwyr, fel y nodir yn y protocol cwynion. Fodd bynnag, mae perfformiad o 70% yn gynnydd bychan ar y 66%, fel y gwelwyd ar ddiwedd 2021/22.

- Mae'r **% yr ymatebion Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen** yn dangos fod 72% o'r ymatebion o fewn yr amserlen, yn erbyn targed o 80%. Yr her o 2023/24 ymlaen yw bod y targed yn codi i o leiaf 90%, ac argymhellir fod angen gwneud gwaith pellach i adnabod y mathau o geisiadau sy'n hwyr, pam bod cynnydd yn y ceisiadau, yn enwedig yn ystod Ch4, a lle ellir gwella ymatebion fel bo'r Cyngor mewn sefyllfa well i gyrraedd y targed.




- Mae'r **adran rheolaeth ariannol** yn rhagweld tanwariant o £1.212m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023. Croesewir y canlyniad hwn, ac mae'n gwella sefyllfa ariannol y Cyngor. 3.6 Mae tanwariant net wedi cyfrannu at gynnydd ym Malansau Cyffredinol y Cyngor, ac mae swm sylfaenol gwerth £10.2m ar gael, sydd £1.4m yn uwch na'r lleiafswm gwerth a argymhellwyd wrth symud ymlaen (5% o gyllideb refeniw net 2023/24).Mae'r sefyllfa ariannol alldro yn dangos galw parhaus am wasanaethau yn enwedig ym meysydd Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd. O ystyried yr argyfwng costau byw presennol, rhagwelir y bydd y pwysau hyn yn parhau yn 2023/24.

- Rhagwelir tanwariant o £13.477m ar y **Rhaglen Gyfalaf** yn 2022/23 a gallai'r swm lithro i Raglen Gyfalaf 2023/24. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2023/24.

- Mae'r cyfrifon refeniw a chyfalaf yn cael eu hystyried gan y Panel Sgriwtini Cyllid, a bydd unrhyw danwariant yn destun craffu trylwyr cyn cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar sail chwarterol.

**Mae'r perfformiad cyffredinol o fewn yr adran hon yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol fod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor, o ran rheoli pobl, cyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid yn cyflawni yn unol â'r disgwyliadau ac i safon briodol. Mae hefyd yn darparu sail a thystiolaeth o ethos rheoli perfformiad da sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith fod y dangosyddion o'r safbwynt hwnnw, yn portreadu perfformiad boddhaol hefyd.**

## Ymateb i'r Argyfwng Costau Byw

Pan gytunodd y Cyngor ar ei Gynllun Trosiannol yn ôl ym mis Rhagfyr 2021, roeddem ynghanol pandemig byd-eang. Roedd y Cynllun Trosiannol yn pennu'r paramedrau gweithredu ar gyfer swyddogion er mwyn iddynt allu cyflawni nifer o amcanion strategol allweddol wrth i'r ynys gael ei gwynt ati yn syth wedi'r pandemig.

Prin y gwyddem y byddai costau byw yn cynyddu'n sylweddol i bawb ac y byddai chwyddiant yn cynyddu i 11% ym mis Hydref 2022. Mae nifer o resymau am y cynnydd, fodd bynnag mae hanfodion pob dydd fel biliau bwyd a thanwydd aelwydydd wedi cynyddu'n gyflymach na'u hincwm cyfartalog. Mae hyn, yn ei dro, yn golygu bod nifer o deuluoedd ac unigolion yn cael trafferth ymdopi â'r pwysau ariannol ychwanegol ac wedi arwain at gynnydd yn y galw ar wasanaethau'r Cyngor.

Darparodd Llywodraeth Cymru arian grant i ganiatáu'r Cyngor ddarparu cymorth i breswylwyr lleol a oedd yn wynebu anawsterau oherwydd yr argyfwng costau byw. Roedd modd defnyddio'r gronfa i ddarparu cymorth grant uniongyrchol i breswylwyr lleol, i ariannu'r gost o brynu offer a fyddai'n gostwng y costau yr oedd preswylwyr yn eu hwynebu yn ystod cyfnod y gaeaf, neu i ddarparu cyllid i sefydliadau lleol a oedd hefyd yn darparu cefnogaeth i breswylwyr lleol. Darparodd Llywodraeth Cymru swm o £585,163 ac roedd modd ychwanegu unrhyw danwariant o'r cynllun Costau Byw cenedlaethol at yr arian grant a dderbyniwyd hefyd. Roedd hyn yn golygu fod cyfanswm o £735,000 o gyllid ar gael.

Dyma rywfaint o'r cymorth a ddarparwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn:

- Derbyniodd **22,500** o breswylwyr daliad o £150
- Derbyniodd Gyn Aelodau o'r Lluoedd Arfog gyllid ychwanegol drwy'r SAAFA
- Cefnogwyd **290 o Aelwydydd** a oedd yn symud o lety dros dro
- Darparwyd cyllid ychwanegol i **327 o drigolion ac aelwydydd** a oedd, ar sail asesiad gan CAB Ynys Môn a Chanolfan J.E.O'Toole, yn wynebu caledi ariannol
- Cafodd **369 o becynnau effeithlonrwydd ynni** eu dosbarthu drwy'r rhaglen Croeso Cynnes i ostwng defnydd ynni
- Daeth **3,500 o bobl** i'r 420 o Sesiynau Croeso Cynnes a gynhaliwyd ledled ein cymunedau
- Derbyniodd Banc Fwyd Ynys Môn gyllid ychwanegol i ymorol am gostau staffio yn sgil yn y cynnydd yn y galw
- Derbyniodd y Samariaid gyllid ychwanegol i helpu pobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl
- Derbyniodd **400 o aelwydydd** dalebau bwyd Nadolig i'w gwario mewn siopau lleol
- Darparwyd cymorth ariannol i Kidney Care Wales a'r Gymdeithas MS Society ar gyfer trigolion â chyflyrau meddygol difrifol a oedd yn wynebu cynnydd mewn costau gwresogi / trydan
- Darparwyd cyllid i Ddigartrefedd Ynys Môn, Cynefin, Wallich Clifford a Medrwn Môn sy'n darparu gwasanaeth hanfodol i drigolion fel rhan o'r grant Cymorth Tai
- Derbyniodd 2 gwmni olew lleol gyllid i gynorthwyo trigolion a oedd methu fforddio olew i wresogi eu cartref
- Darparwyd cyllid i Fenter Môn fel bod bwyd maethlon wedi'i wneud yn lleol ar gael mewn rhewgelloedd cymunedol lleol - cafodd oddeutu 4150 o brydau bwyd eu dosbarthu i 10 rhewgell gymunedol leol yn ystod 2022/23
- Darparwyd cymorth i rieni maeth i helpu gyda chostau tanwydd neu fwyd
- Derbyniodd y prosiect Bwyd Da Môn gyllid i ddarparu cymhorthdal i oddeutu **110 o drigolion**

## Perfformiad Cyffredinol

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da ac wedi dangos ymrwymiad mewn sawl maes yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r llwyddiannau nodedig yn cynnwys:

- adeiladu unedau busnes ym Mharc Bryn Cefni a'u rhoi ar osod;
- ymdrechion i gryfhau rôl Caergybi a'r Porthladd fel 'Porth' rhyngwladol;
- sicrhau cyllid ar gyfer trawsnewid canol tref Caergybi drwy'r Gronfa Ffyniant Bro;
- canolfan ymwelwyr modern ym Mharc Gwledig y Morglawdd;
- mentrau plannu coed yng Ngwarchodfa Natur Nant y Pandy er mwyn helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a meithrin ymdeimlad o stiwardiaeth amgylcheddol ymysg yr ifanc;
- gwella llwybrau cerdded a seiclo drwy'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol;
- y gwaith ar y cyd rhwng y Rhaglen Llunio Lleoedd a Medrwn Môn i arddangos sut y gall cymunedau greu ardaloedd annibynnol a gwydn;
- gwobr i'r fenter Cartrefi Clyd yng Ngwobrau Plant a Phobl Ifanc Nawr 2022;
- symud tua 130 o bobl o lety argyfwng a dros dro i gartrefi preifat neu gymdeithasol yn ystod y flwyddyn;
- adeiladu 38 o gartrefi effeithlon o ran ynni newydd gyda sgôr perfformiad A;
- agor safle newydd Ysgol Corn Hir a datblygu estyniad carbon sero net yn Ysgol y Graig.



Mae canlyniadau'r cerdyn sgorio hefyd yn dangos perfformiad da gyda 71% o'r dangosyddion yn wyrdd yn erbyn eu targed a 20% o fewn 5% i'w targed ar gyfer y flwyddyn. Er gwaetha'r perfformiad iach hwn rydym hefyd yn cydnabod bod angen gwaith pellach, yn enwedig mewn perthynas â'r dangosyddion sydd yn Ambr neu Goch ar gyfer y flwyddyn yn ogystal â'r dangosyddion sy'n dangos gostyngiad mewn perfformiad o un flwyddyn i'r llall (47%). Gwneir pob ymdrech yn ystod y flwyddyn sydd i ddod i wella'r dangosyddion sy'n tanberfformio yn ogystal â gwella a chynnal ein perfformiad da. Byddwn yn parhau i fonitro'r ymdrechion hyn pob chwarter drwy'r Adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei oruchwylion gan y Tîm Arweinyddiaeth a'i graffu gan y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol drwy gydol y flwyddyn.

Wrth edrych at y dyfodol, bydd Cynllun newydd y Cyngor ar gyfer 2023-2028 yn ceisio adeiladu ar y gwaith da a gwblhawyd o ran gweithredu Cynllun blaenorol y Cyngor a'r Cynllun Trawsnewid. Datblygwyd y Cynllun gan ddefnyddio barn pobl leol, partneriaid, blaenoriaethau gwleidyddol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'r gwaith wedi nodi'r chwe blaenoriaeth strategol allweddol a ganlyn y bydd y Cyngor yn ceisio'u datblygu dros y 5 mlynedd nesaf -

**Yr Iaith Gymraeg**
Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith

**Gofal Cymdeithasol a Llesiant**
Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir

**Addysg**
Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol

**Tai**
Sicrhau fod gan bawb yr haw li alw rhywle'n gartref

**Economi**
Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys

**Newid Hinsawdd**
Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030

Mae'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn manylu ar y gwaith fydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2023/24 i gyflawni'r dyheadau uchelgeisiol a nodir yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028. Caiff hyn ei wneud a'i wireddu trwy gydweithio a chydnabyddir y bydd gweithgareddau o ddydd i ddydd y Cyngor yn cael eu cyflawni hefyd.

Bydd holl staff rheng flaen a staff cefnogi'r cygor yn rhan annatod o'r gwaith o wireddu'r ddogfen hon yn llwyddiannus a byddem yn defnyddio gwerthoedd y cyngor i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, y cynlluniau strategol a'r gwasanaethau.

**Parch / Respect**
Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf in gwahaniaethau

**Gonestrwydd / Honesty**
Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

**Cydweithio / Collaborate**
Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn

**Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys / Champion the Council and the Island**
Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Ynys.

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Cyngor Sir |
| Dyddiad: | 26 Hydref 2023 |
| Pwnc / Testun: | Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Carwyn Jones |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>GethinMorgan@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**1.1** O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad sy'n nodi'r ffyrdd y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

**1.2** Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu nod Cyngor Sir Ynys Môn o annog pobl i gymryd rhan ym musnes a phroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor ac i adeiladu ar y llwyddiant y mae'r Cyngor wedi'i gael wrth ymgysylltu â thrigolion fel sy'n cael ei gydnabod gan Archwilio Cymru yn eu hadolygiad o lywodraethiant wrth benderfynu ar newidiadau lle maent yn nodi – "Mae gan y Cyngor weithdrefnau eglur sy'n annog rhanddeiliaid i fod yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau ac mae wrthi'n atgyfnerthu ei drefniadau ymgysylltu"

**1.3** Yn y strategaeth hon, rydym wedi ceisio egluro sut y bydd ein hamcanion o ran cyfranogiad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl Ynys Môn.

**1.4** Mae'r strategaeth hon yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd a bydd yn adeiladu ar ein llwyddiannau hyd yma gan wreiddio disgwyliad y ddeddf uchod ynghyd a disgwyliad deddf llesiant a chenedlaethau'r dyfodol ymhellach. Disgwylir y bydd y strategaeth yn newid dros amser wrth i arferion da barhau i gael eu datblygu ac wrth i ddatblygiadau technolegol pellach gael eu gwneud.

**1.5** Mae'r adroddiad yn disgrifio'r ymarfer ymgynghori gynhaliwyd gyda swyddogion y Cyngor oedd yn mynd o 31 Gorffennaf hyd at 27 Awst sef cyfnod o 4 wythnos.

**1.6** Ei nod oedd cael barn rhanddeiliaid ar y Strategaeth Cyfranogi Cyhoeddus er mwyn i'r adborth gyfrannu at y Strategaeth.

**1.7** Gweler y casgliadau o'r ymgynghori:

- Cafwyd 84 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar lein ac roedd 28 ohonynt yn gyflawn.
- Roedd 65% o'r ymatebwyr wedi ymateb trwy gyfrwng y Saesneg, tra ymatebodd 35% drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Canlyniadau'r arolwg oedd fel a ganlyn –

- Roedd 96.4% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r ffyrdd o gyfranogi oedd yn cael ei cydnabod yn y strategaeth.
- Roedd 92.9% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r ffyrdd gwahanol y gall unigolion gymryd rhan..
- Roedd 92.9% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r bwriad o fod yn rhoi adborth i'r rhai hynny sydd yn cymryd rhan mewn unrhyw waith cyfranogi.
- Roedd canran uchel iawn o'r ymatebwyr yn cytuno gyda cynnwys y Strategaeth sy'n dangos cefnogaeth i'r Strategaeth a'r bwriad i'w adolygu yn rheolaidd.

**1.8** Argymhellir felly bod y Cyngor yn:

**1.8.1** Mabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, a'i bod yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd a bydd yn parhau i adeiladu ar ein llwyddiannau hyd yma.

**1.8.2** Awdurdodi'r Pennaeth Proffesiwn AD a Thrawsnewid mewn ymgynghoriad efo'r Deilydd Portffolio - Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer i baratoi'r ddogfen derfynol yn unol â'r ffurf gorfforaethol cyn llwytho'r ddogfen ar wefan y Cyngor.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mi fydd y Strategaeth Gyfranogi Cyhoeddus yn ran o Gyfansoddiad y Cyngor a felly mater i'r Cyngor llawn fydd cymeradwyo'r Strategaeth. Aeth y Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd ddrafft gerbron y Pwyllgor Gwaith am farn cyn mynd gerbron y Cyngor llawn ar Hydref 26, 2023.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn amlinellu'r ymateb i broses ymgynghori'r Cyngor sy'n dangos barn rhanddeiliaid ar y Strategaeth ddrafft. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Mae'r Strategaeth ddrafft yn cynnwys nifer o ffyrdd mae trigolion Môn ym cyfranogi ym mhenderfyniadau'r Cyngor ar hyn o bryd. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r | Do. Mae'r Cyngor wedi cydweithio â sefydliadau allanol fel noder yn y Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd. Noder rhai ohonynt |

| | | |
|---|---|---|
| | penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | isod: Medrwn Môn, Fforwm Tenantiaid, Fforwm Pobl Hŷn, Fforwm Defnyddwyr Hamdden, Cynghorau Ysgol, radio lleol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Mae'r cyfranogiad mae dinasyddion Môn eisoes yn ei gael ym mhenderfyniadau'r Cyngor wedi ei nodi yn y Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn annog trigolion Môn o bob cefndir i gyfranogi ym mhenderfyniadau'r Cyngor. Felly, ni fydd yn cael unrhyw effaith ddrwg ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Byddai rhoi'r Strategaeth ar waith yn arwain at gynnwys fwy o bobl Ynys Môn ym mhenderfyniadau'r Cyngor gan gynnwys y rhai sydd ddim yn gallu fforddio bod ar y we a'r manteision sy'n deillio o hynny. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae'r Strategaeth Gyfranogi Cyhoeddus yn annog trigolion Môn, beth bynnag eu cefndir ieithyddol, i gyfranogi ym mhenderfyniadau'r Cyngor. Felly, ni fydd yn cael effaith drwg ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae eu sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Mae ei sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae ei sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Mae ei sylwadau wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | Ddim yn berthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Ddim yn berthnasol |
| 7 | Caffael | Ddim yn berthnasol |
| 8 | Sgriwtini | I'w derbyn gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar ôl ei gyfarfod ar Hydref 17, 2023 |
| 9 | Aelodau Lleol | Ddim yn berthnasol |

| F - Atodiadau: |
|---|
| A. Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
| --- |
| Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

# STRATEGAETH CYFRANOGIAD Y CYHOEDD 2023 – 2028

Fersiwn 0.8

DRAFT

**Rhagair**



Yn sgil fy ailethol fel Arweinydd y Cyngor, rwy'n falch o gyflwyno strategaeth cyfranogiad y cyhoedd Cyngor Môn. Mae'r strategaeth yn amlinellu ein dulliau amrywiol o gynnwys y cyhoedd ac yn canolbwyntio ar sut mae ein cymunedau'n cymryd rhan yn y prosesau gwneud penderfyniadau i weithio ochr yn ochr â ni wrth lunio ein cymunedau.

Fel Cyngor, rydym yma i wasanaethu ein trigolion a'n rhanddeiliaid. Rydym yn gwybod bod polisïau a newidiadau yn cael effaith ar fywydau ein trigolion, a bywydau eu ffrindiau a'u teulu. Rydym yn eich annog a byddwn yn eich cefnogi i gymryd rhan a dweud eich dweud oherwydd bod pawb yn haeddu'r cyfle i gyfrannu a chael eu grymuso i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.

**Cynghorydd Llinos Medi**

**Arweinydd - Cyngor Sir Ynys Môn**

DRAFT

**Cyflwyniad**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i weithio gyda'i drigolion, cymunedau, sefydliadau, undebau llafur a rhanddeiliaid i annog pobl i gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Leol.

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad sy'n nodi'r ffyrdd y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu nod Cyngor Sir Ynys Môn o annog pobl i gymryd rhan ym musnes a phroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor ac i adeiladu ar y llwyddiant y mae'r Cyngor wedi'i gael wrth gysylltu â thrigolion. Yn y strategaeth hon, rydym wedi ceisio egluro sut y bydd ein hamcanion o ran cyfranogiad yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl Ynys Môn. Mae'r strategaeth hon yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd (ôl pob etholiad cyffredin) a bydd yn adeiladu ar ein llwyddiannau hyd yma.

Disgwylir y bydd y strategaeth yn newid dros amser wrth i arferion da barhau i gael eu datblygu ac wrth i ddatblygiadau technolegol pellach gael eu gwneud.

Cafodd Cynllun y Cyngor 2023-2028 ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn ym Mawrth 2023 ac mae'r Strategaeth hon yn adlewyrchu'r Gwerthoedd sydd yn y Cynllun. Mae Strategaeth Cyfranogi y Cyhoedd yn amlinellu'r ffyrdd niferus mae'r Cyngor yn ymwneud â rhanddeiliaid ac yn **cydweithio** â nhw gan eu trin nhw gyda **pharch** a bod yn **onest** gyda nhw. Bydd hyn yn helpu i **hyrwyddo'r Cyngor a'r ynys**.

## 1. Cyfranogi

### 1.1 Beth yw cyfranogiad y cyhoedd a pham ei fod yn bwysig?

Mae cyfranogiad y cyhoedd yn disgrifio cyfathrebu neu ymwneud â'n cymunedau a'n rhanddeiliaid mewn prosesau datrys problemau neu wneud penderfyniadau.

Mae Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, a baratowyd yn 2011 o dan arweiniad Panel Ymgynghorol Cyfranogiad Cymru ac a adolygwyd ac a ailgyhoeddwyd yn 2022, yn defnyddio'r diffiniadau canlynol:

**Ymgysylltu**

Proses weithredol a chyfranogol lle gall pobl lunio a dylanwadu ar bolisi a gwasanaethau sy'n cynnwys ystod eang o wahanol ddulliau a thechnegau (gan gynnwys ymgynghori, cyfranogi, a chyd-gynhyrchu ac ymwneud).

Enghraifft o hyn yw'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â chymunedau drwy ein hagenda Cynllunio Lle. Mewn partneriaeth â Medrwn Môn, mae'r Cyngor yn parhau i hybu'r gwaith o greu cynghreiriau dan arweiniad y gymuned. Mae'r cynghreiriau hyn yn dwyn ynghyd grwpiau cymunedol, unigolion, gwirfoddolwyr, cynghorau tref a chymuned, busnesau lleol ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn cydweithio i wneud yr ardaloedd y maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddynt yn fwy annibynnol a gwydn.

**Ymgynghori**

Proses ffurfiol lle mae llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau yn gofyn am farn grwpiau ac unigolion â diddordeb ar bolisïau, penderfyniadau neu ymyriadau penodol.

Enghraifft o hyn yw'r ymgynghoriad ar Foderneiddio Cymunedau Dysgu a Strategaeth Datblygu Cymru. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda disgyblion ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig y Sir i gael barn y disgyblion. Bydd eu sylwadau'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad ar y Strategaeth. Gallai hyn yn ei dro effeithio ar y penderfyniadau a wneir ynghylch materion Dysgu yn y dyfodol.

DRAFT

**Cyfranogiad**

Pobl sy'n ymwneud â llunwyr polisi a chynllunwyr gwasanaethau yn gynnar yn y broses o gynllunio ac adolygu polisi a gwasanaethau, i lunio a dylanwadu ar y canlyniadau a'r penderfyniadau. Er enghraifft, cynhaliwyd arolwg rhwng 29 Gorffennaf a 26 Awst 2022 ynghylch gwneud gwelliannau i wasanaeth Tanysgrifio Gwastraff Gwyrdd 2023/24 drwy ofyn cwestiynau am brofiad cwsmeriaid wrth danysgrifio. Cafodd yr arolwg **3,246** o ymatebion

**Cyd-gynhyrchu**

Pan fydd pobl sy'n darparu gwasanaethau, a phobl sy'n defnyddio a derbyn gwasanaethau'n rhannu pŵer a chyfrifoldeb, a gweithio gyda'i gilydd er budd y ddwy ochr mewn perthynas gyfartal, dwy ffordd ac ystyriol. Mae'n galluogi pobl i gael gafael ar gymorth perthnasol ac ystyrlon pan fydd ei angen arnynt. Mae'n golygu bod gwasanaethau'n effeithiol ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol ym mywydau pobl, ac mae pobl, gwasanaethau a chymunedau'n dod yn hwyluswyr newid mwy effeithiol.

**Ymwneud**

Mae'n ofynnol i sefydliadau weithredu'n agored er mwyn cael eu dylanwadu gan ddinasyddion a rhanddeiliaid, gan symud i ddiwylliant o 'weithio gyda' yn hytrach na 'gwneud'. Yn wahanol i ymgynghori, mae'r broses o ymwneud yn gweithio gyda phobl yn ystod camau cynharach, megis helpu i nodi materion ac atebion posibl, a chael eu cefnogi i barhau i gymryd rhan drwy gydol prosesau dylunio, gweithredu a gwerthuso.

Gall y rhain fod yn faterion sydd o ddiddordeb neu sy'n effeithio ar ein cymunedau neu eu ffrindiau a'u teulu ac yn ei dro, mae'r ymwneud hwn yn ein helpu i wneud penderfyniadau ar sail eu meddyliau a'u teimladau.

Er mwyn i'r Cyngor wneud y penderfyniadau gorau posibl ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, ac er mwyn i'n polisïau a'n penderfyniadau ddylanwadu'n gadarnhaol ar fywydau ein cymunedau a'n rhanddeiliaid neu fywydau eu ffrindiau a'u teulu, mae angen i ni:

- Ddarparu wybodaeth a chynnwys pobl drwy weithgareddau ymgysylltu
- Gwrando ar bobl ac ymgynghori â nhw drwy ofyn y cwestiynau perthnasol ar yr amser mwyaf cyfleus
- Grymuso a dirprwyo drwy gefnogi rhanddeiliaid i gymryd cyfrifoldeb
- Cyd-gynhyrchu a darparu gwasanaethau drwy rannu'r broses o wneud penderfyniadau a chynnal cysylltiadau

Er mwyn defnyddio dull pragmatig, rydym yn bwriadu cynnwys ac ymgysylltu â phawb i'r pwynt lle gallan nhw gymryd rhan i ddangos ein bod yn gwrando ar adborth. Efallai na fydd y Cyngor bob amser yn bwrw ymlaen â'r opsiwn a ddewisir gan y cyhoedd ond pan nad ydym yn gwneud hynny, mae angen i ni fod yn glir ac yn dryloyw, ac egluro'r rheswm am hynny. Nid yw ymgysylltu a / neu ymgynghori yn golygu ein bod yn cytuno â phob sylw a fynegir. Mae'n rhaid i'r Cyngor bob amser weithredu o fewn cyfyngiadau megis y gyfraith a chyfyngiadau ariannol.

Bydd hyn yn darparu'r fethodoleg fel y gall trigolion ddweud wrthym beth maen nhw'n ei feddwl a chael cyfle i ddylanwadu ar sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn cael ei dadansoddi a'i dwyn i sylw ein pwyllgorau gwneud penderfyniadau lle bo hynny'n berthnasol.

Fodd bynnag, nid ydym am stopio yma, rydym am ymgysylltu'n rheolaidd â phobl ar faterion yr ydym ni a chi yn teimlo sy'n bwysig, bydd hyn yn ein helpu i gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl i lunio ein syniadau a'n cynlluniau fel bod ein dinasyddion a'n rhanddeiliaid yn chwarae rhan flaenllaw mewn unrhyw benderfyniad a wnawn, i'n grymuso ni i wneud penderfyniadau ar y cyd.

### 1.2 Y gwahaniaethu rhwng statudol ac anstatudol

Y gwahaniaeth rhwng ymgynghoriad statudol ac anstatudol yw bod statudol yn golygu bod yn rhaid iddo gael ei wneud drwy statud neu yn ôl y gyfraith. Nid oes rhaid cynnal ymgynghoriad anstatudol yn ôl y gyfraith ac felly mae'n wirfoddol. Gall y Cyngor hefyd ddewis cynnal ymgynghoriadau gwirfoddol.

Fel Cyngor, ac fel y nodwyd uchod, rydym yn dilyn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Cyhoeddus[1] sy'n rhoi arweiniad i annog gweithgarwch ymgysylltu cyson o ansawdd da gyda defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

Mae’r manteision o gynnwys ein cymunedau’n glir a **credwn fod penderfyniadau a wneir trwy gynnwys y gymuned yn fwy cadarn ac yn para'n hirach os yw dinasyddion yn gefnogol iddynt.**

## 2. Penderfyniadau

### 2.1 Dull gweithio presennol

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnal Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y cyd gyda chynrychiolwyr y trydydd sector. Nod y Bwrdd yw sefydlu dull cyson, addas i'r diben ac effeithiol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori’n gyhoeddus ar draws gwasanaethau'r Cyngor fel bod anghenion y cyhoedd yn cael eu diwallu mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Mae'r Bwrdd yn nodi'r prosesau y mae’r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i sicrhau ein bod yn bodloni'r gofynion i 'wreiddio a chyflwyno diwylliant o bartneriaeth gyda sefydliadau’r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. I adeiladu'r diwylliant hwn o bartneriaeth ac i'r cyhoedd fod yn hyderus yn ymrwymiad y Cyngor i annog a gweithredu ar sail eu sylwadau'.

Nod y Bwrdd yw cefnogi staff ac uwch swyddogion i wneud yn siŵr ein bod yn sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl ar draws yr holl weithgareddau, sy'n ein helpu i wneud penderfyniadau gwell sy’n seiliedig ar wybodaeth. Mae aelodau'r Bwrdd yn gweithio i wireddu'r uchod drwy ymrwymiad ar y cyd i:

- wella ansawdd gwasanaethau,
- gwneud defnydd gwell o adnoddau a
- diwallu anghenion cymunedau’n fwy effeithiol.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn rhoi cyfle i’r cyhoedd gyfranogi mewn sawl ffordd – mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn Nhabl 1.

### 2.2 Sut mae’r Cyngor yn gweithio

Amlinellir gwahanol bwyllgorau'r Cyngor yn Niagram 1

Mae'r Cyngor yn cynnwys 35 o Gynghorwyr etholedig sy'n cynrychioli 14 rhanbarth etholiadol. Mae cynghorwyr yn atebol yn ddemocrataidd i drigolion eu hetholaeth. Mae dyletswydd bennaf y Cynghorwyr i'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai na phleidleisiodd drostynt. Mae'r holl gynghorwyr yn cyfarfod fel y Cyngor. Mae cyfarfodydd y Cyngor fel arfer ar agor i'r cyhoedd. Yma mae cynghorwyr yn penderfynu ar bolisïau cyffredinol y Cyngor ac yn gosod y gyllideb bob blwyddyn.

Y Pwyllgor Gwaith yw'r rhan o'r Cyngor sy'n gyfrifol am wneud y rhan fwyaf o'r prif benderfyniadau. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cynnwys Arweinydd, a benodir gan y Cyngor, a hyd at 8 Cynghorydd arall a benodir gan yr Arweinydd. Cyhoeddir y busnes sydd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgorau Sgriwtini a'r Cyngor yn y blaenraglen waith. Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgorau Sgriwtini, y Cyngor a Phwyllgorau eraill ar agor i'r cyhoedd fod yn bresennol ynddynt ac eithrio pan fo materion personol neu gyfrinachol yn cael eu trafod, fel y'u diffinnir gan y gyfraith. Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniadau sy'n unol â pholisïau a chyllideb gyffredinol y Cyngor. Os yw'n dymuno penderfynu ar fater sydd y tu allan i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi, rhaid ei gyfeirio at y Cyngor llawn.

[1] https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/11/National-Principles-for-Public-Engagement-Egwyddorion-Cenedlaethol-ar-gyfer-Ymgysylltu-ar-Cyhoedd.pdf

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn[2] esbonio sut mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau a phwy sy'n gyfrifol am y penderfyniadau hynny. Mae'r Cyfansoddiad wrth wraidd busnes yr awdurdod lleol gan ei fod yn nodi'r cyfrifoldebau o fewn yr awdurdod lleol, a lle mae'r Cyngor yn gweithio gydag eraill.

Mae'r Cyngor yn darparu nifer o wasanaethau i drigolion Ynys Môn e.e. addysg, gofal cymdeithasol, llyfrgelloedd a chyfleusterau hamdden i enwi dim ond rhai. Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn eu darparu ar gael yn:

https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Residents.aspx

**Deiagram 1 – Strwythur gwneud penderfyniadau'r Cyngor**

**CYNGOR (cyfarfod bob chwarter)**

- Gosod cyllideb flynyddol y Cyngor
- Cymeradwyo polisïau a strategaethau allweddol sy'n gyfrifoldeb ar bob un o'r 35 Cynghorydd

**Y Cabinet (Pwyllgor Gwaith)**

- Gall gynnwys rhwng 3 a 10 Cynghorydd gan gynnwys yr Arweinydd.
- Mae pob aelod gweithredol yn gyfrifol am bortffolio thematig.
- Cynnig polisi a chyllideb i'r Cyngor
- Gweithredu polisïau'r Cyngor o dan arweiniad gwleidyddol yr Arweinydd
- Gwneud penderfyniadau gweithredol dirprwyedig, yn unol â pholisi a chyllideb y Cyngor

**Pwyllgorau Sgriwtini* (2)**

- Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
- Penodir 12 Aelod o'r Cyngor Sir i bob Pwyllgor Sgriwtini.
- Maen nhw'n craffu ar benderfyniadau
- Yn adrodd a/neu'n gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn a/neu'r Pwyllgor Gwaith

**Pwyllgorau'r Cyngor**

- Pwyllgor Apeliadau
- Pwyllgor Penodiadau
- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Pwyllgor Trwyddedu
- Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
- Pwyllgor Polisi Cynllunio
- Pwyllgor Apeliadau Derbyniadau a Gwaharddiadau Ysgolion
- Pwyllgorau Sgriwtini
- Gwasanaethau Cymdeithasol - Y Pwyllgor Apeliadau
- Pwyllgor Safonau

*Gwahoddir rhiant lywodraethwyr a chynrychiolwyr yr Eglwys i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Sgriwtini lle bwriedir trafod swyddogaethau addysg yr Awdurdod a bydd ganddynt hawl i siarad a phleidleisio ar y materion hynny'n unig.

Yn ogystal â hyn, gall y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio gyfethol unrhyw berson ac eithrio Aelod o'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'i swyddogaethau trosedd ac anhrefn

*Gall pob Pwyllgor Sgriwtini argymell bod y Cyngor yn penodi aelodau cyfetholedig ychwanegol nad ydynt yn pleidleisio i bob Pwyllgor Sgriwtini.

O fewn eu cylch gorchwyl, bydd y Pwyllgorau Sgriwtini yn:

- adolygu a/neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Cyngor;
- adrodd a/neu wneud argymhellion i'r Cyngor llawn a/neu'r Pwyllgor Gwaith a/neu unrhyw Bwyllgor ar y Cyd neu Bwyllgor Ardal mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau;
- ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion;
- arfer yr hawl i alw i mewn, ar gyfer ailystyried, benderfyniadau (o fewn ei gylch gwaith) a wnaed ond nas gweithredwyd eto gan y Pwyllgor Gwaith a/neu unrhyw Bwyllgorau Ardal; a
- chynnal adolygiadau o'r swyddogaethau o fewn ei faes gweithgarwch ac adrodd drwy'r Pwyllgor Gwaith i'r Cyngor.

Am fwy o wybodaeth am Gyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn, dilynwch y ddolen hon https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Y-Cyfansoddiad/Cyfansoddiad-Cyngor-Sir-Ynys-M%C3%B4n.aspx

[2] Am fwy o wybodaeth am Gyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn, dilynwch y ddolen hon https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Y-Cyfansoddiad/Cyfansoddiad-Cyngor-Sir-Ynys-M%C3%B4n.aspx

## 2.3 Perfformiad

Fel dangosir yn Deiagram 1, mae gan y Cyngor ddau Bwyllgor Sgriwtini sef:

- Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r
- Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

Bydd gwaith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn canolbwyntio ar roi sicrwydd ynglŷn â pherfformiad /darpariad yr holl wasanaethau, sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion gwasanaeth (fel yr amlinellwyd yn ei Gynllun Busnes Corfforaethol, Cyllideb Flynyddol, Fframwaith Cyllideb a Pholisi, Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu gynlluniau a pholisïau sy'n eu holynu) ac i gefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaol. Yn ogystal, bydd yn sgriwtineiddio perfformiad gwasanaethau o dan anghenion Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

Bydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn sgriwtineiddio perfformiad gwasanaethau o dan anghenion Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

Yn unol â Rhan 2 o Gyfansoddiad y Cyngor, mae'r Pwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor yn:

- adolygu a sgriwtineiddio ar y penderfyniadau a pherfformiad y Pwyllgor Gwaith a/neu Bwyllgorau a Swyddogion y Cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau unigol a thros gyfnod o amser;
- adolygu sgriwtineiddio perfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig;
- holi aelodau'r Pwyllgor Gwaith a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion am eu penderfyniadau a'u perfformiad, p'un ai yn gyffredinol o'i gymharu â chynlluniau gwasanaeth a thargedau dros gyfnod o amser, neu mewn perthynas â phenderfyniadau, cynlluniau neu brosiectau neilltuol;
- gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a/neu Bwyllgor priodol a/neu'r Cyngor yn deillio o ganlyniadau'r broses sgriwtini;
- adolygu a sgriwtineiddio perfformiad cyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal a gwahodd adroddiadau ganddynt drwy ofyn iddynt annerch y Pwyllgor Sgriwtini a phobl leol i sôn am eu gweithgareddau a'u perfformiad; a
- holi a chasglu tystiolaeth gan unrhyw berson arall (gyda'i ganiatâd).

Yn ogystal, pan gynhelir Adolygiadau Gwasanaeth mae disgwyl i'r Gwasanaethau ennyn barn y cyhoedd ar berfformiad y gwasanaeth perthnasol.

**Pwyllgor Gwaith**
Mae Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn ei gyfarfodydd cyhoeddus, yn rhoi cyfle i drigolion Môn leisio eu barn ar a herio'r Sgorfwrdd Corfforaethol, Cynllun y Cyngor am y flwyddyn ac ar Adroddiad perfformiad y Cyngor. Bydd hyn yn digwydd yn chwarterol.

## 3. Dulliau

### 3.1 Sut a phryd y gallwch gymryd rhan

Mae'r Cyngor yn cynnig nifer o ffyrdd i gymryd rhan yn ein gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori a gynhelir mewn partneriaeth â mudiadau'r trydydd sector neu a drefnir gan y gymuned.

Gallwch gysylltu â ni drwy'r prosesau ymgysylltu ac ymgynghori ffurfiol. Yn gyffredinol, dim ond am gyfnod penodol y bydd ymgynghoriadau'n para. Fodd bynnag, rydym yn croesawu adborth ar unrhyw ffurf ar unrhyw adeg drwy bwyllgorau, gweithgareddau grŵp neu'n annibynnol drwy e-bost, trwy ddeisebau neu drwy eich Aelod Etholedig lleol neu gyngor cymuned.

Rhestrir isod y gwaith sydd wedi ei wneud i sefydlu gwaelodlin o'r ffyrdd mae trigolion Môn yn cyfranogi ym mhenderfyniadau'r Cyngor. Mae tabl 1 isod yn rhestru nifer o ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol i drigolion gymryd rhan ym mhenderfyniadau'r Cyngor:

**Tabl 1**

| Categori | Sylw | Dolen |
|---|---|---|
| Aelodau Etholedig (Cynghorwyr) | Mae gan Ynys Môn 14 ward gyda 35 Aelod Etholedig (Cynghorwyr) sydd yno i gynrychioli eu hetholwyr. I ddod o hyd i'ch Aelod Etholedig lleol i godi pryderon/wneud sylwadau, ewch i: | https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgMemberIndex.aspx?LLL=1 |
| Cynghorau Tref a Chymuned | Mae Cynghorau Tref a Chymuned yn gweithredu er budd y gymuned gyfan drwy wneud penderfyniadau ac argymhellion, ymgynghori a gwrando ar y trigolion i ddeall eu hanghenion, eu dymuniadau a'u pryderon. Maen nhw fel arfer yn cyfarfod unwaith y mis. I gysylltu â'ch cyngor tref a chymuned lleol i godi pryderon/wneud sylwadau, ewch i: | https://democracy.anglesey.gov.uk/mgParishCouncilDetailsList.aspx?LLL=0 |
| Pwyllgorau | Gall pobl edrych drwy strwythur pwyllgorau'r Cyngor a gweld agendâu, cofnodion ac adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau drwy fynd i; | https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieDocHome.aspx?Categories=-13004&bcr=1&LLL=1 |
| Pwyllgorau Sgriwtini | Mae strwythur yr Awdurdod Lleol yn cynnwys dau Bwyllgor Sgriwtini, a'u rôl yw darparu her gadarnhaol i wasanaethau i gynnal safon uchel gwasanaethau a sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgorau yn rheolaidd ar hyd y flwyddyn ddinesig ac mae sawl ffordd y gall y cyhoedd gymryd rhan yn y broses Graffu:<br>awgrymu pwnc i'w adolygu<br>fynd i gyfarfodydd y Pwyllgorau Sgriwtini fel arsylwyr<br>gwneud cais i siarad ar bwnc penodol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor – cyfeiriwch at Brotocol Cyfarfodydd y Pwyllgor ar Siarad yn Gyhoeddus i gael rhagor o wybodaeth a chanllawiau: | https://democracy.anglesey.gov.uk/mgCommitteeDetails.aspx?ID=153&LLL=0 |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | Siarad yn gyhoeddus ym Mhwyllgorau Sgriwtini (llyw.cymru)<br>cymryd rhan mewn ymchwiliadau Craffu ar ôl gwahoddiad gan banel adolygu Craffu<br>cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig sy'n berthnasol i ymchwiliad Craffu pan gewch eich gwahodd i wneud hynny. I gael gwybod mwy a gweld ein pwyllgorau presennol ac archif o rai blaenorol, ewch i; | |
| Ymgynghoriadau | Cynhelir ymgynghoriadau i gasglu adborth pobl ar bynciau penodol. I roi barn ar ymgynghoriadau presennol y gall pobl gymryd rhan ynddynt ewch i; | https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cymryd-rhan/Cymryd-rhan.aspx |
| Ymgysylltu | Mae barn a blaenoriaethau pobl yn cael eu casglu gan wasanaethau trwy ddull graddol. I roi barn ar yr ymrwymiadau presennol y gall pobl gymryd rhan ynddynt ewch i; | https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cymryd-rhan/Cymryd-rhan.aspx |
| Pleidleisio ac Etholiadau | Gall pobl gymryd rhan yn yr Etholiadau a bwrw eu pleidlais drwy'r post, pleidlais drwy ddirprwy a thrwy fynd i'r orsaf bleidleisio agosaf. Mae'r drefn hon yn unol â disgwyliadau cyfreithiol. I gael gwybodaeth am etholiadau a sut i gofrestru, ewch i'r dudalen ganlynol: | https://www.anglesey.gov.wales/en/Council/Council.aspx#as?folderIds=2864,3416 |
| Canmoliaethau, sylwadau a chwynion | Mae gan y Cyngor ffurflen ar-lein a ffurflen bapur lle y gall pobl ganmol, gwneud sylw neu gŵyn yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae'r ffurflen hon ar gael yn: | https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cymryd-rhan/Cymryd-rhan.aspx |
| Fforwm Tenantiaid | Mae'r Cyngor yn annog cyfranogiad tenantiaid. Isod rhestrir pedair ffordd wahanol y gall tenantiaid gymryd rhan:<br><br>Cynhelir y Fforymau Tai Gwarchod ddwywaith y flwyddyn – Mehefin a Rhagfyr fel arfer. Nod y fforwm hwn yw rhoi mwy o wybodaeth am Dai a gwybodaeth yn ymwneud â Thai i denantiaid Tai Gwarchod. Mae'r Cyngor yn darparu cludiant, bwyd a lluniaeth am ddim ar y diwrnod.<br><br>Mae Grwpiau Gorchwyl a Gorffen wedi'u targedu yn casglu barn tenantiaid i wella gwasanaethau yn y dyfodol.<br><br>Mae'r Grŵp Amgylcheddol yn cynnwys tenantiaid ac yn cael ei gefnogi gan y Tîm Cyfranogiad Tenantiaid. Bydd y grŵp yn asesu pob ffurflen gais a dderbynnir ac yn penderfynu a ydyn nhw'n gymwys ar gyfer y Gronfa Gwella Amgylcheddol a Chymunedol. Misoedd y bydd yn cyfarfod; rhwng Ebrill a Hydref (tua 3 – 4 cyfarfod anffurfiol)<br><br>Mae'r Grŵp Cyhoeddiadau yn cynnwys tenantiaid ac yn cael ei gefnogi gan y Tîm Cyfranogiad Tenantiaid. Nod y grŵp yw sicrhau bod yr holl | I gymryd rhan, cysylltwch â'r Tîm Cyfranogiad Tenantiaid dros y ffôn 01248 752983 e-bost, tenantiaid@ynys.llyw.cymru neu anfonwch neges drwy Facebook ar dudalen Tai Môn. |

| | | |
|---|---|---|
| | ddogfennau a baratoir gan y Gwasanaethau Tai ar ffurf sy'n hawdd ei deall ac sy'n addas i denantiaid. | |
| Mentrau cymdeithasol | Mewn partneriaeth â'r Cyngor, mae Medrwn Môn yn cynnig sawl ffordd o gymryd rhan weithredol, y ddau brif ddull ymgysylltu ar hyn o bryd yw:<br><br>Rhwydwaith y Trydydd Sector: Fforwm ar gyfer grwpiau cymunedol a mudiadau'r trydydd sector yw hwn. Cynhelir cyfarfodydd rhwydwaith bob chwarter (yn seiliedig ar thema neu bwnc fel arfer) ac anogir grwpiau a mudiadau i drafod, darparu sylwadau ac adborth ar y pwnc/thema a chynllunio sesiynau yn y dyfodol. Mae gwybodaeth ac adborth o'r sesiynau'n cael eu casglu a'u hanfon fel ymatebion i ymgynghoriadau, fforymau eraill ac i lunwyr polisi.<br><br>Yn gyffredinol, fel Sefydliad, mae Medrwn Môn yn gwahodd pobl i ryngweithio drwy gyfryngau cymdeithasol, drwy e-bost neu dros y ffôn, trwy ei fws gwybodaeth, mewn digwyddiadau a chyfarfodydd, neu wyneb yn wyneb. | Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Lyndsey Campbell-Williams<br>Lyndsey@medrwnmon.org |
| Cynllunio Lle | Cynllunio Lle: fforwm cymunedol yw hwn a gwahoddir pobl i ddweud wrthym sut maen nhw'n byw a gweithio'n eu cymunedau. Defnyddir hyn i nodi blaenoriaethau lles ar gyfer pob ardal ac i nodi themâu sy'n gyffredin ar draws yr Ynys.<br><br>Mae dwy elfen i'r rhaglen:<br>1. Mapio cymunedol: gwahoddir cymunedau i ymgysylltu â ni mewn unrhyw ffordd y maen nhw'n gyfforddus ag ef (trwy sgyrsiau wyneb yn wyneb, grwpiau ffocws, blychau pleidleisio, dulliau gweledol a lluniau, arolygon (ar-lein a phapur) ac ati)<br>2. Cynghreiriau Cymunedol: Sefydlir cynghreiriau ym mhob ardal ac maen nhw'n cyfarfod o bryd i'w gilydd i drafod eu blaenoriaethau dewisol. Mae cynghreiriau yn gwahodd pobl i gymryd rhan naill ai drwy fynychu eu cyfarfodydd, ymuno â grwpiau gorchwyl a gorffen, drwy arolygon, ar y cyfryngau cymdeithasol neu drwy siarad ag aelodau'r Gynghrair wyneb yn wyneb. | Susan Jones, Rheolwr Gweithredol (Tim Arweinyddiaeth)<br>Susanjones4@ynysmon.llyw.cymru |
| Cyngor a Fforymau Pobl Hŷn Ynys Môn | Pwrpas y Cyngor Pobl Hŷn yw cynrychioli barn pobl hŷn Ynys Môn ar faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd, eu gofal cymdeithasol a'u lles. Mae'n gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, y sectorau gwirfoddol a phreifat a phobl hŷn, i ddatblygu polisïau ymhellach.<br>Nod Cyngor Pobl Hŷn yw;<br>Bod yn llais i Bobl Hŷn ar Ynys Môn | Seiriol Edwards, Cydlynydd Strategaeth Pobl Hŷn a Gofalwyr<br>seirioledwards@ynysmon.llyw.cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | Gwerthfawrogi pobl hŷn<br>Gweithio gyda phobl hŷn<br>Gwrando ar bobl hŷn<br>Cefnogi Pobl Hŷn<br>Darparu cyfleoedd i bobl hŷn<br>4 cyfarfod y flwyddyn a gynhelir ar ddyddiad priodol yn dilyn Fforwm Ynys Môn ar gyfer Pobl Hŷn. | |
| Fforwm Pobl Hŷn Ynys Môn | Mae'r Fforymau Pobl Hŷn yn cryfhau lleisiau pobl hŷn ac yn cryfhau hawliau pobl hŷn ar yr un pryd. Mae fforymau'n rhoi cyfle i ferched a dynion hŷn gyfarfod, rhannu a thrafod eu profiadau a dod â'u lleisiau ynghyd, yn ogystal â chreu rhyngwyneb lle gall pobl hŷn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae cyfleoedd o'r fath hefyd yn galluogi pobl hŷn i ddysgu sut i gyfathrebu a chael mwy o lais; cael mynediad at wybodaeth a chanllawiau sy'n ymwneud â'u hawliau. Cynhelir Fforwm Pobl Hŷn bob chwarter ac maen nhw ar agor i aelodau'r cyhoedd ei fynychu. | Seiriol Edwards, Cydlynydd Strategaeth Pobl Hŷn a Gofalwyr<br>seirioledwards@ynysmon.llyw.cymru |
| Fforwm Defnyddwyr Hamdden | Mae'r Fforwm Defnyddwyr Hamdden yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn i rannu profiadau pobl o ddefnyddio'r ganolfan a chyflwyno unrhyw newidiadau arfaethedig. Caiff cyfranogwyr eu hannog i roi eu barn. | MairEluned@ynysmon.llyw.cymru |
| Arolwg cwsmeriaid Hamdden | Anfonir dau arolwg y flwyddyn i gasglu adborth gan gwsmeriaid i gasglu gwybodaeth gan gwsmeriaid i wella gwasanaethau yn y dyfodol. | OwainJones@ynysmon.llyw.cymru |
| Fforwm Ieuenctid | Y cynllun yw datblygu strategaeth cyfranogiad plant a phobl ifanc ar draws yr awdurdod, gyda chynllun gweithredu clir sy'n cynnwys ailsefydlu grŵp Amlasiantaeth Plant a Phobl Ifanc a grwpiau penodol o bobl ifanc. | GeralltRoberts@ymysmon.llyw.cymru |
| Môn Actif | Cyfryngau cymdeithasol ac e-bost Môn Actif yw'r dull mwyaf cyffredin o gael adborth cwsmeriaid. Gall cwsmeriaid adael adborth a gofyn cwestiynau ar y llwyfannau hyn. | monactif@ynysmon.llyw.cymru |
| Partneriaeth Natur Leol | Mae Partneriaeth Natur Leol Ynys Môn yn rhwydwaith annibynnol o unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n byw neu'n gweithio ar yr Ynys sydd â diddordeb mewn natur. Mae'r Bartneriaeth hon yn agored i unrhyw un a hoffai gymryd mwy o ran mewn cadwraeth natur ar Ynys Môn ac a hoffai gael y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau, digwyddiadau a chyfleoedd ariannu perthnasol. Mae aelodau'n cymryd rhan drwy gylchlythyr, rhoi cyngor fel arbenigwr mewn maes cadwraeth, yn sicrhau cyllid ar gyfer prosiect, a/neu'n mynychu cyfarfodydd partneriaeth (bob dwy flynedd ar hyn o bryd). Yn fuan, rydym hefyd yn gobeithio cael cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i aelodau ryngweithio â nhw ymhellach. | AuroraHood@ynysmon.llyw.cymru |

| | | |
|---|---|---|
| Cymdeithas Twristiaeth Ynys Môn | Mae busnesau twristiaeth sy'n gysylltiedig â'r Gymdeithas hon yn gallu rhoi sylwadau yn y cyfarfodydd chwarterol | Michael Thomas MichaelThomas@ynysmon.llyw.cymru |
| Cydbwyllgor Cynghori | Mae'r Cydbwyllgor Cynghori fel arfer yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a bydd yn cynghori'r awdurdod lleol, a chyrff eraill, ar y camau priodol er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli'r AHNE. | Alun M Owen AlunOwen@anglesey.llyw.cymru |
| Grŵp Defnyddwyr Porth Amlwch | Mae Grŵp Defnyddwyr Porth Amlwch yn cymryd rhan trwy gyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn mewn rôl ymgynghorol yn unig er mwyn hwyluso'r broses gyfathrebu dwy ffordd rhwng Awdurdod yr Harbwr (CSYM) a defnyddwyr/rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb yn y porthladd. | Am ragor o fanylion cysylltwch ag Iwan Huws Iwanhuws@anglesey.llyw.cymru |
| Grŵp Defnyddwyr Porthladd Biwmares a Phorthaethwy | Mae Grŵp Defnyddwyr Porthladd Biwmares a Phorthaethwy yn cymryd rhan trwy gyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn mewn rôl ymgynghorol yn unig er mwyn hwyluso'r broses gyfathrebu dwy ffordd rhwng Awdurdod yr Harbwr (CSYM) a defnyddwyr/rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb yn y porthladd. | Am ragor o fanylion cysylltwch ag Iwan Huws Iwanhuws@anglesey.llyw.cymru |
| Cruise Cymru | Mae Cruise Cymru yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru i greu trefniant ardderchog i deithwyr ar longau mordeithio sy'n ymweld â Chymru. Mae Cyngor Môn yn parhau i ddenu cwmnïau llongau mordeithio newydd ac rydym yn gweithio ar wella'r seilwaith ym mhorthladd Caergybi. Yn ddiweddar mae tîm twristiaeth Ynys Môn wedi trefnu a chreu Partneriaeth Hwylio Caergybi, sydd wedi cyfarfod unwaith, ac a fydd yn cyfarfod eto ddiwedd mis Hydref i roi eu barn. | Michael Thomas MichaelThomas@ynysmon.llyw.cymru Elaine Thomas Elaine.Thomas4@gov.cymru a Suzanne Thomas Suzanne.Thomas@gov.cymru |
| Fforwm Strategol Ynys Ynni | Mae rhanddeiliaid allweddol a datblygwyr ynni sy'n dangos diddordeb i ddatblygu'r ynys yn mynychu'r fforwm ac yn gwneud sylwadau yn y cyfarfodydd chwarterol. Dylid nodi bod presenoldeb trwy wahoddiad yn unig. | AngharadCrump@ynysmon.llyw.cymru |
| Cynghorau Ysgol | Mae gan bob ysgol ar Ynys Môn gyngor ysgol sy'n cael eu trefnu o fewn yr ysgolion. Mae'r Cyngor yn defnyddio cynghorau ysgol er mwyn ymgysylltu â chynllun y Cyngor a materion pwysig eraill. Yn ogystal â chynghorau ysgol, mae gan bob ysgol uwchradd ddau ddisgybl sy'n eistedd ar y cyrff llywodraethu. | |
| Radio lleol | Môn FM<br>Mae gwybodaeth a newyddion y cyngor yn cael eu rhannu gyda'r cyhoedd drwy Môn FM | www.monfm.co.uk |
| Llwyfannau cyfryngau cymdeithasol | Facebook / Twitter / Instagram ac ati<br>Fel arfer, rhoddir eitemau ar dudalen Ystafell Newyddion gwefan y Cyngor ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y mae'r Cyngor yn eu defnyddio | Dolen i dudalen Newsroom:<br><br>Newsroom (llyw.cymru) |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fodd i Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor Gwaith yn debygol o'u gwneud dros y misoedd nesaf.<br>Gall penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith gael eu gwneud fel corff ar y cyd neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith sy'n gweithredu o dan bwerau dirprwyedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau y mae angen eu gwneud, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion Arweiniol a'r Deiliaid Portffolio ar gyfer pob eitem.<br>Dylid nodi, fodd bynnag, fod y rhaglen waith yn ddogfen hyblyg gan na fydd pob eitem y mae angen penderfynu yn ei chylch yn hysbys ymlaen llaw ac efallai y bydd angen newid rhai amserlenni i adlewyrchu blaenoriaethau newydd ac ati. Felly, mae'r rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac mae'r diweddariadau'n cael eu cyhoeddi bob mis. | https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Docs-en/Council/Democracy/Executive-Forward-Work-Programme/Executive-blaengar-waith.pdf |
| Cofnodion o benderfyniadau | Gall y cyhoedd weld y penderfyniadau diweddar a wnaed gan y canlynol:<br>• Cyrff gwneud penderfyniadau'r Cyngor<br>• Arweinwyr y Cyngor drwy ddefnyddio pwerau dirprwyedig<br>• Y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion<br>• Deiliaid portffolio, swyddogion ac Arweinydd y Cyngor | https://democratiaeth.ynysmon.llyw.cymru/mgDelegatedDecisions.aspx?DR=18%2f05%2f2023-01%2f06%2f2023&RP=0&K=0&DM=0&HD=0&DS=2&Next=true&META=mgdelegateddecisions&V=0&LLL=1 |

### 3.2 Adnoddau a Mynediad Digidol

Gellir cysylltu â llawer o gyfranogwyr a gallan nhw gymryd rhan yn hawdd trwy adnoddau ar-lein fel llwyfannau rhyngweithio wedi'u targedu trwy gronfeydd data cysylltiedig â phwnc ynghyd â'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, isod amlinellir y ffordd yr ydym yn ceisio darparu ar gyfer cyfranogwyr anodd eu cyrraedd ac sydd wedi'u cau allan yn ddigidol yn yr adran Cyfathrebu heb adnoddau Digidol**.** Bydd pob gweithgaredd yn cael eu hadolygu i sicrhau bod yr adnoddau cywir ar waith i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gallu cymryd rhan a chyfrannu os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

### 3.3 Pwy sy'n gallu cymryd rhan

Mae ein holl drigolion/cymunedau a rhanddeiliaid (y rhai sydd â diddordeb neu ran mewn mater) yn gallu cymryd rhan. Mae hyn yn cynnwys pawb sy'n byw, gweithio, chwarae neu ymweld â'r ardal ac mae'n cynnwys pob grŵp oedran, o blant ifanc i oedolion hŷn ac nid yw'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un o'n grwpiau gwarchodedig.

Gallwch gymryd rhan fel unigolion, o fewn grwpiau, megis grwpiau cymunedol, cynghorau tref a chymuned neu gyrff llywodraethol a phroffesiynol ac ar ran neu gyda mudiadau trydydd sector ac undebau llafur.

Er ein bod yn ceisio rhoi cyfle i'r holl randdeiliaid gymryd rhan, weithiau nid yw hyn yn ymarferol oherwydd y pynciau amrywiol ac weithiau pwnc-benodol sy'n cael eu trafod. Er enghraifft, wrth

bleidleisio mewn etholiadau lleol a chyffredinol, er enghraifft, mae terfyn oedran o 16 oed a throsodd, y mae'n rhaid cydymffurfio ag ef yn gyfreithiol.

Wrth gynllunio ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd, ein nod yw sicrhau ein bod yn cyrraedd y bobl iawn. Gwneir hyn trwy fapio rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn cyrraedd yr holl grwpiau angenrheidiol. Yn aml gallai ddibynnu ar bwnc, lleoliad, a grŵp oedran neu ddemograffeg. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn golygu y bydd yr ymgynghoriadau a'r ymgysylltu hyn yn cau allan grwpiau neu unigolion eraill.

Ceisiwn ei gwneud yn glir pwy sy'n gallu cymryd rhan ac rydym yn anelu at wrando ar bob barn a safbwynt.

### 3.4 Sut y byddwn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth

Mae meithrin a chynnal perthynas agos â mudiadau'r trydydd sector yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Ceisiwn hybu ymwybyddiaeth o'n gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu trwy ymwneud â'n grwpiau trydydd sector a'u partneriaethau o fewn grwpiau cymunedol, gydag unigolion ac aelodau gweithgar o'n cymuned.

Mae gennym adran benodol ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu presennol a blaenorol ar ein gwefan www.anglesey.gov.wales/consultations a cheisiwn hybu hyn yn ehangach trwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy ein partneriaethau pan fydd gweithgareddau'n fyw.

Mae technoleg wedi datblygu'n sylweddol yn ddiweddar, ac mae pandemig Covid-19 wedi galluogi mwy o bobl i ddefnyddio/cysylltu drwy ddulliau digidol. Ein nod yw archwilio a datblygu adnoddau a ffyrdd digidol newydd o weithio, e.e. cyfarfodydd hybrid / rhithwir i gyrraedd cynulleidfa ehangach ac annog hygyrchedd ehangach

### 3.5 Cyfathrebu heb adnoddau digidol

Nid oes gan bawb fynediad at gyfrifiadur neu'r rhyngrwyd. Rhaid i'n holl ymarferion ymgysylltu ystyried sut i ymgysylltu â defnyddwyr heb adnoddau digidol fel mater o flaenoriaeth. Enghreifftiau o hyn yw trafod wyneb yn wyneb, trafod dros y ffôn a darparu copïau papur o ddogfennau perthnasol. Mae copïau papur o ddogfennau ymgysylltu / ymgynghori ar gael i randdeiliaid drwy Cyswllt Môn.

### 3.6 Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod holl drigolion Ynys Môn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chael cyfle cyfartal i rannu eu barn. Felly, mae angen i ni ystyried yn benodol y ddemograffeg ganlynol a'r ffordd orau o ymgysylltu â nhw. Mae rhai enghreifftiau i'w gweld isod:

### 3.7 Pobl ag anableddau

Pan fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth neu'n paratoi gwybodaeth i ymgysylltu ar-lein, mae angen i ni ystyried sut y gall pobl gael mynediad ati. Efallai y bydd angen dogfennau mewn print bras ar bobl â nam ar eu golwg neu ddefnyddio darllenydd sgrin i weld yr wybodaeth ac ymgysylltu. Mae angen i ni ystyried sut y bydd dogfennau, tudalennau gwe, arolygon ac ati yn cael eu darllen ar ddarllenydd sgrin. Enghraifft o hyn yw defnyddio strwythur pennawd hierarchaidd cywir neu ddarparu testun amgen i ddelweddau. Gyda fideos, efallai y bydd angen is-deitlau ar bobl â nam ar eu clyw. Efallai y bydd rhai pobl hefyd angen gwybodaeth

ar ffurf hawdd ei darllen. Mae dogfen hawdd ei darllen yn defnyddio iaith glir a brawddegau syml i gyfleu cynnwys y ddogfen lawn yn gywir.

### 3.8 Plant a Phobl Ifanc

Mae dyletswydd arnom i blant a phobl ifanc ein bod yn sicrhau ein bod yn estyn allan atynt mewn ffordd sy'n eu hannog i gyfranogi fel yr amlinellir yn y Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Atodiad B. Cydnabod Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc fel fframwaith ar gyfer cyfranogiad; byddwn yn parhau i hwyluso cyfleoedd i bobl ifanc gyfranogi a sicrhau ein bod yn dysgu ac yn eirioli dros eu hawl o dan Erthygl 12 y CCUHP.

Hawliau Plant - Comisiynydd Plant Cymru (childcomwales.org.uk)

Ar ôl ail-ddechrau yn dilyn cyfnod y cyfyngiadau symud oherwydd Covid, bydd Fforwm Ieuenctid CSYM yn gweithredu fel llwyfan i gael barn plant a phobl ifanc ar draws Ynys Môn. Byddwn yn cynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol. Byddwn yn sicrhau bod adborth priodol yn cael ei ddarparu trwy wahanol ddulliau a fydd yn cynnwys adroddiadau, cyflwyniadau ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Byddwn yn parhau i ddatblygu a chynnwys cyfranogiad plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc.

### 3.9 Cyfle gwella 1

**Gwella'r ffyrdd y mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn ein penderfyniadau ac yn dylanwadu arnynt**

### 3.10 Effeithlonrwydd

Mae'n bwysig peidio ag ymgynghori ac ymgysylltu'n ormodol. Yn aml mae pobl yn rhoi'r gorau i'w hamser rhydd a'u pellteroedd teithio i fynychu digwyddiadau ymgysylltu. Efallai y bydd gennym ni, neu ein partneriaid gwasanaethau cyhoeddus ddata perthnasol eisoes ar ôl ymgysylltu neu gynnal arolygon blaenorol. Efallai y byddwn hefyd yn gallu defnyddio data a gwybodaeth a gesglir o ymgysylltu parhaus.

### 3.11 <u>Dulliau Ymgysylltu</u>

**Ymgysylltu Parhaus**

Byddwn yn ymgysylltu'n barhaus â thrigolion Ynys Môn trwy gyfarfod â grwpiau rhanddeiliaid a thrwy gynnal sgyrsiau uniongyrchol â'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym yn datblygu llwyfan ymgysylltu digidol i helpu i gasglu'r sgyrsiau hyn a sicrhau bod y gwaith hwn yn parhau.

Mae'n bwysig bod y cyhoedd yn ymwybodol o sut mae'r Cyngor yn gweithio a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar unrhyw adeg benodol.

Mae'r tîm Cyfathrebu yn hybu ymwybyddiaeth o weithgareddau'r Cyngor drwy'r cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg sy'n cael eu rhannu â ffynonellau newyddion. Mae'r holl ddatganiadau i'r wasg hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

Mae gwefan y Cyngor yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gyda'r nod o wella adrannau sy'n berthnasol i wybodaeth ar gyfer y cyhoedd.

Mae manylion cyfarfodydd arfaethedig y Cyngor yn cael cyhoeddusrwydd drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a chyhoeddir blaen raglenni gwaith mewn modd amserol i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o eitemau i'w hystyried mewn cyfarfodydd sydd i ddod. Gall aelodau'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd ar-lein. Caiff cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet eu darlledu, ac maen nhw ar gael yn electronig am 6 mis ar ôl y cyfarfod. Mae dull i bobl leol fwydo i mewn i'r broses Graffu, mae hwn ar gael ar wefan y Cyngor. Mae manylion am eitemau agenda sydd ar ddod hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Hysbysir Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn am yr holl ddeisebau a dderbynnir gan y cyhoedd drwy Aelodau'r Cyngor a bydd cyfle i'r cyhoedd gyflwyno eu cais neu eu gwrthwynebiad. Mae manylion ar gael ar wefan y Cyngor.

### 3.12 Ymgysylltu Penodol

Rydym am i bobl gael llais cryf a gallu dylanwadu'n effeithiol ar ein penderfyniadau, yn enwedig pan fyddwn yn gwneud newidiadau i wasanaethau neu ddatblygu polisïau newydd. Rydym yn ymgynghori'n aml â phobl Ynys Môn. Gellir gweld enghreifftiau presennol ar dudalen ymgynghoriadau ein gwefan:

http://www.anglesey.gov.wales/en/browse/Get-involved/Consultations/Current-consultations/

Rydym hefyd yn defnyddio dulliau amrywiol eraill fel y nodir isod:

- Arolygon ar-lein
- Digwyddiadau Ymgysylltu
- Cyfarfodydd Cyhoeddus
- Grwpiau Ffocws
- Fforymau

Yn ystod Covid-19 roedd rhai mathau o ymgysylltu yn fwy heriol. Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu grwpiau ffocws wyneb yn wyneb ledled y sir gyda phwyslais ar ddefnyddio grwpiau presennol y mae trigolion yn gyfarwydd â nhw ac yn eu defnyddio.

### 3.13 Asesiadau Effaith

Pan fyddwn yn gwneud cynlluniau i greu polisi newydd neu newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau, mae'n rhaid i ni ystyried yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar ein dinasyddion, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae Asesiad Effaith yn dwyn ynghyd y deddfwriaethau perthnasol ac yn nodi sut y byddwn yn ystyried (pwyso a mesur yn briodol), wrth wneud penderfyniadau.

Pan fyddwn yn cynnal Asesiad Effaith:

- Rydym yn ystyried tystiolaeth berthnasol i ddeall effeithiau tebygol neu wirioneddol polisïau neu arferion ar y rhai sy'n agored i niwed yn ein cymunedau, gan gynnwys y rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Rydym yn ystyried ble y gallem leihau effeithiau negyddol.
- Rydym yn nodi cyfleoedd a gollwyd ac yn manteisio ar effeithiau cadarnhaol.
- Rydym yn ystyried hawliau'r plentyn.

Fel y soniwyd uchod, mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n dda â'i drigolion. Fodd bynnag, mae angen i CSYM archwilio a datblygu ymhellach ffyrdd o wella'r broses o ymgysylltu â'i drigolion, naill ai trwy ddulliau traddodiadol neu ddigidol.

### 3.14 Cyfle gwella 2

**Gwella ffyrdd o dderbyn a chynnwys adborth drwy ddefnyddio'r adnoddau traddodiadol a digidol sydd ar gael**

### 3.15 Cysylltu â'ch Cynghorydd lleol

Gallwch ddod o hyd i'ch cynghorydd lleol i drafod materion o fewn eich ward o'r rhestr ganlynol o'r holl gynghorwyr sir. Mae eu manylion cyswllt ar gael ar wefan y Cyngor yma:

https://democracy.anglesey.gov.uk/mgMemberIndex.aspx?bcr=1&LLL=0

Gallwch hefyd ddefnyddio'r ddolen uchod os nad ydych yn siŵr pwy yw eich cynghorydd, gallwch chwilio ar-lein drwy ddefnyddio'r ddolen uchod neu gysylltu â'r Cyngor a fydd yn gallu darparu'r wybodaeth hon i chi.

### 3.16 Cymryd rhan yn y broses Graffu

Mae gan Bwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor ddiddordeb mewn clywed barn pobl yr ynys a darganfod beth sy'n achosi pryder i'r bobl rydym yn eu gwasanaethu.

Mae sawl ffordd y gallwch chi, fel aelod o'r cyhoedd, gymryd rhan yn y broses Graffu:

- drwy awgrymu pwnc i'w adolygu
- mynychu cyfarfodydd fel arsylwyr
- drwy wneud cais i siarad ar bwnc penodol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor – gweler y Protocol Siarad Cyhoeddus yng Nghyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini
- drwy gymryd rhan mewn ymchwiliadau Craffu ar ôl cael gwahoddiad gan banel adolygu Sgriwtini
- drwy gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig sy'n berthnasol i ymchwiliad Craffu pan gewch eich gwahodd i wneud hynny

Os hoffech awgrymu pwnc i'w adolygu, yna lawrlwythwch gopi Word neu PDF o'r ffurflen awgrym, a'i hanfon yn ôl at y Tîm Sgriwtini drwy'r post:

Sgriwtini, Busnes y Cyngor, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni LL77 7TW.

neu llenwch ein ffurflen ar-lein

**Cysylltu â Sgriwtini**

Sgriwtini
Busnes y Cyngor
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor Sir
Llangefni
Môn
LL77 7TW

E-bost: Scrutiny@anglesey.llyw.cymru

### 3.17 Mynychu cyfarfod a chymryd rhan ynddo

Gall unrhyw un sy'n byw yn Ynys Môn fynychu unrhyw gyfarfod o'r Cyngor ac arsylwi ar y trafodion a'r drafodaeth yn y siambr. Cynhelir cyfarfodydd yn Siambr y Cyngor yn Adeiladau'r Cyngor yn Llangefni sydd ag oriel wylio gyhoeddus. Yn ddiweddar, mae presenoldeb o bell

yng nghyfarfodydd y Cyngor wedi cael ei gyflwyno felly hyd yn oed os na allwch ddod i'r cyfarfod yn bersonol, efallai y bydd cyfle i chi gymryd rhan o bell.

Mae lleoliad, dyddiad ac amser dechrau'r cyfarfodydd ar gael ar yr agenda a baratoir ar gyfer y cyfarfod sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor.

Gall unrhyw un sy'n mynychu'r cyfarfod gael ei wahardd rhag bod yn bresennol pan fo eitem agenda wedi'i dosbarthu fel un sydd wedi'i heithrio. Fel arfer, eitemau eithriedig yw rhai lle gallai gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol gael ei thrafod a dim ond y rhai sy'n gallu pleidleisio ar y mater sy'n cael bod yn bresennol.

### 3.18 Ychwanegu eitem at agenda i'w thrafod

Mae dwy ffordd y gall aelod o'r cyhoedd annog pwyllgor i ystyried eitem a'i hychwanegu at agenda'r cyfarfod yn y dyfodol.

- Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd gysylltu â chadeirydd pwyllgor a gofyn iddo neu iddi ychwanegu eitem at y blaen raglen waith i'w thrafod yn y dyfodol.
- Mynychu cyfarfod o'r pwyllgor perthnasol a gofyn yn y cyfarfod o dan eitem - blaenraglen waith – i'r eitem gael ei hychwanegu i'w hystyried yn y dyfodol.

### 3.19 Cyflwyno cwestiwn i'r Cyngor

Mae gan aelodau'r cyhoedd hawl i ofyn cwestiwn i unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Gwaith mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn. Mae cwestiynau wedi'u cyfyngu i un cwestiwn gan bob unigolyn neu sefydliad a byddant yn cael eu gofyn yn y drefn y derbyniwyd nhw oni bai bod cadeirydd y Cyngor yn dymuno grwpio rhai cwestiynau gyda'i gilydd. Dylid cyfyngu ar gyfanswm yr amser a neilltuir i gwestiynau cyhoeddus mewn cyfarfod o'r Cyngor i 15 munud.

Er mwyn gofyn cwestiwn rhaid cyflwyno rhybudd ysgrifenedig neu drwy e-bost i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd heb fod yn hwyrach na hanner dydd dri diwrnod gwaith cyn diwrnod y cyfarfod. Rhaid i bob person sy'n cyflwyno cwestiwn roi ei enw a'i gyfeiriad.

Gellir gwrthod cwestiwn os:

- Nad yw'r cwestiwn yn ymwneud â mater y mae gan y Cyngor gyfrifoldeb amdano, neu sy'n effeithio ar y Sir.
- Ei fod yn ddifenwol, yn ddisylwedd neu'n sarhaus
- Ei fod yr un fath i raddau helaeth â chwestiwn a gyflwynwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf
- Yn gofyn am ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr holwr i ofyn y cwestiwn i'r Cynghorydd perthnasol. Os na all holwr sydd wedi cyflwyno cwestiwn ysgrifenedig fod yn bresennol, gall ofyn i'r cadeirydd ofyn y cwestiwn i'r cynghorydd ar ei ran. Gall y cadeirydd ofyn y cwestiwn, gan nodi y bydd y cynghorydd yn darparu ateb ysgrifenedig, neu, gan nad yw'r holwr yn bresennol gall benderfynu na fydd y pwyllgor yn ymdrin â'r cwestiwn.

Gall holwr ofyn un cwestiwn atodol heb rybudd i'r Cynghorydd a allai godi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ateb.

Bydd unrhyw gwestiwn na ellir ymdrin ag ef yn ystod y cyfarfod, naill ai oherwydd diffyg amser neu am nad yw'r cynghorydd perthnasol yn bresennol, yn cael sylw drwy ymateb ysgrifenedig.



DRAFT

### 3.20 Cyflwyno barn i bwyllgorau dethol

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, gall unrhyw aelod o'r cyhoedd fynychu un o'r ddau Bwyllgor Sgriwtini a gynhelir gan y Cyngor a chyflwyno eu barn ar eitem benodol ar yr agenda. Rhaid i'r Pwyllgor roi ystyriaeth lawn i'r safbwyntiau a gyflwynwyd gan aelod o'r cyhoedd o dan y trefniadau hyn. Mae rhagor o wybodaeth am graffu ar gael ar wefan y Cyngor yma.

### 3.21 Sut i ddod yn Gynghorydd

Bydd yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yn cael eu cynnal ym mis Mai 2027. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth i chi ar sut i sefyll mewn etholiad a'r hyn a ddisgwylir gennych pe baech yn cael eich ethol yn Gynghorydd Cyngor Sir Ynys Môn.

### 3.22 Sefyll fel ymgeisydd

Rhaid i ymgeisydd ar gyfer etholiad gwblhau pecyn o bapurau enwebu y mae'n rhaid i'r ymgeisydd eu llofnodi ym mhresenoldeb tyst a fydd yn dyst i'r llofnod. Yna bydd angen i chi ennill mwyafrif y pleidleisiau yn y blwch pleidleisio os oes yna gystadleuaeth am y sedd. Mae nifer y pleidleisiau y mae angen i chi eu hennill yn dibynnu ar yr etholaeth y byddwch yn dewis sefyll drosti mewn etholiad. Mewn rhai rhanbarthau etholiadol mae dau neu dri aelod yn cynrychioli'r rhanbarth.

Bydd pecynnau enwebu ar gael yn gynnar yn 2027. Os hoffech gofrestru eich diddordeb, cysylltwch â'r Gwasanaethau Etholiadol ar 01248 750057.

Os ydych chi'n ystyried sefyll fel ymgeisydd ar gyfer plaid wleidyddol benodol, yna dylech gysylltu â sefydliad lleol y blaid honno yn gyntaf. Os ydych yn bwriadu sefyll etholiad fel Cynghorydd annibynnol, cysylltwch â ni a byddwn yn falch o roi mwy o wybodaeth i chi.

Mae cynghorwyr yn derbyn cyflog sy'n cael ei bennu bob blwyddyn gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gallant hefyd hawlio costau teithio a chynhaliaeth (telir cynhaliaeth am brydau a llety 'y tu allan i'r sir' yn unig) wrth ymgymryd â dyletswyddau swyddogol. Gall cynghorwyr hefyd hawlio tuag at gostau gofal a chymorth personol er mwyn iddynt gyflawni'r dyletswyddau y gymeradwyir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer cynllun peilot i ariannu addasiadau a chefnogaeth resymol i ymgeiswyr anabl sydd am gael eu hethol yn etholiadau Llywodraeth Leol. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yma.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am lwfansau drwy glicio ar y ddolen ganlynol:

[Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol | GOV. CYMRU]

### 3.23 Beth sy'n digwydd os cewch eich ethol?

Mae'r Cyngor yn cynnwys 35 o Gynghorwyr sy'n cael eu hethol bob pum mlynedd. Mae cynghorwyr yn atebol yn ddemocrataidd i drigolion eu hetholaeth. Mae dyletswydd bennaf y Cynghorwyr i'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai na phleidleisiodd drostynt.

Mae gan gynghorwyr hawl i gael cyflog sylfaenol. Gellir cael rhagor o wybodaeth am daliadau gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (dolen uchod). Gellir gweld copi o'r penderfyniadau ar gyfer 2022-23 hefyd ar wefan y Panel.

Mae gan gynghorwyr hawl hefyd i lwfansau teithio a gall y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu hefyd dderbyn ad-daliad am gostau gofal.

Ar ôl eu hethol disgwylir i Gynghorwyr fynychu sesiynau hyfforddi a datblygu amrywiol yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Darperir sesiwn sefydlu ar gyfer yr holl Gynghorwyr newydd a'r rhai sy'n dychwelyd yn ystod y 12 mis cyntaf yn y swydd, gyda hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu'n barhaus trwy ddigwyddiadau datblygu aelodau.

Disgwylir i gynghorwyr fynychu cyfarfodydd a phwyllgorau ac maen nhw wedi ymrwymo i gadw at ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr.

Fel cynrychiolwyr lleol, mae gan gynghorwyr gyfrifoldebau tuag at eu hetholwyr a sefydliadau lleol. Mae'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau hyn yn aml yn dibynnu ar yr hyn y mae'r cynghorydd am ei gyflawni a faint o amser sydd ar gael. Gall gynnwys: mynychu cyfarfodydd cyrff llywodraethu ysgolion yn eu ward, mynychu cyfarfodydd sefydliadau lleol fel cymdeithasau tenantiaid, cyrff sy'n effeithio ar y gymuned ehangach, codi materion ar ran aelodau'r cyhoedd, cynnal cymorthfeydd i drigolion godi materion a chyfarfod trigolion unigol yn eu cartrefi eu hunain.

### 3.24 Faint o amser mae'n ei gymryd?

Os ydych mewn gwaith ac yn bwriadu sefyll fel ymgeisydd, efallai y byddwch am ofyn i'ch cyflogwr pa ddarpariaethau sydd ganddynt i'ch galluogi i fod yn bresennol ar gyfer busnes y Cyngor. Amcangyfrifir bod cynghorwyr, ar gyfartaledd, yn treulio'r hyn sy'n cyfateb i dri i bedwar diwrnod yr wythnos ar fusnes y cyngor. Yn amlwg, mae rhai cynghorwyr yn treulio mwy o amser na hyn – ac eraill yn treulio llai.

Mae dolen i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a baratowyd ar y cyd ag awdurdodau lleol ac sy'n ganllaw defnyddiol i ddarpar ymgeiswyr:

BYDDWCH YN GYNGHORYDD. SICRHEWCH MAI CHI YW'R NEWID.

### 3.25 Cyfleusterau a chymorth cynghorwyr

Mae'r Uned Gwasanaethau Democrataidd yn gweinyddu cyfarfodydd y Cyngor ac yn darparu gwasanaeth cefnogi pwrpasol, gan ddarparu cyngor ar arferion a chyfraith yn ymwneud â chyfarfodydd i Gynghorwyr, swyddogion a'r cyhoedd a chymorth i bob Cynghorydd gydag ymholiadau a cheisiadau gweinyddol cysylltiedig.

Bydd cynghorwyr, unwaith y cânt eu hethol, yn cael dyfais tabled ddigidol, gliniadur a chyfeiriad e-bost @ynysmon.llyw.cymru y mae'n rhaid ei ddefnyddio wrth gynnal busnes y Cyngor. Mae holl gyfarfodydd y Cyngor yn ddi-bapur ac argymhellir bod pob ymgeisydd yn gallu ei ddefnyddio'n hyderus neu'n barod i gael hyfforddiant.

Mae'r Cyngor yn Awdurdod dwyieithog ac, fel Cynghorydd, byddwch yn gallu gweithio yn eich dewis iaith, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg, ac mae cyfleusterau cyfieithu ar gael ym mhob cyfarfod o'r Cyngor i hwyluso hyn. Mae hyfforddiant Cymraeg hefyd ar gael i unrhyw Gynghorwyr sy'n dymuno dysgu'r iaith.

### 3.26 Y manteision i Gynghorwyr o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi dod yn offeryn pwerus i Gynghorwyr, gan eu helpu i ymgysylltu â chymunedau, codi ymwybyddiaeth o faterion cymunedol, digwyddiadau neu fentrau'r Cyngor ac i ofyn am farn a derbyn adborth.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi newid sut mae gwleidyddiaeth yn gweithio, mae'n gwneud gwleidyddion a sefydliadau cyhoeddus yn fwy hygyrch, yn caniatáu i unigolion gael eu lleisiau eu clywed ac yn helpu i rannu syniadau neu hyrwyddo ymgyrchoedd.

Drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol gall Cynghorwyr:-

- Ddysgu am faterion lleol, a phryderon yn eu ward.
- Dod o hyd i'r newyddion a'r cyhoeddiadau diweddaraf gan y Cyngor Sir, awdurdodau lleol eraill, Llywodraeth Cymru a sefydliadau fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- Hyrwyddo eu rôl a'r hyn rydych chi'n ei wneud o ddydd i ddydd.
- Rhannu gwybodaeth yn gyflym ac ar unwaith a chael barn eich etholwyr.

Mae llawer o gynghorwyr eisoes yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, fel Cynghorydd, mae pethau ychwanegol i'w hystyried wrth eu defnyddio, gan gynnwys y Cod Ymddygiad a rheoli disgwyliad.

Ar ôl cael eu hethol, gwahoddir Cynghorwyr i fynychu sesiwn sefydlu ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac mae gan y Cyngor fodiwl e-ddysgu ar gael hefyd.


Bydd pob Cynghorydd yn bersonol gyfrifol am y cynnwys y maent yn ei gyhoeddi a rhaid iddynt gadw at y Cod Ymddygiad wrth bostio gwybodaeth gan fod y Cod Ymddygiad yn berthnasol i gynnwys ar-lein a chyfryngau cymdeithasol, a thrwy gyfeirio ar-lein at eu rôl fel Cynghorydd, ystyrir eu bod yn gweithredu yn rhinwedd eu 'swyddogaeth swyddogol' a bydd y Cod yn berthnasol.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi darparu arweiniad am ddim i Gynghorwyr ynghyd â rhai awgrymiadau a chyngor o ran trin cam-drin ar-lein.

[Cyfryngau cymdeithasol a cham-drin ar-lein - CLILC (wlga.cymru)]

## 4. Gwerthuso

### 4.1 Dadansoddi ac adborth




Er mwyn i unrhyw gyfranogiad y cyhoedd fod yn llwyddiannus, mae'n hanfodol ein bod yn rhoi adborth i'r rhai a gymerodd ran. Rydym yn cydnabod y gall hyn fod yn heriol ac rydym yn

edrych ar opsiynau i ddatblygu hyn ymhellach a sicrhau y gallwn hwyluso’r broses hon i staff a chymunedau'r Cyngor gael mynediad at adborth a'i dderbyn.

Unwaith y bydd y gweithgareddau cyfranogi drosodd, byddwn yn eich diweddaru a'ch cynnwys drwy roi gwybod i chi am y canlyniadau neu roi cyfle i chi, naill ai drwy e-bost, llythyr, trafodaeth wyneb yn wyneb neu ddulliau eraill, gyfranogi ymhellach ar yr un pwnc, os byddwch yn dewis cymryd rhan.

Rydym yn gwerthfawrogi eich mewnbwn a'ch gwybodaeth, felly mae'n bwysig sicrhau ein bod yn ystyried pob llais a sylw. Gwneir hyn drwy gyfeirio at eich mewnbwn mewn dogfennau cryno neu adroddiadau ar y cyfranogiad.

Mae pob ymgysylltiad ac ymgynghoriad yn wahanol, felly bydd amserlenni'n amrywio. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i roi adborth i'n holl gyfranogwyr yn dilyn gweithgareddau cyfranogiad y cyhoedd, naill ai'n unigol neu ar y cyd. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn ffordd a bennir gan y swyddog arweiniol e.e.:

- Hysbysu cyfranogwyr ar lafar / drwy e-bost / ffôn
- Dosbarthu adroddiadau o'r ymatebion a'r penderfyniadau i gyfranogwyr
- Crynodeb o’r dadansoddiad ar wefan gorfforaethol ar ein tudalennau ymgynghori
- Ystyried y cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau ar-lein.

### 4.2 Eich preifatrwydd

Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut rydym yn defnyddio gwybodaeth, cyfnodau cadw a'ch hawliau yn ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan, https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Diogelu-Data-a-Rhyddid-Gwybodaeth/Polisi-Diogelu-Gwybodaeth-a-Hysbysiad-Preifatrwydd.aspx

### 4.3 Gwaith y bydd angen ei flaenoriaethu dros y cyfnod nesaf:

1. Gwella'r ffyrdd y mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn ein penderfyniadau ac yn dylanwadu arnynt
2. Gwella ffyrdd o dderbyn a chynnwys adborth drwy ddefnyddio adnoddau traddodiadol a digidol sydd ar gael

**Ystyried ffyrdd o fesur llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant cyfranogiad neu ddatblygu dangosfwrdd cyfranogiad.**

DRAFT